



ADRODDIAD CWMPASU AR SAFLEOEDD DATBLYGU POSIBL: PWLLHELI

ADRODDIAD ARFARNU DATBLYGIAD

CPF: 4444

CLEIENT: Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd



Dalen Reoli'r Ddogfen

Enw'r Ddogfen:	Adroddiad Arfarnu Datblygiad
Awdur y Ddogfen:	C. Jones
Rheolwr y Prosiect:	O. Griffith
Enw'r Prosiect:	Cwmpasu Safleoedd Datblygu Posibl: Pwllheli

Hanes Adolygu'r Ddogfen

Dyddiad	Rhif y Fersiwn	Crynodeb o'r Newidiadau
25/11/2013	0.01	Darparu'r Drafft Cyntaf, ar gyfer Sylwadau'r Cleient
21/11/2014	0.02	Darparu gwybodaeth ychwanegol am seilwaith cyfleustodau

Cymeradwyo

Cymeradwywyd gan	Llofnod	Dyddiad	Fersiwn
O. E. Griffith		25/11/13	0.01
O. E. Griffith		24/11/14	0.02

Dosbarthiad

Enw	Teitl	Dyddiad	Fersiwn
Nia Haf Davies	Rheolwr Cynllunio (polisi)	24/11/14	0.02

© 2013-14 Cyngor Gwynedd / YGC. Cedwir Pob Hawl.

Mae'r hawlfraint ar unrhyw rhan neu'r cyfan o'r ddogfen hon yn perthyn i Gyngor Gwynedd / YGC o Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SH (y 'Perchennog') ac ni cheir ei defnyddio, gwerthu, trosglwyddo, copïo neu ei hatgynhyrchu yn ei chyfanrwydd neu'n rhannol mewn unrhyw fodd neu ffurf neu ar unrhyw gyfrwng i unrhyw berson heblaw am yn unol â thelerau cydsyniad y Perchennog neu fel arall heb ganiatâd ysgrifenedig y Perchennog ymlaen llaw.



Crynodeb Gweithredol

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn yn gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC), fydd yn gosod y fframwaith polisi cynllunio ar gyfer y ddwy ardal Awdurdod Cynllunio Lleol hyd at 2026. Mae Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd (UPCC) wedi comisiynu YGC i wneud astudiaeth dichonoldeb i weld pa mor addas yw tri safle posibl yn ardal Pwllheli ar gyfer eu cynnwys yn y CDLIC. Mae'r adroddiad hwn yn rhoi crynodeb o'r astudiaethau sydd wedi digwydd, ac yn dangos y canfyddiadau.

Prif nod yr adroddiad hwn yw rhoi crynodeb o'r astudiaethau sydd wedi digwydd a dangos y canfyddiadau o ran ba mor addas yw'r tri safle i'w datblygu yn ystod cyfnod y CDLIC a'r potensial i'w hestyn tu hwnt i gyfnod y CDLIC. Dyma'r elfennau a ystyriwyd:

- Cludiant a symudiad;
- Capasiti'r cyfleustodau;
- Cymeriad y dirwedd a'r olygfa;
- Ecoleg;
- Archeoleg, a hefyd;
- Coedwigaeth.

Ar yr adeg hon, nid yw'r datblygiadau wedi cael eu diffinio'n bendant ac felly mae elfen o ansicrwydd am raddau'r effeithiau fyddai'n gysylltiedig â datblygiad. Fodd bynnag, mae'r dull yma o weithredu'n defnyddio rhagofalon er mwyn sicrhau bod unrhyw nodweddion posibl y gellid effeithio arnynt yn cael eu dangos lle bo modd. Mae'n cael ei argymhell bod arolygon pellach yn digwydd lle bo hynny'n berthnasol, unwaith y bydd mynediad ffurfiol ar gael i'r safleoedd a'r cynigion datblygu wedi cael eu diffinio.

Yn Adran 4 o'r adroddiad, mae'r cyfyngiadau a'r cyfleoedd ar gyfer pob safle i'w gweld, yn ogystal ag egwyddorion datblygu dangosol. Mae'r cyfyngiadau'n cynnwys cyfyngiadau mynediad ar hyd y lonydd bychan, derbynwyr a defnyddwyr sensitif o ran y dirwedd a rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod. Fodd bynnag, mae hefyd gyfleoedd posibl o ganlyniad i roi sylw rhagweithiol i'r cyfyngiadau er mwyn gwneud y defnydd gorau o unrhyw ddatblygiadau ar bob safle.

Rhestr o Acronymau

AOD	Uwchben Datwm Ordnans
BS	Safon Prydeinig
CIEEM	Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol
GCAG	Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd
GIS	System Gwybodaeth Ddaearyddol
CDLIC	Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd Môn a Gwynedd
UPCC	Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd
LANDMAP	Proses Asesu Tirwedd a Gwneud Penderfyniadau
ACT	Ardal Cymeriad Tirwedd
GNR	Gwarchodfa Natur Leol
TDdHE	Tirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol
SBGLI	Safle Bywyd Gwyllt Lleol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
Deddf NERC	Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006
CDU	Cynllun Datblygu Unedol

Cynnwys

1.0	Cyflwyniad	6
1.1	Nodau ac Amcanion	6
2.0	Dulliau	8
2.1	Cyfyngiadau	8
3.0	Y Pynciau ar gyfer yr Adroddiad Cwmpasu	10
3.1	Cludiant a symudiad	10
3.2	Capasiti'r cyfleustodau.	15
3.3	Cymeriad y dirwedd a'r olygfa	20
3.4	Ecoleg	47
3.5	Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol	54
3.6	Coedwigaeth	56
4.0	Casgliadau	57
	Tabl 4.1: Cyfyngiadau a Chyfleoedd ar gyfer Datblygiad a Photensial Twf Safleoedd 1 – 3 yn y Tymor Hir	58
	Tabl 4.2: Egwyddorion Datblygu Dangosol ar gyfer Safleoedd 1 – 3	63

Atodiad A: Cynlluniau a Ffigyrau

A.1: Cynllun Arfarniad Cludiant

A.2: Cynlluniau Cyfleustodau

A.3: Cynlluniau Arfarnu'r Dirwedd


A.4: Arolwg Cynefin Estynedig Rhan 1 - Cynlluniau a Nodiadau Targed

Atodiad B: Ymatebion i Ymgynghori

1.0 Cyflwyniad

Mae Cyngor Gwynedd a Chyngor Sir Ynys Môn ar hyn o bryd yn gweithio ar Gynllun Datblygu Lleol ar y Cyd (CDLIC) fydd yn gosod y fframwaith polisi cynllunio ar gyfer ardaloedd y ddau Awdurdod Cynllunio Lleol hyd at 2016. Bydd y CDLIC yn disodli Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Gwynedd pan fydd y CDLIC yn cael ei fabwysiadu.

Mae Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd Môn a Gwynedd (UPCC) wedi comisiynu YGC i wneud astudiaeth dichonoldeb i weld pa mor addas yw tri safle posibl yn ardal Pwllheli ar gyfer y posibilrwydd o'u cynnwys yn y CDLIC. Mae'r tri safle i'r gogledd o Bwllheli, fel sydd i'w weld yn Ffigwr 1.



Ffigwr 1: Lleoliad y tri safle a astudiwyd ym Mhwllheli

1.1 Nodau ac Amcanion

Er mwyn ateb y nod o ddarparu dyraniadau yn y CDLIC ar sail polisi a gwybodaeth a gyda chyfiawnhad ar eu cyfer, prif amcan yr astudiaeth yma yw rhoi sail gynhwysfawr o dystiolaeth o ba mor addas yw'r tri safle ar gyfer datblygiad yn ystod cyfnod y CDLIC a'u potensial i gael eu hestyn tu draw i gyfnod y CDLIC.

Mae'r dystiolaeth ar hyn o bryd yn awgrymu bod angen lle i unedau tai newydd ym Mhwllheli. Mae'r UPCC nawr yn ystyried sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cyhoeddus am Hoff Strategaeth y CDLIC yn ogystal â rhagamcanion poblogaeth ac aelwydydd 2011, sy'n dod ar gael nawr. Felly, ni chafodd union ffigwr yr unedau tai ei gadarnhau hyd yma a gallai'r targed arfaethedig godi gan fod angen ystyried y potensial ar gyfer twf tymor hir. Fodd bynnag, cytunwyd bod modd defnyddio'r enghraifft ddiweddar ym Mhenrhosgarnedd i roi enghraifft ddangosol o'r nifer y gallai fod modd ei gyrraedd ar bob safle (noder mai dim ond ffigyrau dangosol yw'r rhain, ac y gallent newid:

- Safle 1 (i'r gogledd o Goleg Meirion Dwyfor): 374 o dai
- Safle 2 (Penrallt): 100 o dai
- Safle 3 (Allt Fawr): 60 o dai

Yn ogystal â thai, dangosodd yr Adolygiad o Dir Cyflogaeth bod angen am safle 5ha ar gyfer cyflogaeth.

Roedd angen i'r astudiaeth hon ystyried yr elfennau a ganlyn:

- Cludiant a symudiad: asesu mynediad ar gyfer cerbydau a'r effaith ar lonydd sy'n bodoli'n barod, ac unrhyw argymhellion ar gyfer gwella pob math o gysylltiad cludiant o gwmpas y safleoedd a thrwyddynt;
- Capasiti cyfleustodau: canfod beth yw lleoliad a chapasiti'r gwasanaethau presennol (cyflenwad nwy a thrydan, telegyfathrebu a'r cyflenwad dŵr) ar y cyd gyda darparwyr gwasanaethau a phennu beth y gallai fod angen ei atgyfnerthu, manau cysylltu, ac amserlenni a chostau posibl;
- Cymeriad y dirwedd a'r olygfa: asesu sensitifrwydd a chapasiti cyffredinol y lleoliad, i weld a oes modd i'r dirwedd ddarparu ar gyfer newid yn ymwneud â datblygiad;
- Ecoleg: canfod a oes materion ac effeithiau bioamrywiaeth allent ddigwydd oherwydd datblygiad;
- Archeoleg: asesiad rhagarweiniol o'r posibilrwydd fod olion archeolegol ar y safle a'r effaith bosibl ar yr olion hynny (os oes rhai) yn ogystal â gweddillion archeolegol ac adnoddau treftadaeth ddiwylliannol tu allan i'r safle;
- Coedyddiaeth: asesu'r addasrwydd ar gyfer datblygiad o ran effeithiau posibl ar y stoc o goed

Mae'r adroddiad yma'n ceisio dangos yn eglur y trywydd o dystiolaeth a gasglwyd yn ystod yr astudiaeth desg, astudiaeth maes a'r ymgynghori priodol. Mae canfyddiadau'r adroddiad wedi'u seilio ar y wybodaeth a ddarparwyd ar adeg ei ysgrifennu, a byddai'n arfer da i adolygu canfyddiadau'r adroddiad pe na fydd y prosiect yn mynd ymlaen o fewn 12 mis a/neu fod natur y prosiect yn newid yn sylweddol. Yn ogystal, wrth i fanylion pellach ddod ar gael am union natur y datblygiadau, efallai bydd angen astudiaethau pellach i sicrhau bod eu heffeithiau posibl yn cael eu canfod a'u hasesu.

2.0 Dulliau

Defnyddiwyd y dulliau a ganlyn wrth gasglu'r wybodaeth roedd ei hangen ar bob testun:

Cludiant a symudiad

Cwblhawyd yr asesiad ar gyfer y pwnc hwn gan uned ffyrdd YGC gan ddefnyddio'r canllawiau cynllunio cludiant ffordd sef y Llawlyfr Dylunio ar gyfer Ffyrdd a Phontydd. Roedd y gwaith yn cynnwys ymweliad safle, canfod lle gallai fod angen gwella'r ffyrdd, a darparu dyluniadau amlinell o welliannau posibl a chynlluniau'n gysylltiedig â hynny, ac amcangyfrifon cost.

Capasiti'r cyfleustodau

Cwblhawyd yr asesiad hwn hefyd gan uned ffyrdd YGC, ac roedd yn golygu ymgynghori â'r gwasanaethau statudol trwy roi rhybuddion C2, casglu eu hymatebion at ei gilydd, gofyn am brofion capasiti ac adolygu lleoliadau gwasanaeth a'u capasiti hwy.

Cymeriad y dirwedd a'r olygfa.

Penodwyd ymgynghorydd tirwedd arbenigol i wneud yr elfen hon o'r astudiaeth. Roedd eu dull nhw o weithio'n golygu:

- cerdded ar y safleoedd, i weld gymaint ag y bo modd ohonynt
- asesiad o sensitifrwydd a chapasiti'r dirwedd ar gyfer pob safle (ar sail gwaith desg ac ar y safle) i ganfod eu prif nodweddion, y cefndir tirwedd/trefwedd a'r derbynwyr;
- cofnodi canfyddiadau ar gynlluniau, yn cynnwys canlyniadau arolygon ffotograffig;
- adolygiad o ganllawiau cynllunio ar gyfer y dirwedd, a'r cefndir polisi;
- datblygu'r materion allweddol ac egwyddorion lliniaru i'r dirwedd ar gyfer pob safle, er mwyn eu hystyried a'u rhoi i mewn i brif gynllun dyrannu tir strategol;
- paratoi sail o dystiolaeth a chyfiawnhad gyda rhesymeg lawn i ddangos beth yw gallu'r safleoedd i dderbyn datblygiad, neu peidio, a'u cymharu gyda'i gilydd.
- tynnu sylw at fanteision y gwahanol safleoedd ac at liniaru effeithiau negyddol, gan ganolbwyntio ar effeithiau ehangach ar y dirwedd, y golygfeydd oddi wrth eiddo cyfagos, llwybrau troed a'r olygfa o ran lonydd/strydoedd.

Ecoleg

Aeth uned amgylchedd YGC ati i asesu'r materion ac effeithiau bioamrywiaeth allent godi o ganlyniad i ddatblygiad. Roedd dull yr astudiaeth hon yn cynnwys:

- casglu a nodi cofnodion bioamrywiaeth cynharach o bob safle (trwy gyfrwng data Cofnod a gafwyd o ardal yr astudiaeth yn 2010) ac o barth rhagod 200m o gwmpas pob safle, er mwyn gweld a oedd rhywogaethau a chynefinoedd wedi'u gwarchod a rhai Adran 42 yn bresennol, neu wedi bod yn bresennol;

- defnyddio GIS i ganfod unrhyw safleoedd a nodweddion sensitif fel safleoedd Natura 2000, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd Bywyd Gwylt Lleol (SBGLI) o fewn 2km.
- ymgynghori â Chyfoeth Naturiol Cymru i weld a oedd unrhyw faterion sylweddol o ran rhywogaethau a chynefinoedd wedi'u gwarchod yn ardal yr astudiaeth;
- cwblhau arolwg cynefin Rhan 1 ar gyfer pob safle yn unol â llawlyfr y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur ar gyfer Arolygon Cynefin Rhan 1 a'r Canllawiau ar Gyfer Asesiadau Ecolegol, i weld a oedd cyfyngiadau ecolegol ar unrhyw safle ac yn y parthau rhagod o'u cwmpas. Mae'r ecolegydd yn aelod llawn o'r Sefydliad Siartredig Ecoleg a Rheolaeth Amgylcheddol (MCIEEM).

Archeoleg

Cwblhawyd yr asesiad hwn gan uned amgylchedd YGC yn dilyn astudiaeth desg ac ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol fel a ganlyn:

- defnyddio GIS i ganfod unrhyw nodweddion dynodedig o'r dreftadaeth ddiwylliannol ac archeoleg allent fod yn bresennol yn ardal yr astudiaeth;
- ymgynghori â Cadw a Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd i ganfod a oes unrhyw weddillion archeolegol a nodweddion treftadaeth ddiwylliannol yn debygol o fod yn bresennol yn ardal yr astudiaeth, a hefyd;
- defnyddio'r wybodaeth a gafwyd ar gyfer unrhyw asesiad pellach ac arolygon maes mae'n debygol y bydd eu hangen os bydd datblygiad yn digwydd.

Coedyddiaeth

Cwblhawyd yr asesiad hwn gan uned amgylchedd YGC ac roedd yn golygu fel a ganlyn:

- defnyddio GIS a'r arolwg maes Rhan 1 i gadarnhau a oes unrhyw stoc o goed yn bresennol ar y tri safle neu'n agos atynt;
- cael eglurhad o ran CDU Gwynedd, a'r CDLIC sy'n dod at ei gilydd nawr, a oes unrhyw lwfans wedi'i wneud i'r dyfodol ar gyfer stoc o goed ar y safleoedd neu'n agos atynt, a hefyd;
- ystyried yr effeithiau y gallai datblygiad eu cael ar goed aeddfed sy'n bresennol yn ardal yr astudiaeth, yn unol ag egwyddorion Safon Prydeinig 5837:2012 – Coed mewn perthynas â dyluniad, dymchwel ac adeiladu.

2.1 Cyfyngiadau

Roedd cyfyngiadau ar fynediad, felly doedd dim modd cwblhau arolwg ecolegol Rhan 1 hyd at y lefel o fanylder fyddai'n digwydd fel arfer. Oherwydd hynny, fe ddefnyddiodd y syrfêwr hawliau tramwy cyhoeddus a gweledfannau lle bo modd, i chwilio am dystiolaeth a nodweddion sy'n dangos bod rhywogaethau a chynefinoedd wedi'u gwarchod yn bresennol yno. Fodd bynnag, am

nad oedd modd cael mynediad llawn i'r tir ar bob safle mae'n bosibl bod rywfaint o dystiolaeth a nodweddion heb gael eu gweld yn ystod yr arolwg.

Ar yr adeg hon, nid yw'r datblygiadau wedi cael eu diffinio'n bendant ac felly mae elfen o ansicrwydd o ran maint yr effeithiau'n gysylltiedig â hwy. Fodd bynnag, defnyddiwyd dull rhagofalus o weithredu er mwyn sicrhau bod unrhyw nodweddion posibl y gellid effeithio arnynt yn cael eu canfod lle bo modd.

3.0 Y Pynciau ar gyfer yr Adroddiad Cwmpasu

3.1 Cludiant a symudiad

Fel yr eglurwyd yn Adran 1.1, fe sefydlwyd nifer y datblygiadau posibl ar gyfer pob safle trwy ddefnyddio gwybodaeth am ddatblygiadau diweddar o faint tebyg; roedd hyn yn rhoi nifer o eiddo i'r hecтар, a lluosu hynny wedyn gyda'r arwynebedd o dir ar gyfer pob safle, i roi fel a ganlyn:

- Safle 1 = 374 o eiddo
- Safle 2 = 100 o eiddo
- Safle 3 = 60 o eiddo

Ar ôl pennu nifer yr eiddo, gwnaethpwyd asesiad i bennu beth allai'r effaith fod ar y rhwydwaith ffyrdd yn lleol. Ar gyfer yr asesiad, roedd rhagolwg y byddai pob eiddo'n achosi pedair taith car ychwanegol bob dydd; mae hynny wedi'i seilio ar ddatblygiadau cynharach o faint tebyg, gan ddefnyddio TRICS 2011 (a).

Gwnaethpwyd ymweliad safle ar 14 Hydref i asesu statws presennol y ffyrdd sy'n bodoli'n barod i mewn i safleoedd 1 i 3 ac o'u cwmpas.

3.1.1 Llinell Sylfaen

Safleoedd 1 a 2

Gan fod Safleoedd 1 a 2 yn agos at ei gilydd, fe ystyriwyd hwy gyda'i gilydd.

Mynediad i gerbydau (gweler Atodiad A.1, Cynllun 4444/FE/01)

Mae tair brif ffordd o gael mynediad i Safleoedd 1 a 2. Y rheiny yw:

- Mynediad o'r A499 tua'r gogledd;
- Mynediad o'r A497 ar hyd Stryd Moch/Allt Salem, a hefyd;
- Mynediad o ardal Llannor.

Yr A499 tua'r Gogledd (gweler Atodiad A.1, Cynllun 4444/FE/01)

Mae'r ffordd dosbarth 3 bresennol sy'n arwain o'r A499 i safle 1 yn tua 1.4km o hyd. Mae gan y fynedfa i'r ffordd dosbarth 3 welededd wael tua'r de (tuag at Bwllheli). Wedyn mae'r ffordd yn codi'n serth o'r fynedfa a throi ar 90° tuag at locws. O locws mae gwelededd at ymlaen yn gymharol dda hyd at yr eiddo o'r enw Bryn Crin. O Fryn Crin ymlaen mae geometreg y ffordd yn salach wrth iddi fynd yn droellog; mae hynny'n cael effaith sylweddol ar welededd tuag at ymlaen hyd at Safle 1. Ar hyn o bryd, byddai'n rhaid i gerddwyr ddefnyddio'r ffordd hon i gyrraedd y safle.

Mynediad o'r A497 ar hyd Stryd Moch ac Allt Salem (gweler Atodiad A.1, Cynllun 4444/FE/01)

Dyma'r llwybr mwyaf uniongyrchol o ardal Abersoch / Llanbedrog (gorllewin Penrhyn Llŷn) i Safleoedd 1 a 2. Y llwybr ddefnyddir fwyaf aml wrth fynd trwy Bwllheli i gyrraedd Safleoedd 1 a 2 yw troi tua'r gogledd yn y gylchfan ar Sgwâr y Maes. O'r gylchfan honno mae'r ffordd yn rhedeg tua'r gogledd trwy Stryd Moch; ffordd ddwyffordd gyda throedffyrdd ar y ddwy ochr. Mae parcio ar y stryd i'w gael tu allan i Eglwys Penlan. Ffordd gul yw hon (4.8m o led) a bydd trafferthion yn digwydd yn aml rhwng cerddwyr a cherbydau.

Ym mhen gogleddol Stryd Moch mae croesffordd sy'n cysylltu Stryd Llŷn a'r Stryd Fawr. Wedyn mae'r ffordd yn rhedeg heibio Stryd Llŷn Uchaf ar yr ochr dde ac ymlaen tuag at Goleg Meirion Dwyfor, lle mae natur daearyddiaeth y ffordd yn mynd yn serth. Byddai'n rhaid i bobl sy'n dymuno cerdded o'r Stryd Fawr i Safleoedd 1 a 2 gerdded ar y ffordd o gyffordd Stryd Llŷn Uchaf ymlaen.

Mynediad o ardal Llannor (gweler Atodiad A.1, Cynllun 4444/FE/01)

Gallai cerbydau gyrraedd safleoedd 1 a 2 o ardal Llannor trwy ddefnyddio cysylltiad i'r A497 a'r B4354 (gogledd-orllewin Penrhyn Llŷn).

Safle 3

Mynediad o'r A499 tua'r De i Safle 3 (gweler Atodiad A.1, Cynllun 4444/FE/01)

Mae Safle 3 ar ochr chwith y ffordd, yn dechrau o'r ffordd fynediad at Lwyn-Ffynnon ac yn gorffen 50m oddi wrth y ffordd dosbarth 3 sydd ar yr ochr dde. Y ddwy brif ffordd i gael mynediad i'r safle yw'r

- A499 tua'r de, a hefyd yr;
- A499 tua'r gogledd.

Y ffordd hawsaf o gael mynediad i Safle 3 o Bwllheli ac ochr orllewinol Penrhyn Llŷn yw trwy ganol tref Pwllheli gan ddilyn yr A497 a'r A499. Gan gychwyn o gylchfan yr A497 / A499, mae gan yr A499 droedffordd ar ddwy ochr y ffordd. Mae'r droedffordd ar yr ochr dde'n gorffen wrth yr eiddo o'r enw Bryn Fednant. Ar yr ochr chwith, mae'r droedffordd yn gorffen 100m i'r de o'r fynedfa i Blas Tirion.

Mynediad o'r A499 tua'r Gogledd i Safle 3 (gweler Atodiad A.1, Cynllun 4444/FE/01)

Y ffordd fwyaf cyfleus o gael mynediad i safle 3 o gyfeiriad y gogledd yw trwy ddefnyddio'r A499. Bydd y llwybr hwn yn gallu cymryd yr holl gerbydau o'r gogledd.

Mae'r A499 o Lwyn Hudol yn rhedeg at i lawr yn serth wrth ddechrau'r safle. Mae'r droedffordd yn gorffen wrth ymyl Bryn Tirion. Mae dwy gyffordd ar hyd y llwybr mynediad; y gyntaf wrth y gyffordd gyda locws a'r llall yn Lôn Nant - Stigallt. Mae safle 3 ychydig ar ôl y gyffordd Lôn Nant - Stigallt. Ar hyn o bryd, bydd pobl sy'n dymuno cerdded y ffordd hon yn cerdded ar y ffordd ei hunan.

3.1.2 Awgrymu gwelliannau

Ar sail yr asesiad capasiti cludiant sydd wedi'i grynhoi yn Rhan 3.1.1, mae'r gwelliannau a ganlyn yn cael eu hargymell er mwyn sicrhau bod y seilwaith ffyrdd lleol yn ddigonol i ateb y cynnydd mewn gofynion oherwydd datblygu safleoedd 1 i 3. Byddai'r holl welliannau'n dilyn egwyddorion y *Manual for Streets*.

Safleoedd 1 a 2 (gweler Atodiad A.1, Cynlluniau 4444/FE/02 – FE/03)

A499 tua'r Gogledd

- 1) Gwella'r ffordd Dosbarth 3 o gyffordd yr A499 gyda Bryn Tirion / locws hyd at Safle 1 (1.4km o hyd); bydd hyn yn cynnwys gwella'r gyffordd gyda'r A499 hyd at safon dylunio *TD42/95 Geometric Design of Major / Minor Priority Junctions*. Lledu'r ffordd Dosbarth 3 hyd at o leiaf 5.5m.

Amcangyfrif o'r Gost Adeiladu

Byddai disgwyl i waith gwella'r ffordd Dosbarth 3 bresennol (1.4km o hyd) a'r gyffordd gyda'r A499 gynnwys:

- Clirio'r safle;
- Gwaith cloddio.
- Adeiladu ffordd newydd, a hefyd;
- Adeiladu waliau terfyn newydd.

Yr amcangyfrif o gyfanswm cost y gwaith hwn fyddai £1.7 miliwn.

- 2) Creu ffordd fynediad newydd (590m o hyd, o leiaf 5.5m o led) o'r A499 (i'r gogledd o Bwllheli) sy'n gorffen wrth ymyl Coleg Meirion Dwyfor. Cafodd y dewis yma ei ystyried yn gynharach fel rhan o adroddiad dichonoldeb cynharach ar y posibiladau o ddatblygu yn yr ardal hon (Adroddiad Dichonoldeb ar Gyfleoedd Datblygu Tir Arfaethedig ym Mhwllheli, Drafft 2, Mai 2006, YGC).

Byddai disgwyl i'r gwelliant o gael ffordd fynediad newydd (590m o hyd) gynnwys:

- Clirio'r safle;
- Gwaith cloddio.
- Adeiladu ffordd a chylchfan newydd;
- Cwlfertau, a hefyd;
- Adeiladu waliau terfyn.

Yr amcangyfrif o gyfanswm cost y gwaith hwn fyddai £1.3 miliwn.

- 3) Creu gwasanaeth bws i gysylltu â'r coleg er mwyn lleihau nifer y ceir yn mynd ar y rhwydwaith ffyrdd lleol a chefnogi dewisiadau teithio mwy cynaliadwy.

Mynediad o'r A497 trwy Stryd Moch ac Allt Salem

Gan fod nifer fawr o fyfyrwyr yn defnyddio Stryd Moch ac Allt Salem fel llwybr i gyrraedd Coleg Meirion Dwyfor, gallai cynnydd mewn cerbydau achosi trafferthion gyda cherddwyr a myfyrwyr. Ateb i hyn yw lledu'r gerbydlon ar Allt Salem trwy ddefnyddio'r tir sydd ar gael ar yr ochr orllewinol a chreu cysylltiad troedffordd ar yr ochr dde. Byddai'r droedffordd hon yn cysylltu gyda Throed yr Allt a'r droedffordd fynediad i'r coleg.

Byddai disgwyl i'r droedffordd a'r gwaith wynebu newydd ar y ffordd gynnwys:

- Clirio'r safle;
- Gwaith cloddio.
- Adeiladu troedffordd 1.8m newydd, 76m o hyd, a hefyd;
- Wyneb newydd ar y ffordd.

Yr amcangyfrif o gyfanswm cost y gwaith adeiladu hwn fyddai £250,000.

Mynediad o ardal Llannor

Dyma'r gwelliannau a awgrymir i wella mynediad o ardal Llannor (gweler Atodiad A.1, Cynllun 4444/FE/05):

- Gwella gwelededd ar y gyffordd gyferbyn â'r eiddo a elwir yn Hafren (i'r gogledd o Goleg Meirion Dwyfor)
- Gwella gwelededd ar y gyffordd gyferbyn â'r eiddo a elwir yn Gae Llan (i'r gorllewin o Gapel Denio)
- Gwella gwelededd ar y gyffordd gyferbyn â'r eiddo a elwir yn Fryn y Felin (i'r de o Bont y Ddwryd)

Yr amcangyfrif o gyfanswm cost y gwelliannau hyn i'r cyffyrdd yw £170,000.

Safle 3

Yr A499 tua'r De

Yr awgrymiadau ar gyfer gwella mynediad i ac o Safle 3 o'r A499 tua'r de yw gwaith yn cynnwys fel a ganlyn (gweler Atodiad A.1, Cynllun 4444/FE/06):

- Estyn y droedffordd bresennol i 2.5m (440m o hyd) ar yr ochr chwith, a hefyd;
- Estyn y cyfyngiad cyflymder 30 m.y.a. hyd at derfyn gogleddol Safle 3 er mwyn gostwng cyflymder cerbydau wrth y fynedfa i'r safle.

Yr amcangyfrif ar gyfer y gwaith adeiladu i estyn y droedffordd (2.5m o led, 440m o hyd) ac estyn y cyfyngiad cyflymder presennol fyddai £130,000.

A499 tua'r Gogledd

Yr awgrymiadau ar gyfer gwella mynediad i ac o Safle 3 o'r A499 tua'r gogledd yw gwaith yn cynnwys fel a ganlyn (gweler Atodiad A.1, Cynllun 4444/FE/07 & FE/08):

- Estyn y droedffordd bresennol ar yr ochr chwith (430m o hyd, 2.5m o led);
- Creu cyfyngiad cyflymder 40 m.y.a. hyd at derfyn gogleddol Safle 3;

Yr amcangyfrif ar gyfer y gwaith adeiladu i estyn y droedffordd a chreu cyfyngiad cyflymder 40 m.y.a. fyddai £125,000.

Gwella Lôn Nant – Stigallt: byddai lledu a gwella aliniad llorweddol a fertigol y ffordd ddi-ddosbarth hon yn rhoi dewis o lwybr arall i gael mynediad at Safle 3 o'r dwyrain (Cricieth / Porthmadog). Byddai hefyd yn lleihau tagfeydd yng nghanol tref Pwllheli, yn enwedig ar gylchfan yr A497 / A499. Byddai disgwyl i'r gwelliannau i Lôn Nant – Stigallt gynnwys:

- Clirio'r safle;
- Gwaith cloddio.
- Lledu'r ffordd, a hefyd;
- Waliau terfyn newydd.

Yr amcangyfrif ar gyfer y gwaith adeiladu yma yw £400,000.

Tabl 3.1.1: Crynodeb o Welliannau a Awgrymir i'r Rhwydwaith Ffyrrd ac Amcangyfrif o'r Costau

Safleoedd 1 a 2	
<i>Gwelliant a Awgrymir i'r Rhwydwaith Ffyrrd</i>	<i>Amcangyfrif o'r gost</i>
Gwella'r ffordd Dosbarth 3 o gyffordd yr A499 gyda Bryn Tirion / locws i Safle 1	£1.7 miliwn
Creu ffordd fynediad newydd o'r A499 (i'r gogledd o Bwllheli) sy'n gorffen wrth ymyl Coleg Meirion Dwyfor	£1.3 miliwn
Troedffordd newydd ac wynebu'r ffordd ar hyd Stryd Moch / Allt Salem	£250,000

Gwelliannau i'r gyffordd ar gyfer mynediad o Lannor	£170,000
<i>CYFANSWM Y CYFAN</i>	<i>£3.42 miliwn</i>
Safle 3	
<i>Gwelliant a Awgrymir i'r Rhwydwaith Ffyrdd</i>	<i>Amcangyfrif o'r gost</i>
Yr A499 tua'r De: estyn y droedffordd a'r cyfyngiad 30 m.y.a. presennol	£130,000
Yr A499 tua'r Gogledd: estyn y droedffordd a chreu cyfyngiad 40 m.y.a.	£125,000
Yr A499 tua'r Gogledd: Lledu a gwella Lôn Nant Stigallt	£400,000
<i>CYFANSWM Y CYFAN</i>	<i>£655,000</i>

3.2 Capasiti cyfleustodau

Mae'r cwmnïau cyfleustodau a ganlyn yn gwasanaethu'r ardaloedd o gwmpas Safleoedd 1, 2 a 3 ac felly cysylltwyd â nhw i gael gwybodaeth am y seilwaith cyfleustodau oedd ganddynt.

- Trydan: Scottish Power
- Nwy: Wales & West Utilities
- Telathrebu: BT
- Cyflenwad Dŵr: Dŵr Cymru/Welsh Water

Defnyddiwyd y wybodaeth oddi wrthynt hwy ar gyfer y rhan llinell sylfaen o'r bennod hon, ac i ganfod unrhyw gyfleoedd a chyfyngiadau'n gysylltiedig â chapasiti a chyflenwad cyfleustodau ar gyfer Safleoedd 1 – 3.

Gellir gweld gwybodaeth gefndir yn Atodiad A.2 (yn cynnwys cynlluniau safle), wedi'i darparu gan y cwmnïau cyfleustodau.

3.2.1 Llinell sylfaen

Safle 1

Nwy

Mae'r Brif Bibell Nwy agosaf tua 193m i'r de o derfyn y safle ac yn Brif Gyflenwad Pwysedd Isel PE 90mm.

Trydan

Mae ceblau uwchben, foltedd uchel, foltedd isel a 33kV yn rhedeg trwy Safle 1 ac yn dod at ei gilydd yn yr is-orsaf ger Bryn Eglwys. Mae ceblau dan ddaear 33kV yn cyflenwi'r eiddo preswyl ym

mhen gorllewinol eithaf y safle, lle mae'r ceblau'n dilyn y ffordd sy'n gwahanu Safleoedd 1 a 2. Gweler Atodiad A.2.

Telathrebu

Mae Safle 1 yn cael ei gyflenwi gan offer uwchben ar y terfyn gorllewinol pellaf, lle mae'r ceblau uwchben yn rhedeg ar hyd y ffordd sy'n gwahanu Safle 1 oddi wrth Safle 2. Mae cyfarpar dan ddaear hefyd yn rhedeg tua'r dwyrain i mewn i Safle 1, ar hyd y ffordd tuag at Gapel Deugorn, lle mae'n dychwelyd at gyfarpar uwchben sy'n rhedeg tua'r gogledd i gyflenwi Henllys. Gweler Atodiad A.2.

Dŵr

Mae dwy bibell ar gyfer y prif gyflenwad dŵr, yn rhedeg i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain i mewn i hanner gorllewinol Safle 1. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes unrhyw seilwaith carthffos yn agos at y safle. Gweler Atodiad A.2 am gynlluniau'n dangos y pibelli dŵr prif gyflenwad ar y safle.

Safle 2

Nwy

Mae'r Brif Bibell Nwy agosaf tua 130m i'r de-ddwyrain o derfyn y safle ac yn Brif Gyflenwad Pwysedd Isel PE 90mm. Gweler Atodiad A.2.

Trydan

Mae lein uwchben foltedd isel yn dilyn y ffordd sydd ar derfyn gogledd-ddwyreiniol y safle a lein uwchben foltedd uchel yn croesi rhan ogleddol y safle. Mae ceblau dan ddaear 33kV yn cyflenwi'r eiddo presennol ar derfynau gogleddol a dwyreiniol y safle. Gweler Atodiad A.2.

Telathrebu

Mae Safle 2 yn cael ei gyflenwi gan gyfarpar uwchben sydd ar derfyn dwyreiniol eithaf y safle, lle mae'r ceblau uwchben yn rhedeg ar hyd y ffordd sy'n gwahanu Safle 1 oddi wrth Safle 2. Mae'r ceblau uwchben yn mynd i ffwrdd ar gangen i mewn i Safle 2 i gyflenwi'r clwstwr o dai o'r enw Bryn y Felin, Bungalow Felin, Armon a Felin Uchaf, sydd ar derfyn gogledd-orllewinol y safle. Gweler Atodiad A.2.

Dŵr

Does dim prif gyflenwad dŵr tu mewn i Safle 2, ond mae prif bibell ddŵr yn rhedeg ar hyd llinell y ffordd sydd ar ffin ddwyreiniol y safle ac yn derfyn rhwng Safleoedd 1 a 2. Fodd bynnag, mae'n ymddangos nad oes unrhyw seilwaith carthffosiaeth yn agos at y safle. Gweler Atodiad A.2.

Safle 3

Nwy

Mae'r Brif Bibell Nwy agosaf tua 2.5m i'r de o derfyn y safle ac yn Brif Gyflenwad Pwysedd Isel PE 90mm. Gweler Atodiad A.2.

Trydan

Does dim seilwaith trydan tu mewn i Safle 3 ar hyn o bryd, ond mae lein uwchben foltedd uchel a cheblau dan ddaear foltedd isel ger terfyn de-orllewinol y safle, yn rhedeg ar hyd y ffordd fechan i Lwyn y Ffynnon. Gweler Atodiad A.2.

Telathrebu

Mae gan Safle 3 gyfarpar uwchben a than ddaear yn rhedeg ar hyd ei derfynau deheuol a dwyreiniol, a chyfarpar uwchben yn dod i ffwrdd fel cangen trwy'r safle i gyfeiriad y gogledd-ddwyrain tuag at Lwyn y Ffynnon a Phlastirion. Gweler Atodiad A.2.

Dŵr

Mae prif gyflenwad dŵr yn rhedeg ar hyd derfynau deheuol a dwyreiniol y safle a hefyd ar hyd y ffordd fechan at Lwyn Ffynnon, sy'n ffurfio terfyn de-orllewinol y safle. Mae pibell garthffosiaeth sy'n cymryd cyfuniad o ddŵr budr a dŵr wyneb yn rhedeg o dan yr A499 yn union i'r de-orllewin o'r safle. Gweler Atodiad A.2.

3.2.2 Awgrymu Gwelliannau

Gan ddefnyddio'r wybodaeth llinell sylfaen sydd wedi'i chrynhoi yn Adran 3.2.1, mae'r gwelliannau a ganlyn yn cael eu hargymell er mwyn sicrhau bod y seilwaith Cyfleustodau'n ddigonol i ateb y gofynion ychwanegol o ganlyniad i ddatblygiad newydd ar Safleoedd 1 i 3. Dylid nodi bod prinder gwybodaeth am union fanylion y datblygiadau arfaethedig yn golygu nad oedd modd cael gwybodaeth gynhwysfawr oddi wrth yr holl gwmnïau cyfleustodau am yr angen i atgyfnerthu, pwyntiau cysylltu a'r costau sy'n gysylltiedig â rhain.

Safle 1

Nwy

Gofynnwyd i Wales & West Utilities ddarparu gwybodaeth am y gwelliannau arfaethedig y byddai eu hangen i'r seilwaith er mwyn cysylltu'r datblygiad arfaethedig ar Safle 1 gyda'r rhwydwaith nwy presennol. Byddai angen gwaith i gysylltu gyda'r prif gyflenwad nwy LP PE 125mm o ddiamedr ac wedyn gosod prif gyflenwad nwy LP PE 250mm o ddiamedr hyd at derfyn y safle; pellter o tua 264m. Byddai angen atgyfnerthu'r rhwydwaith am tua 121m o'r LP PE 180mm o ddiamedr er mwyn ateb y galw am nwy. Gweler Atodiad A.2. Amcangyfrifwyd y byddai'n costio £114,072 i Wales & West Utilities wneud y gwaith hwn.

Trydan

Cysylltwyd â Scottish Power i holi am y gwelliannau arfaethedig y byddai eu hangen i'r seilwaith ar gyfer cysylltu'r datblygiad arfaethedig ar Safle 1 gyda'r rhwydwaith trydan presennol. Yn eu hateb hwy, dywedwyd ganddynt y byddai angen mwy o wybodaeth am nifer y tai, nifer yr ystafelloedd gwely, y math o system wresogi i'w defnyddio a threfn gwneud y gwaith dros gyfnod o amser cyn y gallent roi gwybodaeth fanwl am gapasiti'r rhwydwaith a'r gwaith atgyfnerthu a chostau'n gysylltiedig â hynny. Ond, fodd bynnag, os cymerir y byddai yno gymysgedd o dai 3 a 4 ystafell wely, gallai fod galw am lwythi o 475kVA. Byddai hynny'n dod o ail is-orsaf newydd wedi'i lleoli'n ganolog ar y safle, yn cael ei bwydo oddi wrth y leiniau Foltedd Uchel presennol sy'n croesi'r safle ar hyn o bryd. Byddai cyflenwad foltedd isel wedyn yn cylchredeg trwy'r safle. Nodwyd y gallai fod angen gwriad i leiniau trydan i ddarparu ar gyfer y tai, ond byddai modd penderfynu ar hynny ar ôl cael cynllun.

Telathrebu

Gan fod cyfarpar dan ddaear ac uwchben yn agos at y safle arfaethedig, nid yw'n cael ei ragweld y bydd unrhyw drafferth i gysylltu gyda'r seilwaith telathrebu presennol. Fodd bynnag, ni ddarparodd BT unrhyw wybodaeth am y manylion a chostau wrth gysylltu gyda'r seilwaith presennol.

Dŵr

Gan fod y prif gyflenwadau dŵr yn agos at Safle 1, nid yw'n cael ei ragweld y bydd unrhyw drafferth i gysylltu gyda'r seilwaith dŵr presennol, er y gallai fod costau uwch wrth gysylltu gydag unrhyw seilwaith carthffosiaeth. Fodd bynnag, ni ddarparodd Dŵr Cymru/Welsh Water unrhyw wybodaeth am fanylion a chostau cysylltu gyda'r seilwaith presennol.

Safle 2

Nwy

Gofynnwyd i Wales & West Utilities ddarparu gwybodaeth am y gwelliannau arfaethedig y byddai eu hangen i'r seilwaith er mwyn cysylltu'r datblygiad arfaethedig ar Safle 2 gyda'r rhwydwaith nwy presennol. Byddai angen gwaith i gysylltu gyda'r prif gyflenwad nwy LP PE 125mm o ddiamedr ac wedyn gosod prif gyflenwad nwy LP PE 125mm o ddiamedr hyd at derfyn y safle; pellter o tua 139m. Gweler Atodiad A.2. Amcangyfrifwyd y byddai'n costio £37,640 i Wales & West Utilities wneud y gwaith hwn.

Trydan

Cysylltwyd â Scottish Power i holi am y gwelliannau arfaethedig y byddai eu hangen i'r seilwaith ar gyfer cysylltu'r datblygiad arfaethedig ar Safle 2 gyda'r rhwydwaith trydan presennol. Yn eu hateb hwy, dywedwyd y byddai angen mwy o wybodaeth am nifer y tai, nifer yr ystafelloedd gwely, y math o system wresogi i'w defnyddio a threfn gwneud y gwaith dros gyfnod o amser cyn y gallent

roi gwybodaeth fanwl am gapasiti'r rhwydwaith a'r gwaith atgyfnerthu a chostau'n gysylltiedig â hynny. Ond, fodd bynnag, os cymerir y byddai yno gymysgedd o dai 3 a 4 ystafell wely, gallai fod galw am lwythi o 133kVA. Yn debyg i'r sefyllfa ar Safle 1, byddai hynny'n dod o ail is-orsaf newydd wedi'i lleoli'n ganolog ar y safle, yn cael ei bwydo oddi wrth y leiniau Foltedd Uchel presennol sy'n croesi'r safle ar hyn o bryd. Byddai cyflenwad foltedd isel wedyn yn cylchredeg trwy'r safle. Eto hefyd, mae'n bosibl y byddai angen gwro'r ceblau foltedd uchel presennol, gan ddibynnu ar leoliad y tai.

Telathrebu

Gan fod cyfarpar dan ddaear ac uwchben yn agos at y safle arfaethedig, nid yw'n cael ei ragweld y bydd unrhyw drafferth i gysylltu gyda'r seilwaith telathrebu presennol. Fodd bynnag, ni ddarparodd BT unrhyw wybodaeth am y manylion a chostau wrth gysylltu gyda'r seilwaith presennol.

Dŵr

Gan fod y prif gyflenwadau dŵr yn agos at Safle 2, nid yw'n cael ei ragweld y bydd unrhyw drafferth i gysylltu gyda'r seilwaith dŵr presennol, er y gallai fod costau uwch wrth gysylltu gydag unrhyw seilwaith carthffosiaeth. Fodd bynnag, ni ddarparodd Dŵr Cymru/Welsh Water unrhyw wybodaeth am fanylion a chostau wrth gysylltu gyda'r seilwaith presennol.

Safle 3

Nwy

Gofynnwyd i Wales & West Utilities ddarparu gwybodaeth am y gwelliannau arfaethedig y byddai eu hangen i'r seilwaith er mwyn cysylltu'r datblygiad arfaethedig ar Safle 3 gyda'r rhwydwaith nwy presennol. Byddai angen gwaith i gysylltu gyda'r prif gyflenwad nwy PE LDP 90mm o ddiamedr ac wedyn gosod prif gyflenwad nwy LP PE 125mm o ddiamedr hyd at derfyn y safle; pellter o tua 19m. Gweler Atodiad A.2. Amcangyfrifwyd y byddai'n costio £14,895 i Wales & West Utilities wneud y gwaith hwn.

Trydan

Gofynnwyd i Scottish Power am y gwelliannau arfaethedig y byddai eu hangen i'r seilwaith ar gyfer cysylltu'r datblygiad arfaethedig ar Safle 3 gyda'r rhwydwaith trydan presennol. Byddai'r gofyn am drydan ar y safle hwn yn weddol gyfyng ac mae mewn lle gwledig, felly gallai is-orsaf lai o faint ar bolion ddarparu ar gyfer y galw. Wedyn byddai modd gosod cyflenwad foltedd isel i dai unigol o gwmpas y safle.

Telathrebu

Gan fod cyfarpar dan ddaear ac uwchben yn barod agos at y safle arfaethedig, nid yw'n cael ei ragweld y bydd unrhyw drafferth i gysylltu gyda'r seilwaith presennol. Fodd bynnag, ni ddarparodd BT unrhyw wybodaeth am y manylion a chostau wrth gysylltu gyda'r seilwaith presennol.

Dŵr

Gan fod y prif gyflenwadau dŵr a charthffosiaeth yn agos at Safle 3, nid yw'n cael ei ragweld y bydd unrhyw drafferth i gysylltu gyda'r seilwaith presennol. Fodd bynnag, ni ddarparodd Dŵr Cymru/Welsh Water unrhyw wybodaeth am fanylion a chostau wrth gysylltu gyda'r seilwaith presennol.

3.3 Cymeriad y dirwedd a'r olygfa

Daeth y wybodaeth a ganlyn o'r Adroddiadau Arfarniad Tirwedd gan Gillespies (penseiri tirwedd). Gweler Atodiad A.3 am y cynlluniau arfarniad tirwedd ar gyfer y tri safle.

3.3.1 Llinell sylfaen

Rhoddodd Cyfoeth Naturiol Cymru y sylwadau am ganlyn am nodweddion tirwedd yn ardal yr astudiaeth. Mae eu hymateb llawn i'r ymgynghori i'w weld yn Atodiad B.

Mae pob un o'r safleoedd posibl tu mewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Cofrestredig Llŷn ac Ynys Enlli. Er nad yw hynny'n ddynodiad statudol, mae Pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru'n dweud y dylai ei fod yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio, a rhaid rhoi ystyriaeth briodol iddo.

Felly rhaid i'r UPCC sicrhau bod yr effeithiau posibl ar y dirwedd hon, allent ddigwydd oherwydd datblygiad ar y tri safle, yn cael eu hystyried yn llawn wrth gwblhau'r CDLIC.

Disgrifiad o'r Safle

Safle 1

Mae Safle 1 ar gyrion gogleddol Pwllheli, tua 20-70m AOD (uwchben datwm ordnans) ac yn estyn am tua 0.5km wrth 0.6km. Mae wyneb y safle'n ymdonni ac yn cynnwys caeau pori o faint bychan i ganolig (nad ydynt, ran fwyaf, mewn siapiau rheolaidd), Mynwent Capel Deugorn Denio, is-orsaf a thri eiddo preswyl. Ar ei derfyn de-orllewinol mae eiddo preswyl ar hyd Allt Salem a bloc o eiddo preswyl i'r gogledd o Goleg Meirion Dwyfor.

Mae tair ffordd fechan gul yn croesi'r safle, yn cynnwys Allt Salem sy'n rhedeg ar hyd ei derfyn gorllewinol. Mae'r is-orsaf mewn lle canolog tu mewn i'r safle, ar uchder o 45m AOD a ger y ffordd fechan sy'n rhedeg o'r dwyrain tua'r gorllewin trwy'r safle. Mae'r fynwent i'r gorllewin o'r is-orsaf, a'r tri eiddo preswyl yn agos at y fan honno. Mae llwybr cyhoeddus yn rhedeg trwy'r safle am lai na 100m, gan arwain o'r ffordd fechan gul (i'r dwyrain o'r fynwent) hyd at y grib uwchben Pwllheli, cyn rhedeg at i lawr tuag at y dref.

Cymeriad gwledig/cyrion ardal drefol sydd i'w weld yn perthyn i Safle 1, gyda datblygiad preswyl dwysedd isel ar wasgar ar hyd y terfyn gydag Gallt Salem a chymeriad mwy agored ar hyd ei ymyl gogleddol. Mae golygfeydd hirach tua'r gogledd a'r gorllewin ar draws caeau agored a dyffrynnoedd llydan bas Penrhyn Llŷn i gyfeiriad Garn Boduan a'r Eifl. Mae'r tir sy'n codi fel crib yn gweithredu fel rhwystr i'r olygfa rhwng y safle a Phwllheli ond gallai'r golygfeydd tuag at ac oddi wrth Bwllheli fod yn fwy agored yn y rhan o'r safle sydd ar y gefn, ger y Coleg, a gallent estyn dros Fae Tremadog ac Arfordir Bae Ceredigion. Bydd defnyddwyr y llwybr troed yn cael golygfeydd uniongyrchol ac agored dros rannau uwch dwyreiniol y safle, ac mae golygfeydd i'w cael oddi wrth y fynwent tuag at y safle oddi amgylch.

Safle 2

Mae Safle 2 ar gyrion gogleddol Pwllheli, yn ardal Penrallt ar tua 40-50m AOD a'i faint yn tua 125-225m wrth 425m. Mae tir y safle'n rhedeg at i lawr ychydig ac yn bennaf yn gaeau pori o faint bychan i ganolig. Ar y terfyn gogledd-ddwyreiniol mae Allt Salem a thu mewn i'r safle mae rhes o eiddo preswyl sy'n wynebu'r ffordd hon. Mae llwybr cyhoeddus yn croesi trwy'r safle o Allt Salem i'r Garn, sy'n bentir bychan creigiog i'r de-orllewin o'r safle.

Cymeriad gwledig/cyrion ardal drefol sydd i'w weld yn perthyn i'r safle hwn, gyda datblygiad preswyl dwysedd isel ar wasgar ar hyd y terfyn gydag Allt Salem. Yn rhannau deheuol a gorllewinol y safle mae wedi'i gyfyngu gan y tir sy'n codi i ffurfio'r Garn a'r llystyfiant lefel isel (llwyni, coed ac eithin) sydd ar rannau isaf y llethr. Tua'r gogledd a'r dwyrain, mae terfyn y safle wedi'i gyfyngu gan y rhes o eiddo preswyl ar hyd Allt Salem.

Ar hyd ymyl gogledd-orllewinol Safle 2, mae o gymeriad mwy agored, gyda'r tirffurf yn rhedeg at i lawr a'r terfynau wedi'u dangos gan wrychoedd sydd ar lefel isel. Mae'r golygfeydd yn bennaf wedi'u cyfyngu tu mewn i'r safle, gyda'r posibilrwydd o olygfeydd hirach tua'r gogledd a'r gorllewin ar draws caeau agored a dyffryn llydan, bas, i gyfeiriad Llannor a Garn Boduan. Mae'r tir sy'n codi fel cefn yn gweithredu fel rhwystr i'r olygfa rhwng y safle a Phwllheli, ond mae posibilrwydd y gallai golygfeydd tuag at ac oddi wrth Bwllheli fod yn fwy agored yn y rhan o'r safle ger yr eiddo preswyl o'r enw Y Garn, wrth i'r tirffurf ddechrau rhedeg at i lawr tuag at Bwllheli a lle mae'r safle'n

torri trwy linell y gefnen. Gallai'r golygfeydd hyn estyn dros Fae Tremadog ac Arfordir Bae Ceredigion.

Safle 3

Mae Safle 3 tua'r gogledd a'r gorllewin o'r A499 Ffordd Caernarfon, ar gyrion gogledd-ddwyreiniol Pwllheli. Mae wyneb y safle'n ymdonni, gyda chaeau pori bychan a'r A499 ar un ochr ac ar yr ochr arall blociau o goed a llwyni, prysgwydd a gwrychoedd anhrefnus. Mae wedi'i osod mewn dyffryn sy'n fas a chul ond wedi'i ddiffinio'n dda (tua 200m o led) sy'n troelli i lawr tuag at ganol Pwllheli a'r arfordir.

Cymeriad gwledig sydd i'w weld yn perthyn i'r safle hwn (sydd tua 440m o hyd ac 120m o led mwyaf yn y rhan lletaf) gyda'r A499 gyfagos yn cael dylanwad trefol ac uniongyrchol pendant, gan nad oes unrhyw droedffyrdd ar gael lle mae'r ffordd yn rhedeg ar hyd derfyn y safle. Mae'r ardal ehangach o gwmpas y safle wedi'i chyfyngu'n gryf gan wrychoedd terfyn aeddfed, llethrau coediog, llwyni a llystyfiant cymharol isel ar lethrau ochrau'r dyffryn. Ar hyd ei ymyl dwyreiniol, mae Safle 3 yn ymddangos yn fwy agored, lle mae'n terfynu gyda'r A499, gyda chyfuniad o wrych, ponciau a waliau cerrig ar lefel isel. Mae'r golygfeydd wedi'u cau i mewn a'u cyfyngu tu mewn i'r dyffryn cul troellog, gyda'r potensial o olygfeydd rywfaint bach yn bellach ar hyd y ffordd a thuag at gyrion anheddiad Pwllheli.

Cymeriad y Dirwedd

Cynhyrchwyd Canllawiau Cynllunio Atodol 'Cymeriad y Dirwedd' gan Gyngor Gwynedd i gefnogi polisiâu'r cynllun ddatblygu a fabwysiadwyd. Mae'r drefn Ardal Cymeriad Tirwedd (ACT) yn rhoi fframwaith ystyrion o unedau tirwedd, o gymeriad tebyg i'w gilydd, a gellir gwneud penderfyniadau polisi neu benderfyniadau rheoli o'u cwmpas.

Safle 1

Mae Safle 1 tu mewn i Ardal Cymeriad Tirwedd Arfordir Pwllheli-Cricieth, Ardal 8, ac Ardal Cymeriad Tirwedd Canol Llŷn, Ardal 10. Mae wedi'i ddsbarthu fel "mosaig iseldir tonnog" (cymedrol) a "trefol" (isel).

Safle 2

Mae Safle 2 tu mewn i Ardal Cymeriad Tirwedd Arfordir Pwllheli-Cricieth, Ardal 8. Mae wedi'i ddsbarthu fel "mosaig iseldir tonnog" (cymedrol).

Safle 3

Mae Safle 3 tu mewn i Ardal Cymeriad Tirwedd Canol Llŷn, Ardal 10; Mae wedi'i ddsbarthu fel "mosaig iseldir tonnog" (cymedrol) a "trefol" (isel).

Tirffurf

Safle 1

Mae Safle 1 ar y cyfan yn dir sy'n ymdonni, gyda newid mewn lefel o 40m ar draws y safle. Yn gyffredinol, mae'r rhannau isaf (30m AOD) a'r rhannau mwy gwastad wedi'u lleoli o gwmpas y fynwent tuag at ganol y safle. Mae'r tirffurf yn codi tua'r de-ddwyrain tuag at y grib arfordirol (50m AOD) uwchben Pwllheli, a thua'r de ger y coleg. I gyfeiriad y gogledd-ddwyrain, mae'r tir yn codi tuag at ddau eiddo unigol (Henllys, Clogwynbach) ac ardal sy'n cynnwys chwareli sydd wedi cau, hyd at uchder mwyaf o 60m AOD. Mae'r codiad tir yn y tirffurf yn amgáu rywfaint ar rannau canolog y safle.

Safle 2

Mae ychydig o rediad yn y tir yn Safle 2. Mae'n codi ar hyd y cyfan o hyd y safle, o'r gogledd-orllewin tua'r de-ddwyrain tuag at y gefnfen arfordirol uwchben Pwllheli, wedyn yn croesi'r gefnfen a dechrau rhedeg at i lawr tuag at y dref.

Safle 3

Tir sy'n gyffredinol yn ymdonni, mae'r tirffurf tu mewn i Safle 3 yn codi tuag at ochrau gorllewinol y dyffryn ac yn disgyn i lawr ar hyd y dyffryn wrth iddo ddod tuag at Bwllheli. Mae llethrau serth mewn rhai mannau ynysig (ar gyrion y rhan fwyaf ddeheuol ger Plas Tirion).

Defnydd Tir

Safle 1

Y prif ddefnydd tir tu mewn i Safle 1 yw tir pori amaethyddol, gyda nifer fechan o eiddo preswyl, mynwent a chapel gyda man claddu ac is-orsaf drydan a'r leiniau trydan uwchben yn gysylltiedig gyda hynny.

Safle 2

Tir pori yw'r mwyafrif o Safle 2. Mae'r caeau o faint bychan neu ganolig, gyda gwrychoedd o'u cwmpas a'r gwrychoedd hynny mewn mannau heb gael eu cynnal ac yn fylchog a gyda ffens postyn a gwifren mewn rhannau. Mae coed aeddfed i'w gweld yn y gwrychoedd. Mae'r terfyn rhwng y ffermdir a'r eiddo preswyl sy'n wynebu Allt Salem yn amrywiaeth o ffensys, waliau, gwrych a phlannu.

Safle 3

Tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer pori.

Tabl 3.3.1: Safle 1 – Prif Elfennau'r Dirwedd a'u Cyflwr

<p>Coed gwrych – lle mae rhai'n bresennol, mae'r coed ar y cyfan yn aeddfed, ar wasgar ac yn anhrefnus. Rhai coed gwrych mawr</p> <p>Patrwm Caeau – maint bychan i ganolig, siapiau afreolaidd yn bennaf.</p> <p>Ffermdir – cymysgedd o dir pori wedi'i wella a heb ei wella. Rhai rhannau o brysgwydd.</p> <p>Coetir – bloc bychan ger yr hen chwareli ger Henllys</p>	<p>Ffensys – rhai rhannau o bostyn a gwifren ymysg y gwrychoedd, a ffens postyn a gwifren ar draws y cae ar hyd y terfyn gogledd-orllewinol</p> <p>Gwrychoedd – yn amlwg ar hyd y rhan fwyaf o'r terfynau ac mae rhai wedi'u lleoli ar bridd a cherrig wedi'u codi'n uwch (efallai'n gloddiau)</p> <p>Walïau – Walïau cerrig yn amlwg ar hyd ochrau'r ffyrdd a rhai terfynau caeau, yn cynnwys cloddiau efallai. Rhai'n isel, wedi'u rhannu'n ddarnau a'u gorchuddio gan lystyfiant gwrych</p>	<p>Anheddiad - Mae'r tri eiddo preswyl wedi'u gwasgaru ar hyd y ffyrdd bychan cul ac yn agos at y fynwent. Eiddo preswyl ar hyd terfyn y safle ar hyd Allt Salem, ger Arfryn a'r coleg</p> <p>Diwydiant – Is-orsaf drydan</p> <p>Ffyrdd – Allt Salem (ffordd fechan), dwy ffordd fechan gul eraill a lonydd bychan preifat, e.e. at Henllys</p>	<p>Rheilffyrdd – Dim</p> <p>Llinellau Trydan – oes, yn amlwg yn yr ardal o gwmpas yr is-orsaf</p> <p>Ffrydiau - Dim yn amlwg - efallai fod ffosydd bas lleol tu mewn i wrychoedd. Un ffrwd yn agos at derfyn gorllewinol Safle 1</p>
---	---	--	---

Tabl 3.3.2: Safle 2 – Prif Elfennau'r Dirwedd a'u Cyflwr

<p>Coed gwrych –rhai coed aeddfed mawr ar wasgar trwy'r holl wrychoedd</p> <p>Patrwm Caeau – maint bychan i ganolig, siâp gweddol betryal</p> <p>Ffermdir – tir pori gyda rhai rhannau o brysg mewn caeau llai o faint</p>	<p>Ffensys – rhai rhannau o bostyn a gwifren lle mae'r gwrychoedd yn fylchog iawn, ac ar hyd y cae ar y terfyn gogledd-orllewinol</p> <p>Gwrychoedd – yn amlwg ar hyd y rhan fwyaf o'r terfynau, a rhai ar bridd a cherrig wedi'u codi'n uwch (efallai'n gloddiau)</p> <p>Walïau – Walïau cerrig yn amlwg ar hyd ochrau ffyrdd (efallai'n gloddiau). Rhai'n isel, wedi'u rhannu'n ddarnau ac wedi'u gorchuddio gan lystyfiant gwrych. Wal o gerrig a brics ar hyd un llwybr cyhoeddus i'r Garn</p>	<p>Anheddiad – Eiddo preswyl ar hyd derfyn y safle ar hyd Allt Salem, ac ym mhen deheuol y safle (tŷ Y Garn)</p> <p>Diwydiant – Dim</p> <p>Ffyrdd – Allt Salem (ffordd fechan) a ffordd fynediad breifat i dŷ Y Garn</p> <p>Coetir – Dim</p>	<p>Rheilffyrdd – Dim</p> <p>Llinellau Trydan – dim yn amlwg</p> <p>Ffrydiau – Dim yn amlwg – efallai bod yno ffosydd bas lleol</p>
---	---	--	---

Tabl 3.3.3: Safle 3 – Prif Elfennau'r Dirwedd a'u Cyflwr

<p>Coed gwrych – lle mae rhai'n bresennol, mae'r coed ar y cyfan yn aeddfed, ar wasgar ac yn anhrefnus.</p> <p>Patrwm Caeau - maint bychan i ganolig</p> <p>Ffermdir – tir pori heb ei wella</p>	<p>Ffensys – yn gyffredinol, yn absennol heblaw am rai rhannau byr o ffens postyn a gwifren yn gyfochrog gyda'r walïau cerrig ar hyd yr A499.</p> <p>Gwrychoedd - yn amlwg ar hyd terfyn yr A499. Rhai wedi'u lleoli ar bridd a cherrig wedi'u codi'n uwch (efallai'n gloddiau) tua'r gogledd o safle 3.</p>	<p>Anheddiad – Un eiddo unigol (Plas Tirion) i'w weld o fewn 200m o'r safle. Eiddo eraill ar wasgar tua'r de o safle 3, ar gyrion Pwllheli</p> <p>Diwydiant - Dim</p> <p>Ffyrdd - yr A499 a ffordd fynediad breifat ar Blas Tirion. Ffordd fechan</p>	<p>Rheilffyrdd – Dim</p> <p>Llinellau Trydan – dim yn amlwg</p> <p>Ffrydiau – Dim yn amlwg – efallai bod ffosydd bas lleol</p>
---	--	--	---

<p>Coetir - grwpiau a banciau o goed a phrysgwydd ar hyd cyrion caeau</p>	<p>Waliau – Waliau cerrig yn amlwg ar hyd ochrau ffyrdd (yn cynnwys beth sy'n ymddangos yn gloddiau). Rhai yn isel, wedi'u rhannu'n ddarnau a'u gorchuddio gan lystyfiant gwrych. Wal gerrig ar hyd y ffordd fynediad i Blas Tirion wedi'i gorchuddio gan eiddew, yn gyfan ac wedi'i chynnal yn dda</p>	<p>hynafol o gerrig (tua 2 - 4m o led, yn uwch na lefel y cae ac efallai'n fath o glawdd) yn gwahanu dau gae uchaf Safle 3 ac wedyn yn rhedeg i'r terfyn gogledd-orllewinol pellaf</p>
--	--	--

Tabl 3.3.4: Safle 1 – Cysylltiadau Ecolegol

<p>Coridorau Bywyd Gwyllt – gwrychoedd a sribedi o goed/llwyni</p> <p>Cynefin heb ei Darfu – dim yn amlwg</p> <p>Glaswelltir gyda chyfoeth o rywogaethau – dim yn amlwg</p>	<p>Gwrychoedd gyda chyfoeth o rywogaethau - posiblwydd</p> <p>Coetir – posiblwydd</p> <p>Prysgwydd – posiblwydd</p>	<p>Ffogydd – efallai'n bresennol tu mewn i wrychoedd a ffiniau caeau</p> <p>Glaswelltir Garw – yn amlwg mewn rhai caeau</p> <p>Pyllau dŵr – dim yn amlwg</p>	<p>Ffrydiau – dim yn amlwg</p> <p>Coridor Rheilffordd – ddim yn berthnasol</p> <p>Gerddi – ar gyrion y safle a thu mewn iddo</p>
--	--	---	---

Tabl 3.3.5: Safle 2 – Cysylltiadau Ecolegol

<p>Coridorau Bywyd Gwyllt – gwrychoedd</p> <p>Cynefin heb ei Darfu – dim yn amlwg</p> <p>Glaswelltir gyda chyfoeth o rywogaethau – dim yn amlwg</p>	<p>Gwrychoedd gyda chyfoeth o rywogaethau - posiblwydd</p> <p>Coetir – dim yn amlwg</p> <p>Prysgwydd – cyfyngedig</p>	<p>Ffogydd – efallai'n bresennol tu mewn i wrychoedd a ffiniau caeau</p> <p>Glaswelltir Garw – yn amlwg yn y caeau tu ôl i'r eiddo ar Allt Salem</p> <p>Pyllau Dŵr – dim yn amlwg</p>	<p>Ffrydiau – dim yn amlwg</p> <p>Coridor Rheilffordd – ddim yn berthnasol</p> <p>Gerddi – cymysgedd o derfynau ac o blannu mewn gerddi eiddo ar Allt Salem</p>
--	--	--	--

Tabl 3.3.6: Safle 3 – Cysylltiadau Ecolegol

<p>Coridorau Bywyd Gwyllt – gwrychoedd a banciau cul o goed/llwyni</p> <p>Cynefin heb ei Darfu – dim yn amlwg</p> <p>Glaswelltir gyda chyfoeth o rywogaethau – dim yn amlwg</p>	<p>Gwrychoedd gyda chyfoeth o rywogaethau - posiblwydd</p> <p>Coetiroedd – banciau bychan o goed/llwyni</p> <p>Prysgwydd – dim yn amlwg</p>	<p>Ffogydd – efallai'n bresennol tu mewn i ardaloedd coediog</p> <p>Glaswelltir Garw – dim</p> <p>Pyllau dŵr – dim yn amlwg</p>	<p>Ffrydiau – dim yn amlwg ond efallai bod rhai mewn ffogydd. Mae dŵr sy'n rhedeg oddi ar ochrau'r dyffryn yn debygol o gronni, ac wedyn draenio i mewn i'r cae ym mhen mwyaf deheuol Ardal 3 (lle mae cwrs dŵr yn cychwyn)</p>
--	--	--	--

<p>Coridor Rheilffordd – ddim yn berthnasol</p> <p>Gerddi – ddim yn berthnasol</p>
--

Tabl 3.3.7: Safle 1 – Ansawdd Golygfaol

Ffactorau Esthetig				
Graddfa	Agosrwydd	Bychan	Mawr	Anferth
Cydbwysedd	Anhrefnus	Ddim yn cyd-daro	Cydbwysedd	Mewn harmoni
Graddau o gau i mewn	Cyfyngedig	Wedi'i gau i mewn	Agored	Amlwg
Amrywiaeth	Cymhleth	Amrywiol	Syml	Unffurf
Ffurf	Fertigol	Rhediad yn y tir	Ymdonni	Gwastad /Llorweddol
Llinell	Troellog	Crwm	Onglog	Syth
Lliw	Gorliwgar	Lliwgar	Lliwiau tawel	Monocrom
Patrwm	Ar hap, dim patrwm	Trefnus	Rheolaidd	Ffurfiol
Symudiad	Prysurdeb	Tawelwch	Llonyddwch	Marw
Canfyddiadau/Argraffiadau				
Diogelwch	Bygythiol	Tarfu	Diogel	Cyfforddus
Symbyliad	Anniddorol	Diddorol	Deniadol	Ysbrydoli
Pa mor gyfarwydd	Arferol	Cyfarwydd	Anghyffredin	Trawiadol
Rheolaeth	Dim rheolaeth	Wedi tarfu arno	Yn cael gofal	Gofal manwl iawn
Cynhyrchiant	Diffaith	Prin (mewn manau)	Cynhyrchiol (mewn manau)	Toreithiog

Tabl 3.3.8: Safle 2 – Ansawdd Golygfaol

Ffactorau Esthetig				
Graddfa	Agosrwydd	Bychan	Mawr	Anferth
Cydbwysedd	Anhrefnus	Ddim yn cyd-daro	Cydbwysedd	Mewn harmoni
Graddau o gau i mewn	Cyfyngedig	Wedi'i gau i mewn	Agored	Amlwg
Amrywiaeth	Cymhleth	Amrywiol	Syml	Unffurf
Ffurf	Fertigol	Rhediad yn y tir	Ymdonni	Gwastad /Llorweddol
Llinell	Troellog	Crwm	Onglog	Syth
Lliw	Gorliwgar	Lliwgar	Lliwiau tawel	Monocrom
Patrwm	Ar hap, dim patrwm	Trefnus	Rheolaidd	Ffurfiol
Symudiad	Prysurdeb	Tawelwch	Llonyddwch	Marw
Canfyddiadau/Argraffiadau				
Diogelwch	Bygythiol	Tarfu	Diogel	Cyfforddus
Symbyliad	Anniddorol	Diddorol	Deniadol	Ysbrydoli
Pa mor gyfarwydd	Arferol	Cyfarwydd	Anghyffredin	Trawiadol
Rheolaeth	Dim rheolaeth	Wedi tarfu arno	Yn cael gofal	Gofal manwl iawn
Cynhyrchiant	Diffaith	Prin (mewn manau)	Cynhyrchiol (mewn manau)	Toreithiog

Tabl 3.3.9: Safle 3 – Ansawdd Golygfaol

Ffactorau Esthetig				
Graddfa	Agosrwydd	Bychan	Mawr	Anferth
Cydbwysedd	Anhrefnus	Ddim yn cyd-daro	Cydbwysedd	Mewn harmoni
Graddau o gau i mewn	Cyfyngedig	Wedi'i gau i mewn	Agored	Amlwg
Amrywiaeth	Cymhleth	Amrywiol	Syml	Unffurf
Ffurf	Fertigol	Rhediad yn y tir	Ymdonni	Gwastad /Llorweddol
Llinell	Troellog	Crwm	Onglog	Syth
Lliw	Gorliwgar	Lliwgar	Lliwiau tawel	Monocrom
Patrwm	Ar hap, dim patrwm	Trefnus	Rheolaidd	Ffurfiol
Symudiad	Prysurdeb	Tawelwch	Llonyddwch	Marw
Canfyddiadau/Argraffiadau				
Diogelwch	Bygythiol	Tarfu (Agosrwydd at ffordd)	Diogel	Cyfforddus
Symbyliad	Anniddorol	Diddorol	Deniadol	Ysbrydoli
Pa mor gyfarwydd	Arferol	Cyfarwydd	Anghyffredin	Trawiadol
Rheolaeth	Dim rheolaeth	Wedi tarfu arno	Yn cael gofal	Gofal manwl iawn
Cynhyrchiant	Diffaith	Prin	Cynhyrchiol	Toreithiog

Beth sy'n gwneud y safleoedd yn Fwy Deniadol ac yn Llai Deniadol

Safle 1

Gwelwyd bod y pwyntiau a ganlyn yn gwneud Safle 1 yn fwy deniadol:

- Mae trawsnewid yn digwydd ar y safle hwn, o drefol i wledig. Mae'r golygfeydd o'r llwybr cyhoeddus yn gyfyngedig ond mae'n darparu cysylltiad defnyddiol o'r gogledd i Bwllheli.
- Mae'r fynwent yn cael ei werthfawrogi, yn lle i gael tawelwch ac i fyfrio.

Mae'r pethau sy'n gwneud y safle'n llai deniadol yn cynnwys is-orsaf drydan a leiniau uwchben yn gysylltiedig â hi.

Safle 2

Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o Safle 2 mewn perchnogaeth breifat (ffermio) heblaw am y llwybr cyhoeddus sy'n rhedeg o Allt Salem tuag at godiad tir creigiog y Garn. Gellir cael golygfeydd agored a helaeth o'r weledfan ar y Garn (sydd tu allan i derfynau'r safle) dros dirwedd fewnol Penrhyn Llŷn, Arfordir Bae Ceredigion a Bae Tremadog. Yn hynny, mae'r llwybr troed yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Ar hyn o bryd, y safle yma yw'r man trawsnewid o gyrion rhannol-drefol Pwllheli i gefndir gwledig.

Does dim materion amlwg sy'n gwneud Safle 2 yn llai deniadol, heblaw am rai terfynau caeau anhrefnus.

Safle 3

Gan fod y safle'n dir preifat yn bennaf a heb lwybrau cyhoeddus, bydd y profiad ohono ar y cyfan yn digwydd o'r briffordd, sy'n cyfyngu ar faint o rannau o'r dirwedd y gellid eu hystyried yn werthfawr.

Mae'r ffordd yn gwneud Safle 3 yn llai deniadol, gyda sŵn a thraffig sy'n symud yn gyflym (50 m.y.a.) ar hyd gerbydlonydd sengl yr A499.

Prinder

Ar gyfer pob un o'r safleoedd, nid yw'r elfennau o'r dirwedd sy'n creu'r olygfa'n rhai y gellid eu hystyried yn brin ynddynt eu hunain, er y byddai angen ymchwilio ymhellach i weld a oes cloddiau'n bresennol, pe byddai'r safleoedd yn cael eu datblygu.

Cynrychioldeb

Safle 1

Er bod y dirwedd yma'n weddol ddeniadol, mae'n nodweddiadol o beth sy'n bodoli o gwmpas lawer o Bwllheli, ac yn gymharol nodweddiadol o'r mosaig o dir tonnog o ddyffrynnoedd iseldir a thir pori sy'n nodweddiadol o Wynedd. Mae'r agosrwydd ar godiad tir y Garn yn ychwanegu gwerth at y dirwedd hon, gan ychwanegu at y profiad gwledig o ddringo'r Garn, ac yn cyfrannu at y newid o Bwllheli drefol i'r cyrion gwledig.

Safle 2

Mae'r dirwedd yn ddeniadol ac yn nodweddiadol o lawer o beth sy'n bodoli o gwmpas Pwllheli, ac yn gymharol nodweddiadol o'r mosaig o dir tonnog o ddyffrynnoedd iseldir a thir pori sy'n nodweddiadol o Wynedd. Mae'r agosrwydd at godiad tir y Garn yn ychwanegu gwerth at y dirwedd hon – ar hyn o bryd mae'n ychwanegu at y profiad gwledig o ddringo'r Garn ac yn nodi'r newid o Bwllheli drefol i'r cyrion gwledig.

Safle 3

Er bod y dirwedd yma'n weddol ddeniadol, mae ei thebyg yn bodoli o gwmpas lawer o Bwllheli, ac yn gymharol nodweddiadol o'r mosaig o dir tonnog o ddyffrynnoedd iseldir a thir pori sy'n nodweddiadol o Wynedd. Yn ogystal, mae'r golygfeydd wedi'u cyfyngu'n llwyr tu mewn i'r dyffryn bychan a lleol hwn, ac felly'n ychwanegu llai o werth at yr olygfa ehangach.

Amwynder Gweledol / Dadansoddiad (gwelededd mewnol/allanol y safle)

Yr Amlen Gwelededd yw'r ardal y gallai datblygiad arfaethedig fod i'w gweld ynddi, a'r derbynwyr gweledol yw'r rhai sydd tu mewn i'r Amlen Gwelededd y gallai golygfeydd o'r datblygiad/au effeithio arnynt.

Amlen Gwelededd: Safle 1

Yn rhan isaf y dyffryn, mae'r Amlen Gwelededd yn weddol gyfyng, gyda photensial o olygfeydd hirach dros Safle 1 o gyfeiriad y gogledd. Wrth i dirffurf y safle godi tuag at y gefnen sydd uwchben Pwllheli, mae Safle 1 i'w weld o'r eiddo gwasgaredig ar draws y dyffryn llydan, bas, i gyfeiriad Garn Boduan a'r Eifl tua'r gogledd.

Mae'r safle tua 7km i ffwrdd oddi wrth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Penrhyn Llŷn, ac er y gallai fod modd ei weld o'r dirwedd ddynodedig honno, mae'r effeithiau'n debygol o fod yn gyfyngedig iawn.

Ar gwr dwyreiniol Safle 1, mae coed aeddfed a blociau bychan o goed a phrysgwydd yn cyfyngu ar y golygfeydd. Mae'r gefnen tuag at y de-ddwyrain yn gweithredu fel rhwystr i'r olygfa rhwng Safle 1 a Phwllheli, ond mae golygfeydd tuag at ac oddi wrth Bwllheli yn gwneud y safle'n fwy agored o'r manau uwch ar hyd y gefnen. Gallai'r golygfeydd hyn efallai estyn i gynnwys Bae Tremadog ac Arfordir Bae Ceredigion.

Amlen Gwelededd: Safle 2

Mae'r amlen gwelededd wedi'i chynnwys yn weddol tu mewn i derfynau Safle 2. Mae potensial ar gyfer golygfeydd hirach tuag at y safle o'r eiddo gwasgaredig sy'n gorwedd i gyfeiriad Llannor a Garn Boduan, ar draws y dyffryn llydan, bas, wrth iddo godi at y gefnen uwchben Pwllheli.

Yn ogystal, mae'r amlen yn estyn tuag at eiddo a'r Coleg ar ochr arall Allt Salem trwy fylchau rhwng eiddo, terfynau caeau isel a bylchau mewn terfynau caeau. Mae codiad tir y gefnen yn gweithredu fel rhwystr gweledol rhwng y safle a Phwllheli, ond mae posibilrwydd y gallai golygfeydd tuag at ac oddi wrth Bwllheli fod yn agor allan yn y rhan o'r safle ger yr eiddo preswyl o'r enw Y Garn, wrth i'r tirffurf ddechrau disgyn i lawr tuag at Bwllheli.

Amlen Gwelededd: Safle 3

Mae'r amlen gwelededd wedi'i chynnwys tu mewn i'r dyffryn cul mae Safle 3 tu mewn iddo, gyda golygfeydd hirach tuag at yr ardal i'w cael, hyd at 500m, ar hyd yr A499 wrth iddi ddod tuag at Bwllheli o'r gogledd, ac wrth iddi fynd i mewn i Bwllheli i gyfeiriad y de-orllewin ar gyrion pellaf y dref.

Gorwel(ion) Gwelededd: Safle 1

Mae'r gorwel gwelededd yn symud o gyrion y safle (gyda'r golygfeydd o'r tu mewn weithiau wedi'u byrhau at y gyrion), tuag at yr eiddo preswyl ar hyd Allt Salem a ger Arfryn, a thua'r gogledd a'r gorllewin dros y rhan fewndirol o Benrhyn Llŷn tuag at y gadwyn o fryniau yn y gogledd. Tua'r de a'r gorllewin mae'r gorwel gwelededd yn gorffen yn y Garn ac ar y gefnen uwchben Pwllheli. Yn y fan hon mae posibilrwydd i'r gorwel gwelededd estyn dros Fae Tremadog.

Gorwel(ion) Gwelededd: Safle 2

Mae'r gorwel gwelededd yn symud o gyrion Safle 2 (gyda'r golygfeydd o'r tu mewn i'r safle weithiau wedi'u byrhau at y gyrion), tuag at yr eiddo preswyl ar hyd Allt Salem, a thua'r gogledd a'r gorllewin dros y rhan fewndirol o Benrhyn Llŷn tuag at y gadwyn o fryniau yn y gogledd. Tua'r de a'r gorllewin mae'r gorwel gwelededd yn cael ei ffurfio gan y Garn, a phen de-ddwyreiniol y safle'n torri trwy hynny wrth estyn ychydig bach dros linell y gefnen. Yn y fan hon mae posibilrwydd i'r gorwel gwelededd estyn dros Fae Tremadog.

Gorwel(ion) Gwelededd: Safle 3

Y gorwel gwelededd yw, mewn effaith, terfyn Safle 3 (gyda golygfeydd o'r safle at allan wedi'u cyfyngu ar adegau i gyrion y safle) neu ymylon y dyffryn sy'n agos iawn ato. Ger y ffordd breifat i Blas Tirion, ar lethr uchaf y dyffryn cul, mae'r gorwel yn estyn tuag at Lanbedrog.

Rhwysr(au) Mewnol i Welededd (e.e. y graddau o rannu'r safle'n adrannau): Safle 1

Nodwedd pennaf y safle yw caeau pori bychan neu ganolig eu maint gyda rhediad yn y tir, ac o'u cwmpas wrychoedd wedi'u rhannau'n ddarnau a llwyni a choed bychan aeddfed. Mae coed aeddfed tal yn bodoli ar derfynau caeau, sy'n cau'r olygfa i mewn i ryw raddau. Yn ogystal, mae rhai o'r rhannau uchaf ar ymyl dwyreiniol y safle wedi'u rhannau'n ddarnau gan y topograffi. Yn hynny, mae gan Safle 1 gymeriad cymharol agored ond bod rhai rhannau wedi'u rhannu'n ddarnau a'u gwahanu gan lystyfiant a thirffurf.

Rhwysr(au) Mewnol i Welededd (e.e. y graddau o rannu'r safle'n adrannau): Safle 2

Nodwedd Safle 2 yw caeau pori sy'n bennaf yn fychan neu ganolig eu maint, gyda rhediad bychan yn y tir, ac o'u cwmpas wrychoedd wedi'u rhannau'n ddarnau, a'r rhan fwyaf o'r safle o gymeriad cymharol agored. Mae coed aeddfed tal yn bodoli ar derfynau caeau, sy'n sgrinio'r olygfa i ryw raddau.

Rhwysr(au) Mewnol i Welededd (e.e. y graddau o rannu'r safle'n adrannau): Safle 3

Nodwedd bennaf Safle 3 yw caeau pori bychan neu ganolig eu maint, gyda rhediad bychan yn y tir, ac o'u cwmpas wrychoedd aeddfed wedi'u rhannau'n ddarnau a llwyni a choed bychan aeddfed,

a'r rhan fwyaf o'r safle'n ei hunan o gymeriad agored a heb fod wedi'i amgau'n gryf o ran gwelededd.

Derbynwyr gweledol

Derbynwyr gweledol yw unigolion a/neu grwpiau o bobl tu mewn i'r amlen gwelededd y gallai'r cynnig effeithio arnynt. Dylai derbynwyr gweledol gael eu hasesu o ran pa mor agored ydynt i newid mewn golygfeydd ac amwynder gweledol a hefyd y gwerth sydd ynghlwm wrth olygfeydd penodol. Fel arfer, eiddo preswyl yw'r rhai sydd fwyaf agored i newid, ac yn hynny maen nhw wedi'u dosbarthu fel derbynwyr o sensitifrwydd uchel, felly hefyd bobl mai'r prif bwrpas ganddynt yw mwynhau cefn gwlad e.e. defnyddwyr llwybrau troed pellter hir.

Safle 1

Mae gan yr eiddo sy'n agos iawn at y safle olygfeydd dros Safle 1 (eiddo'n cynnwys y rhai ar hyd Allt Salem a ger Arfryn, a'r ddau eiddo yn Henllys a Chlogwynbach). Mae'r amlen gwelededd hefyd yn estyn tu cefn i adeiladau'r coleg. Golygfeydd gwledig yn bennaf yw'r rhai presennol, ac ar y cyfan heb unrhyw beth ar eu traws i darfu arnynt. O Henllys a'r eiddo ger Arfryn, mae golygfeydd hirach dros y mynwentydd. Yn gyffredinol, mae golygfeydd dros Safle 1 yn rhai agored ac uniongyrchol; fodd bynnag mae'r terfynau caeau presennol yn rhoi rywffaint o derfyn lleol iddynt, fel hefyd mae'r tiffurf. Yn hynny, mae natur y golygfeydd yn amrywio (golygfeydd agored, cipolygon, uniongyrchol, anuniongyrchol).

Mae tri eiddo preswyl tu mewn i'r safle sy'n cael golygfeydd agored uniongyrchol o Safle 1 o'u heiddo a'u gerddi. Golygfeydd gwledig yn bennaf yw'r rhai presennol, yn cynnwys caeau agored gyda gwrychoedd ar eu terfynau a rhywfaint o goed aeddfed yn y gwrychoedd. Mae'r eiddo sy'n agos at y fynwent yn cael golygfeydd dros y fynwent honno. Ar y cyfan, does dim yn torri ar draws y golygfeydd, heblaw am y cyfyngu gan y gwrychoedd a'r coed presennol ar derfynau'r caeau, a'r tiffurf.

Mae derbynwyr eraill o sensitifrwydd canolig tu mewn i amlen weledol y safle'n cynnwys defnyddwyr y llwybr troed ar y safle a defnyddwyr y fynwent. Bydd defnyddwyr y llwybr troed yn cael golygfeydd dros gaeau a gwrychoedd cyfagos. Mae'r golygfeydd hyn wedi'u cyfyngu gan derfynau caeau. Bydd ymwelwyr â'r fynwent yn cael golygfeydd uniongyrchol o Safle 1 ar bob ochr, sy'n bennaf yn olygfeydd agored, gyda gwrychoedd a choed yn cau i mewn rhywfaint ac yn gweithredu fel sgriniau i welededd.

Mae'n bosibl bod yr eiddo sydd ar wasgar yn ardal y mewndir i'r gogledd a'r dwyrain o Safle 1 yn cael golygfeydd dros y safle sydd am wahanol bellteroedd ac yn amrywiol eu natur.

Bydd defnyddwyr y llwybr troed sy'n mynd i fyny'r Garn (tua 200m i ffwrdd oddi wrth bwynt agosaf Safle 1) yn cael golygfeydd uniongyrchol ac agored dros y safle cyfan. Bydd defnyddwyr y weledfan ar y Garn yn cael golygfeydd uniongyrchol ac agored dros y safle.

Mae defnyddwyr cerbydau ar hyd Allt Salem a'r ffordd fechan trwy Safle 1 yn cael eu cyfrif yn dderbynwyr sensitifrwydd isel, ac yn cael golygfeydd uniongyrchol a/neu anuniongyrchol am wahanol bellteroedd.

Safle 2

Mae trigolion ar hyd Allt Salem yn cael golygfeydd uniongyrchol ac agored o Safle 2. Mae gan yr eiddo preswyl yn o'r enw Y Garn olygfeydd agored ac uniongyrchol, a rhai golygfeydd anuniongyrchol dros y safle, gan fod y safle'n terfynu gyda'r ffordd fynediad breifat hwy a'u gardd. Mae llystyfiant rhyngddynt â'r safle'n sgrinio rywfaint. Ar yr ochr gyferbyn o Allt Salem, mae'r preswylwyr yn cael golygfeydd anuniongyrchol a/neu gipolwg, neu olygfeydd uniongyrchol ac agored (yn enwedig y rhai sy'n agos at y Coleg). Mae llystyfiant sydd rhyngddynt â'r safle, ac eiddo preswyl eraill, yn sgrinio rywfaint.

Mae defnyddwyr y llwybr troed yn cael golygfeydd agored, uniongyrchol dros y safle wrth i'r llwybr troed redeg trwy'r safle, ac wrth i'r llwybr fynd ar hyd ac i fyny llethr dwyreiniol y Garn.

Bydd defnyddwyr y coleg yn cael rhai golygfeydd uniongyrchol ac agored dros Safle 2. Mae llystyfiant ac adeiladau eraill rhyngddynt â'r safle'n sgrinio rywfaint.

Gallai eiddo gwasgaredig yn y mewndir i'r gogledd a'r dwyrain o'r safle gael golygfeydd dros Safle 2 ar wahanol bellteroedd ac o natur amrywiol (ar osgo, uniongyrchol, agored, cipolwg ayyb.). gan y gallai tirffurf a llystyfiant rhyngddynt â'r safle fod yn sgrinio golygfeydd.

Safle 3

Gan fod amlen gwelededd y safle ar y cyfan wedi'i chyfyngu, mae nifer y derbynwyr gweledol yn fychan iawn. Mae nifer fechan o eiddo preswyl cyfagos y gallai fod ganddynt olygfeydd rhannol a golygfeydd wedi'u sgrinio o'r safle (yn cynnwys Llwyn-ffynnon, Plas Tirion a grŵp tuag at ochr ddeheuol yr A499 ger ymyl dwyreiniol ardal drefol Pwllheli). Mae llystyfiant rhyngddynt â'r safle'n sgrinio'r rhan fwyaf o'r golygfeydd dros Safle 3. Byddai golygfeydd eglur o'r safle oddi wrth y ffordd fynediad breifat i Blas Tirion. Mae'r derbynwyr preswyl hyn yn cael eu dosbarthu fel rhai gyda sensitifrwydd uchel.

Mae gan ddefnyddwyr cerbydau ar yr A499 olygfeydd dros Safle 3, gyda therfynau caeau a llystyfiant rhyngddynt ag ef yn sgrinio golygfeydd yn rhannol; mae'r defnyddwyr hyn yn cael eu dosbarthu fel rhai gyda sensitifrwydd isel.

Dim ond darn byr o'r ffordd ger ymyl dwyreiniol Pwllheli sydd â phalmant i gerddwyr. Byddai derbynwyr yn cerdded yn cael eu hystyried i fod â sensitifrwydd canolig, ac ar hyn o bryd maen nhw'n cael cipolygon o'r safle mewn manau.

Cymeriad y Dirwedd o Gwmpas / Cefndir

Ansawdd / Cymeriad ardaloedd cyfagos: Safle 1

Mae Safle 1 ar derfyn cwr rhannol-wledig gogleddol Pwllheli, sydd â chymeriad ardal breswyl. Nodwedd y cwr trefol yma yw tai cymysg o wahanol oed ac ar ddwysedd isel, wedi'u dosbarthu ar hyd y ffyrdd bychan. Mae gerddi a chaeau unigol rhwng yr eiddo preswyl yma. Tai ar wahân yw'r rhan fwyaf o'r eiddo (gyda rhai tai pâr a rhesi o dai) ac mae ganddynt erddi a ffyrdd mynediad preifat sydd wedi'u cynnal yn dda. Yn agos at gwr de-ddwyreiniol y safle mae'r coleg chweched dosbarth lleol.

Ansawdd / Cymeriad ardaloedd cyfagos: Safle 2

Mae Safle 2 yn terfynu gyda'r ardal rannol wledig i'r gogledd o Bwllheli, sydd o gymeriad ardal breswyl. Mae'r coleg chweched dosbarth lai na 50m oddi wrth y safle, ar yr ochr gyferbyn o Allt Salem ar gwr de-ddwyreiniol y safle. Nodwedd yr ardal yw tai cymysg o ddwysedd isel, ar wasgar ar hyd ffyrdd bach, gyda thai hŷn a thai mwy newydd. Mae gerddi a chaeau unigol rhwng y gwahanol eiddo hyn.

Ansawdd / Cymeriad ardaloedd cyfagos: Safle 3

Mae Safle 3 ar derfyn yr ardal drefol i'r gogledd-ddwyrain o Bwllheli sydd â chymeriad preswyl gyda rhywfaint o ddatblygiad manwerthu (fel gorsaf betrol ac archfarchnad fechan). Nodwedd yr ardal yw tai o fathau cymysg o ddwysedd canolig, a'r rheiny'n dai a fflatiau hŷn a mwy newydd. Rhyngddynt mae gerddi a llecynnau gwyrdd bychan sy'n dangos cymeriad preswyl cymysg.

Cyfraniad y safle i gefndir y dref: Safle 1

Mae Safle 1 ar gyrion ardal drefol Pwllheli ond mae ganddo gymeriad gwledig cryf ac felly'n darparu ymyl gweledol pendant i'r ardal drefol o anheddiad aeddfed, yn yr ystyr ei fod yn dangos lle mae'r trawsnewid yn digwydd o anheddiad i ffermdir agored. Yn ogystal, mae'r safle'n cynnwys y fynwent, a chymeriad rhannol wledig yr ardal yn creu teimlad o lonyddwch tu mewn i dir y fynwent.

Cyfraniad y safle i gefndir y dref: Safle 2

Mae hwn yn safle ar gyrion yr ardal drefol, a chanddo gymeriad gwledig cryf. Yn hynny mae'n gwneud cyfraniad gweledol pendant i'r ymyl aeddfed sydd wedi'i anheddu, ar gyfer preswylwyr a defnyddwyr y llwybr troed, yn yr ystyr ei fod yn dangos y trawsnewidiad o anheddiad i ffermdir agored.

Cyfraniad y safle i gefndir y dref: Safle 3

Fel llawer o safleoedd eraill gyda chymeriad gwledig cryf sydd ar gwr ardal drefol, mae'r safle presennol yn gwneud cyfraniad gweledol pendant i'r ymyl aeddfed sydd wedi'i anheddu, ac yn dangos yn eglur lle mae trosglwyddiad yn digwydd o anheddiad trefol i dirwedd wledig.

Graddau o Drefoli: Safle 1

Mae Safle 1 yn ddeniadol a chanddo gymeriad cynhenid gwledig, er ei fod yn agos at anheddiad ar gwr trefol gogledd Pwllheli a bod defnydd tir amrywiol, yn cynnwys yr is-orsaf, yn rhoi ryw raddau o drefoli i'r safle.

Graddau o Drefoli: Safle 2

Mae Safle 2 yn weddol ddeniadol, a chanddo gymeriad gwledig cynhenid. Mae ei agosrwydd at anheddiad ar gwr trefol Pwllheli'n rhoi ryw raddau o drefoli i'r safle.

Graddau o Drefoli: Safle 3

Tra bod Safle 3 yn weddol ddeniadol a chanddo gymeriad gwledig cynhenid, mae ei agosrwydd at gwr trefol Pwllheli a'r A499 yn rhoi graddau o drefoli iddo, fel hefyd mae'r golygfeydd tua'r de-orllewin ar hyd yr A499, lle mae modd gweld yr orsaf betrol gyfagos.

Cyflwr y Dirwedd: Safle 1

Mae'r dirwedd yn ffermdir sy'n cael ei gynnal yn dda ar y cyfan. Mewn mannau, mae'r gwrychoedd wedi gordyfu ac yn anhrefnus, a'r glaswellt yn mynd braidd yn dir prysgwydd, sy'n gostwng cyflwr y dirwedd yn lleol.

Cyflwr y Dirwedd: Safle 2

Fel gyda Safle 1, tirwedd o ffermio yw hon, ac yn cael ei chynnal yn rhesymol o dda. Mewn mannau mae'r gwrychoedd wedi gordyfu a'r glaswellt wedi mynd braidd yn dir prysgwydd, sy'n gostwng rywfaint ar gyflwr y dirwedd.

Cyflwr y Dirwedd: Safle 3

Mae'r gwrychoedd wedi gordyfu ac yn anhrefnus, y glaswellt braidd yn dir prysgwydd gyda manau corslyd, sy'n gostwng cyflwr y dirwedd i raddau. Mae'r dirwedd yn cael ei chynnal yn rhesymol o dda.

3.3.1.11 Hamdden ac Amwynder

Tabl 3.3.10: Cyfleusterau hamdden ac amwynder tu mewn i Safleoedd 1 - 3

	Safle 1	Safle 2	Safle 3
Cyfleusterau Ffurfiol	mynwent	dim i'w gweld	dim i'w gweld
Cyfleusterau Anffurfiol	llwybr cyhoeddus	llwybr cyhoeddus	dim i'w gweld

3.3.1.12 Dynodiadau Tirwedd a Pholisi Cynllunio

Safle 1

Nid yw Safle 1 wedi'i gynnwys mewn unrhyw ddynodiad cenedlaethol neu ranbarthol ar gyfer tirwedd, cadwraeth natur na threftadaeth (e.e. Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, Parc Cenedlaethol a Thirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, Arfordir Treftadaeth Llŷn, Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig neu Ardal Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd Cadwraeth Tirwedd Cynllun Datblygu Unedol (CDU) Gwynedd, Polisi B10).

Mae cyfran o ran orllewinol y safle wedi'i ddynodi ar gyfer tai (polisi CH1) yn CDU Gwynedd (Gorffennaf 2009).

Mae'r safle tu mewn i Ardal Cymeriad Tirwedd Canol Llŷn, Ardaloedd rhif 8 a 10.

Mae'r categorïau perthnasedd LANDMAP ar gyfer Safle 1 yn cynnwys Gweledol a Synhwyrdd VS044 Llwyfandir Canol Llŷn (iseldir tonnog mosaig, arfarniad canolig), Cynefin H523 (mosaig, cymedrol) a hefyd H471 (glaswelltir wedi'i wella, cymedrol) a Hanesyddol HL589 Pwllheli (anheddiad cnewyllog, arfarniad uchel).

Safle 2

Mae cyfran o Safle 2 yn barth ar gyfer cynnig tai (CH1) yn CDU Gwynedd (Gorffennaf 2009).

Mae'r ardal tu mewn i Ardal Cymeriad Tirwedd Rhif 8 'Arfordir Pwllheli – Cricieth'.

Ar gyfer Safle 2, mae'r categorïau LANDMAP perthnasol yn cynnwys Gweledol a Synhwyrdd VS044 Llwyfandir Canol Llŷn (iseldir tonnog mosaig, arfarniad canolig) a Hanesyddol HL829: mae rhan o'r safle wedi'i dosbarthu fel cwr dwyreiniol tir parc Boduan (wedi'i ddylunio, arfarniad uchel).

Safle 3

Mae'r rhan rhwng yr orsaf betrol a'r ffordd fynediad breifat i Blas Tirion yn barth ar gyfer tai (CH1) a Chyflogaeth (dosbarthiadau defnydd D3 – B1, B2 a B8) fel cynigion yn CDU Gwynedd (Gorffennaf 2009).

Mae'r ardal tu mewn i Ardal Cymeriad Tirwedd Rhif 8 'Arfordir Pwllheli – Cricieth'.

Yn y drefn LANDMAP, mae'r categorïau perthnasedd ar gyfer Safle 3 yn cynnwys Gweledol a Synhwyrdd: mae cwr gorllewinol y safle'n rhan o VS045 Pwllheli (Trefol, isel) a'r gweddill yn S044 Llwyfandir Canol Llŷn (mosaig iseldir tonnog, canolig) a Hanesyddol: y safle'n rhan o HL589 Pwllheli (Anhenniad cnewyllog, uchel).

3.3.2 Dadansoddiad o'r Dirwedd

3.3.2.1 Cyfyngiadau ar Ddatblygu

Defnydd Presennol o'r Tir: Safle 1

Mae nifer o rannau tu mewn i Safle 1 yn cael eu defnyddio'n barod yn y ffyrdd y dyrannwyd hwy, yn cynnwys mynwent, seilwaith trydan, llwybr cyhoeddus a ffyrdd mynediad i nifer o eiddo. Gellir ystyried bod rhai o'r rhain yn ei wneud yn llai deniadol ar gyfer datblygiad preswyl. Bydd angen cadw'r llwybr cyhoeddus neu gael gwriad iddo. Mae'r rhwydwaith ffyrdd tu mewn i'r safle nawr yn gul a throellog, a gallai fod angen lledu'r ffyrdd i hwyluso datblygiad a mynediad yn y dyfodol.

Defnydd Presennol o'r Tir: Safle 2

Nid yw'r defnydd presennol o'r tir yn cyfyngu ar ddatblygu'r safle, o ran tirwedd a'r olygfa. Mae'r safle sydd ar gael i'w ddatblygu'n cynnwys saith o gaeau gyda rhediad bychan yn y tir, a therfynau sy'n bennaf yn wrych ac yn ffens postyn a gwifren. Byddai mynediad i'r safle'n digwydd ar hyd y ffordd fechan bresennol (Allt Salem) a gallai hynny olygu cyfyngiadau o ran mynediad a graddfa'r datblygiad. Mae'r llwybr cyhoeddus i'r Garn yn doriad ffisegol yn y safle datblygu.

Defnydd Presennol o'r Tir: Safle 3

Mae'r ardal a gynigir ar gyfer datblygu wedi'i chyfyngu'n gyffredinol i lawr y dyffryn ac yn cyfateb i derfynau presennol y caeau agored. Mae'n safle cul gyda'r A499 ar y terfyn deheuol a thopograffi mwy serth gyda llystyfiant arno ar y terfyn gogleddol.

Mae'r A499 yn brif ffordd i mewn i Bwllheli o'r dwyrain, gyda chyflymder traffig rhesymol o uchel (50 m.y.a., yn gostwng i 30 m.y.a. wrth gyrraedd at Bwllheli).

Mae ffordd fynediad breifat ar gyfer Plas Tirion yn rhedeg tua'r gogledd yng nghanol y safle. Mae'r ffordd fynediad breifat i Blas Tirion yn doriad ffisegol yn y safle datblygu.

Cymeriad y Dirwedd: Safle 1

Mae lôn fechan gul gyda choed ar y ddwy ochr ohoni'n rhedeg trwy ganol y safle ac mae hon yn cynorthwyo i ddiffinio cymeriad yr ardal. Byddai mynediad i Safle 1 yn digwydd ar hyd y ffordd fechan hon a ffyrdd bychan eraill. Gallai'r mynediad gwael sydd yno ar hyn o bryd osod rhai cyfyngiadau diogelwch o ran mynediad a graddfa'r datblygiad.

Os oes unrhyw Orchmynion Cadw Coed yno, rhaid eu hystyried yng nghynllun y safle neu gael caniatâd i'w tynnu i ffwrdd.

Mae'r is-orsaf a'r leiniau trydan yn gysylltiedig â hi ar y safle'n gwneud ymddangosiad y safle'n llai deniadol.

Cymeriad y Dirwedd: Safle 2

Er nad oes unrhyw nodweddion unigol sy'n cyfyngu ar ddatblygiad, mae gan y safle ar hyn o bryd gymeriad gwledig / amaethyddol gyda nifer o derfynau caeau ac mae'n ffurfio cwr meddal mae modd treiddio trwyddo ar gyfer ardal drefol Pwllheli. Mae rhai terfynau wedi'u hadeiladu i gerrig a brics i'w gweld, a byddai angen ymchwilio ymhellach i weld a oes cloddiau'n bresennol.

Os oes Gorchmynion Cadw Coed yno, rhaid ystyried hynny yng nghynllun y safle neu gael caniatâd i'w tynnu i ffwrdd.

Cymeriad y Dirwedd: Safle 3

Gallai'r posibilrwydd fod cloddiau (pridd a cherrig wedi'u codi ar hyd terfynau caeau a'r ffordd fechan) yn bresennol olygu bod angen ymchwilio ymhellach, ac efallai bod angen eu cadw.

Dynodiadau Cynllunio: Safle 1

Nid yw dynodiadau cynllunio'n cyfyngu ar ddatblygiad ar Safle 1. Mae rhan o'r safle'n barth ar gyfer datblygiad tai yn barod (polisi CH1) fel y diffiniwyd yn y CDU (Gorffennaf 2009).

Dynodiadau Cynllunio: Safle 2

Nid yw dynodiadau cynllunio'n cyfyngu ar ddatblygiad ar Safle 2. Mae rhan o'r safle'n barth ar gyfer datblygiad tai yn barod (polisi CH1) fel y diffiniwyd yn y CDU (Gorffennaf 2009).

Dynodiadau Cynllunio: Safle 3

Nid yw dynodiadau cynllunio'n cyfyngu ar ddatblygiad ar Safle 3, er ei fod wedi'i ddynodi'n rhannol ar gyfer datblygiad tai (polisi CH1) ac yn rhannol ar gyfer cyflogaeth (dosbarthiadau defnyddio D3 – B1, B2 neu B8) yn CDU Gwynedd (Gorffennaf 2009).

Topograffi: Safle 1

Nid yw topograffi'r safle'n cyfyngu ar ddatblygiad ar Safle 1. Mae dŵr yn codi i'r wyneb mewn nifer o fannau ar y safle a chwrs dŵr (sy'n cael ei ddsbarthu fel 'prif afon' gan Asiantaeth yr Amgylchedd) ychydig tu draw i derfyn gogledd-orllewinol y safle. Efallai bydd angen ymchwilio ymhellach i faterion draeniad, ond mae'n annhebyg y bydd llifogydd yn gyfyngiad sylweddol.

Topograffi: Safle 2

Mae newid mewn lefel o tua 20m yn digwydd ar hyd Safle 2 (o 25 i 45m AOD), sy'n annhebyg o fod yn unrhyw gyfyngiad sylweddol i ddatblygiad.

Topograffi: Safle 3

Safle cul gyda rhediad yn y tir, ac ar y terfyn gogleddol mae topograffi serth gyda gorchudd o lystyfiant arno. Mae ymyl gorllewinol y safle'n is (o tua 1m) na'r ffordd gyfagos. Mae'r newidiadau mewn lefel, ynghyd â natur gul gyffredinol Ardal 3 a chyflymder traffig ar hyd yr A499, yn gosod rhai cyfyngiadau safle o ran mynediad a graddfa'r datblygiad.

Mae'r rhannau sy'n gaeau agored i'r gogledd o Ardal 3 yn rhesymol o wastad, gyda'r rhan is o gaeau'n gosod mwy o her o ran topograffi a newidiadau mewn lefel.

Mae dŵr yn codi i'r wyneb wedi'i nodi ar y map, gan ddangos y gallai fod materion draeniad ynglŷn â'r safle.

Pryderon posibl gan y cyhoedd: Safle 1

Gallai'r rhai a ganlyn fynegi pryderon:

- Preswylwyr eiddo tu mewn i'r safle a phobl mae eu heiddo'n ffinio â'r safle, a hefyd;
- Ymwelwyr â'r fynwent a defnyddwyr y llwybr cyhoeddus

Mae'r pryderon hyn yn debygol o ganolbwyntio ar gynnydd mewn dylanwadau trefol ar y dirwedd rannol-wledig bresennol, colli elfennau o'r dirwedd mae pobl yn eu gwerthfawrogi, effeithiau

uniongyrchol ar olygfeydd a cholli llonyddwch a hefyd cynnydd mewn lefelau traffig ar hyd y lonydd bychan cul.

Pryderon posibl gan y cyhoedd: Safle 2

Gallai'r rhai a ganlyn fynegi pryderon:

- Preswylwyr eiddo tu mewn i'r safle a phobl mae eu heiddo'n ffinio â'r safle, a hefyd;
- Defnyddwyr y llwybr cyhoeddus a'r weledfan ar y Garn

Mae'r pryderon hyn yn debygol o ganolbwyntio ar gynnydd mewn dylanwadau trefol ar y dirwedd rannol-wledig bresennol, effeithiau ar olygfeydd a cholli llonyddwch a chynnydd mewn lefelau traffig ar hyd y lonydd bychan cul.

Pryderon posibl gan y cyhoedd: Safle 3

Gallai'r rhai a ganlyn fynegi pryderon:

- Preswylwyr eiddo tu mewn i'r safle a phobl mae eu heiddo'n ffinio â'r safle;

Gallai fod pryderon am ddatblygiad 'llinellol' ar hyd y coridor ffordd a phryderon am ddiogelwch gyda chynnydd mewn lefelau traffig ar hyd yr A499.

Sensitifrwydd i ddatblygiad posibl

Yn yr achos hwn, mae'n cyfeirio at sensitifrwydd cynhenid y dirwedd ei hunan, beth bynnag fo'r math o newid datblygiad sy'n cael ei ystyried. Mae sensitifrwydd yn ymwneud ag asesiad o ansawdd y dirwedd (wedi'i fynegi trwy ddynodiadau cenedlaethol, rhanbarthol neu leol), ei chymeriad a'i chynnwys, arfarniad o welededd y safle, presenoldeb materion sy'n gwneud safle'n fwy deniadol ac yn llai deniadol, a chyflwr cyffredinol y dirwedd. Bydd sensitifrwydd yn cael ei fesur ar raddfa o uchel / canolig / isel.

Safle 1

Nid yw Safle 1 wedi'i ddynodi'n genedlaethol nac yn rhanbarthol. Yn yr asesiad LANDMAP mae'n cyrraedd lefel canolig yn yr arfarniad Synhwyrdd a Chynefin, ond lefel uchel ar gyfer Hanesyddol gan ei fod yn rhan o gyrion anheddiad hanesyddol Pwllheli. Oherwydd y gallai natur y derbynwyr gweledol fod yn sensitif, ac oherwydd eu nifer, mae barn y gallai'r safle yma fod o sensitifrwydd canolig – uchel i ddatblygiad.

Safle 2

Nid yw Safle 2 wedi'i ddynodi'n genedlaethol nac yn rhanbarthol. Yn yr asesiad LANDMAP mae'n cyrraedd lefel canolig yn yr arfarniad Synhwyrdd a Chynefin, ond lefel uchel ar gyfer Hanesyddol gan ei fod yn rhan o gwr dwyreiniol tir parc Boduan, nid yw'n cyrraedd unrhyw arfarniadau

eithriadol yn LANDMAP. Oherwydd y gallai natur y derbynwyr gweledol fod yn sensitif, mae barn y gallai'r safle yma fod o sensitifrwydd canolig – uchel i ddatblygiad.

Safle 3

Nid yw Safle 3 wedi'i ddynodi'n genedlaethol nac yn rhanbarthol. Yn yr asesiad LANDMAP mae'n cyrraedd lefel isel i ganolig yn yr arfarniad Synhwyrdd a Chynefin, ac arfarniad uchel yn Hanesyddol ar ei gwr gorllewinol. Oherwydd nifer isel y derbynwyr sensitif posibl, mae barn y gallai'r safle yma fod o sensitifrwydd isel i ddatblygiad.

3.3.3 Effeithiau Posibl Datblygiad

Gall effeithiau at y dirwedd ddigwydd:

- yn ffabrig y dirwedd o ganlyniad i dynnu ymaith neu newid elfennau neu nodweddion unigol;
- i agweddau esthetig (e.e. graddfa, teimlad o fod wedi cau i mewn, amrywiaeth, patrwm a lliw, amgyffrediad – teimlad o unigedd, llonyddwch, naturioldeb ayyb) neu;
- i gymeriad cyffredinol y dirwedd.

Derbynwyr ar gyfer y Dirwedd: Safle 1

Yn gyffredinol, bydd datblygiad yn newid cymeriad gwledig safle 1 ac yn newid cymeriad cwr gogleddol Pwllheli.

Dylai cynigion ar gyfer datblygiad tu mewn i ACT 8 ystyried y patrwm anheddiad presennol, gan ddefnyddio patrymau tirffurf a llystyfiant i liniaru effeithiau ac i adlewyrchu patrymau lleol.

Tu mewn i ACT 10, dylai cynigion ar gyfer datblygu o gwmpas cyrion anheddiad fod yn adlewyrchu cymeriad yr anheddiad sy'n bodoli'n barod, gan ddefnyddio patrymau tirffurf a llystyfiant i liniaru effeithiau ac i adlewyrchu patrymau lleol. Dylai datblygiadau gydweddu gyda beth sy'n arferol yn yr ardal. Dylid ystyried effeithiau ar y dirwedd ehangach.

Dim ond elfen fechan o Ardaloedd 8 a 10 yr ACT yw Safle 1, felly mae'n debygol na fydd yr effeithiau ar yr Ardaloedd Cymeriad Tirwedd yn ddigon i fod yn werth eu hystyried.

Derbynwyr ar gyfer y Dirwedd: Safle 2

Yn gyffredinol, bydd datblygiad yn newid cymeriad gwledig Safle 2 ac yn newid cymeriad cwr gogleddol Pwllheli.

Dylai cynigion ar gyfer datblygiad tu mewn i ACT 8 ystyried y patrwm anheddiad presennol, gan defnyddio patrymau tirffurf a llystyfiant i liniaru effeithiau ac i adlewyrchu patrymau lleol. Dim ond elfen fechan o ACT 8 yn gyffredinol yw'r safle, felly mae'n debygol na fydd yr effeithiau ar yr ardaloedd cymeriad yn ddigon i fod angen eu hystyried.

Derbynwyr ar gyfer y Dirwedd: Safle 3

Gallai datblygiad newid cymeriad gwledig y safle a newid cymeriad cwr dwyreiniol Pwllheli.

Dylai cynigion ar gyfer datblygiad tu mewn i ACT 8 ystyried y patrwm anheddiad presennol, gan defnyddio patrymau tirffurf a llystyfiant i liniaru effeithiau ac i adlewyrchu patrymau lleol. Dim ond elfen fechan o'r ACT gyffredinol yw'r safle, felly mae'n debygol na fydd yr effeithiau'n ddigon i fod angen eu hystyried.

Effeithiau ar gymeriad tirwedd Safle 1

Mae gan y safle deimlad gwledig gyda gwrychoedd, a nifer o goed aeddfed mewn gwrychoedd, sy'n diffinio caeau pori agored a bloc o goetir.

Gallai datblygiad ar y safle arwain at golli ei deimlad gwledig/amaethyddol ac ar hyn o bryd mae'n ffurfio cwr meddal y gellir treiddio trwyddo ar gyfer ardal drefol gogledd Pwllheli. Gan ddibynnu ar natur y datblygiad, gallai fod effeithiau sylweddol ar gymeriad cyffredinol y dirwedd.

Effeithiau ar gymeriad tirwedd Safle 2

Gallai datblygiad ar y safle arwain at golli ei deimlad gwledig/amaethyddol ac ar hyn o bryd mae'n ffurfio cwr meddal y gellir treiddio trwyddo i'r gogledd o ardal drefol Pwllheli. Gan ddibynnu ar natur y datblygiad arfaethedig, gallai fod effeithiau sylweddol ar gymeriad cyffredinol y dirwedd.

Effeithiau ar gymeriad tirwedd Safle 3

Gallai datblygiad ar y safle arwain at golli ei deimlad gwledig/amaethyddol ac ar hyn o bryd mae'n ffurfio cwr meddal y gellir treiddio trwyddo i'r dwyrain o ardal drefol Pwllheli. Gan ddibynnu ar natur y datblygiad arfaethedig, gallai gael effeithiau sylweddol ar gymeriad cyffredinol y dirwedd.

Effeithiau ar elfennau o'r dirwedd: Safle 1

Mae'r datblygiad ei hunan a'r llwybrau mynediad yn gysylltiedig ag ef yn debygol o effeithio ar elfennau o'r dirwedd. Gallai defnyddio'r datblygiad i'w lawn botensial olygu clirio nodweddion sy'n bodoli nawr yn y dirwedd. Byddai mynediad at y safle'n digwydd ar hyd ffyrdd bychan cul, a gallai hynny ddod â rhai cyfyngiadau safle a golygu bod angen lleddu lonydd a gwella cyffyrdd er mwyn hwyluso datblygiad. Gallai gwaith i ledw ffyrdd effeithio ar y lôn fechan gyda choed ar ei dwy ochr sy'n rhedeg trwy'r safle. Gallai datblygiad hefyd olygu colli terfynau pendant gyda gwrychoedd, a

choed mewn gwrychoedd. Gan ddibynnu ar natur y datblygiad, gallai gael effeithiau sylweddol ar elfennau o'r dirwedd.

Effeithiau ar elfennau o'r dirwedd: Safle 2

Byddai mynediad i'r safle ar hyd Allt Salem, a gallai hynny olygu rhai cyfyngiadau safle o ran mynediad a graddfa'r datblygiad. Gallai fod angen am ffyrdd mynediad a ffyrdd mewnol newydd, a rheiny'n effeithio ar y terfynau caeau yn yr ardal, sy'n cyfrannu tuag at ei gymeriad gwledig. Gan ddibynnu ar natur y datblygiad arfaethedig, gallai'r effeithiau fod yn rhai cymedrol.

Effeithiau ar elfennau o'r dirwedd: Safle 3

Byddai mynediad i'r safle o'r A499, a gallai hynny achosi rhai cyfyngiadau safle o ran mynediad. Efallai byddai angen cael mwy o fynedfeydd ffyrdd a ffyrdd mewnol, i hwyluso datblygiad. Gallai datblygiad arwain at golli hynny o wrychoedd terfyn, ac efallai gloddiau, sydd yno'n barod.

Agweddau esthetig: Safle 1

Gallai defnyddwyr presennol y safle (sef preswylwyr a phobl yn ymweld â'r fynwent) sylwi ar newid sylweddol yn y teimlad presennol o naturioldeb, llonyddwch a phellenigrwydd.

Agweddau esthetig: Safle 2

Gallai defnyddwyr presennol y safle (sef preswylwyr a phobl yn defnyddio'r llwybr troed) sylwi ar newid sylweddol yn y teimlad presennol o naturioldeb, llonyddwch a phellenigrwydd.

Agweddau esthetig: Safle 3

Gan nad oes gan Ssafle 3 deimlad o bellenigrwydd neu lonyddwch, mae'n debyg mai cyfyngedig fyddai'r effeithiau ar amgyffrediad esthetig o'r safle.

Derbynwyr Gweledol

Effeithiau gweledol yw'r effeithiau ar olygfeydd penodol ac ar yr amwynder gweledol cyffredinol y bydd pobl yn ei gael. Derbynwyr gweledol yw unigolion a/neu grwpiau wedi'u diffinio o bobl y gallai'r cynnig effeithio arnynt.

Safle 1

Mae llawer o amlen weledol Safle 1 wedi'i chynnwys yn agos at y safle, gan estyn ychydig tu draw i derfynau caeau hyd at eiddo ac adeiladau cyfagos ac at y tirffurf sy'n codi ar hyd y gefn uwchben Pwllheli.

Bydd eiddo preswyl (derbynwyr sensitifrwydd uchel) yn union wrth ymyl y safle neu tu mewn iddo'n cael golygfeydd uniongyrchol ac agored o'r datblygiad (er y bydd eu golygfeydd yn wahanol eu natur gan ddibynnu ar leoliad yr eiddo tu mewn i'r safle, lleoliad a natur y cynigion datblygu a'r posibilrwydd y byddai terfynau caeau aeddfed yn cael eu cadw yn eu lle). Gan fod eu golygfa bresennol yn un wledig, mae'n debygol y byddai effaith sylweddol ar yr amwynder gweledol iddynt.

Er bod golygfeydd hirach dros y dirwedd tua'r gogledd, mae'n annhebyg y byddai derbynwyr posibl yn gweld unrhyw newidiadau sylweddol yn eu golygfa oherwydd graddfa'r safle a'i leoliad ar gwr yr anheddiad presennol, felly mae'n debyg na fyddai'r effeithiau'n rhai sylweddol.

Bydd ymwelwyr â'r fynwent (sensitifrwydd canolig) yn cael golygfeydd agored, uniongyrchol a chymharol hir dros y safle datblygu posibl. Mae'n debyg y byddai effeithiau gweledol sylweddol ar ddefnyddwyr y fynwent, gan ddibynnu ar natur y datblygiad.

Gallai'r effeithiau ar ddefnyddwyr y llwybr cyhoeddus (sensitifrwydd canolig-uchel) fod yn sylweddol, gan ddibynnu ar natur y datblygiad ac ar blannu i sgrinio, neu fod y llystyfiant presennol yn aros yn ei le.

Byddai effaith yn digwydd ar y golygfeydd o weledfan y Garn (derbynnydd sensitifrwydd uchel) oherwydd presenoldeb uniongyrchol y datblygiad a newid yng nghymeriad a natur yr olygfa, sydd ar hyn o bryd yn wledig yn bennaf. Mae'n debyg y byddai'r effeithiau posibl yn rhai sylweddol.

Gallai eiddo gwasgaredig yn y mewndir tua'r gogledd o Safle 1 gael golygfeydd dros y datblygiad ar wahanol bellteroedd ac o natur amrywiol (ar osgo, uniongyrchol, agored, cipolwg ayyb). Mae'n annhebyg y bydd derbynwyr yn y rhannau pellach i ffwrdd yn y gogledd yn sylwi ar newidiadau yn eu golygfa os datblygir y safle, felly mae'n debyg bydd yr effeithiau'n ddigon bychan i gael eu diystyru.

Bydd defnyddwyr y coleg (derbyniwr sensitifrwydd isel) yn cael golygfeydd uniongyrchol ac agored dros y safle, ond oherwydd sensitifrwydd isel y derbyniwr hwn nid yw'r effeithiau'n debyg o fod yn sylweddol.

Bydd defnyddwyr y ffordd (derbyniwr sensitifrwydd isel) yn cael cipolygon a golygfeydd agored mwy uniongyrchol o'r safle wrth iddynt deithio ar hyd gwr y safle a thrwyddo. Byddai'r effeithiau hyn yn rhai lleol (gan ddibynnu ar natur a lleoliad y datblygiad, sgrinio lleol ayyb) ond o gofio sensitifrwydd isel y math yma o dderbyniwr, mae'n annhebyg y byddent yn effeithiau sylweddol.

Mae'n annhebyg y byddai effeithiau'n deillio o fod adeiladau'n dod i'r golwg uwchben llinell y grib uwchben Pwllheli, heblaw am pe byddai'r datblygiad ar raddfa fawr.

Safle 2

Mae llawer o amlen weledol Safle 2 wedi'i chynnwys yn agos at y safle, gan estyn ychydig tu draw i derfynau caeau hyd at eiddo cyfagos a'r Coleg ac at y dirffurf sy'n codi ar hyd y grib uwchben Pwllheli a'r Garn.

Bydd eiddo preswyl sy'n union ger a gyferbyn â'r safle'n cael golygfeydd uniongyrchol ac agored o'r datblygiad posibl, a chan mai golygfa wledig sydd ganddynt nawr gallai'r effaith ar eu hamwynder gweledol fod yn sylweddol, gan ddibynnu ar natur y datblygiad.

Gallai'r effeithiau ar ddefnyddwyr y llwybr cyhoeddus a'r weledfan ar y Garn (derbynnydd sensitifrwydd uchel) fod yn sylweddol gan y byddai effaith arnynt oddi wrth bresenoldeb agosach y datblygiad a newid yng nghymeriad a natur yr olygfa, sydd ar hyn o bryd yn un wledig yn bennaf.

Er bod golygfeydd hirach dros y dirwedd i'r gogledd, mae derbynwyr yn yr ardal honno'n annhebyg o weld unrhyw newidiadau sylweddol yn eu golygfa oherwydd graddfa'r llain o dir a'i leoliad ar gyrion anheddiad sy'n bodoli'n barod, felly mae'r effeithiau'n debyg o fod yn fychan neu'n ddigon bychan i gael eu diystyru.

Safle 3

Mae llawer o amlen weledol Safle 3 wedi'i chynnwys ar hyd yr A499. Mae nifer fechan o dderbynwyr preswyl sensitifrwydd uchel yn agos at y safle. Byddai'r derbynwyr hyn, ar y mwyaf, yn gweld y datblygiad yn rhannol neu trwy fylchau mewn nodweddion eraill, gan y byddai'r topograffi a'r llystyfiant presennol yn sgrinio'r eiddo oddi wrth ddatblygiad posibl tu mewn i'r safle. Felly nid yw'r effeithiau posibl yn debygol o fod yn sylweddol.

Mae cymeriad agored y safle'n cyfyngu ar allu nodweddion presennol y dirwedd i fod yn sgrîn effeithiol i atal gweld y safle o'r ffordd.

Bydd defnyddwyr cerbydau ar goridor ffordd yr A499 yn cael golygfeydd agored ac uniongyrchol o'r safle datblygu arfaethedig, ond oherwydd eu sensitifrwydd isel mae'n annhebyg y byddai hynny'n cael effaith sylweddol.

Dim ond ar ran fechan o'r ffordd ger cwr dwyreiniol Pwllheli mae palmant i gerddwyr, ac mae'r cerddwyr yn debyg o gael cipolygon o'r datblygiad. Gellir ystyried cerddwyr yn dderbynwyr sensitifwydd cymedrol, ac yn hynny nid yw'r effeithiau posibl yn debygol o fod yn sylweddol.

Cefndir, gwelededd a derbynwyr gweledol: Safle 1

Mae Safle 1 wedi'i gyfyngu'n dda, gyda golygfeydd wedi'u cyfyngu i'r ardal uniongyrchol. Mae gan eiddo preswyl ar hyd Allt Salem a'r tri eiddo preswyl tu mewn i Safle 1 olygfeydd dros y safle, a gallai hynny gyfyngu ar ddatblygiad oherwydd effeithiau ar eu hamwynder preswyl a gweledol.

Cefndir, gwelededd a derbynwyr gweledol: Safle 2

Mae Safle 2 wedi'i gyfyngu'n dda, gyda golygfeydd wedi'u cyfyngu i'r ardal uniongyrchol. Mae gan eiddo preswyl ar hyd Allt Salem olygfeydd dros Safle 2, a gallai hynny gyfyngu ar ddatblygiad oherwydd effeithiau ar eu hamwynder preswyl a gweledol hwy. Gallai'r effeithiau posibl ar olygfeydd o'r weledfan ar y Garn, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n lleol, hefyd gyfyngu ar ddatblygiad.

Cefndir, gwelededd a derbynwyr gweledol: Safle 3

Mae rhai rhwystrau tu mewn i'r safle, sydd yn gyffredinol yn un â chymeriad agored iddo. Mae golygfeydd cyfyngedig allan o'r safle ac i mewn iddo, yn bennaf ar hyd coridor ffordd yr A499. Mae safle wedi'i gyfyngu'n dda iawn, gyda'r golygfeydd wedi'u cyfyngu i ardal uniongyrchol y dyffryn ac ar hyd yr A499.

3.3.4 Egwyddorion Datblygu Dangosol

Safle 1

Dylid ystyried y materion posibl a ganlyn:

- Gallai datblygiad gael effeithiau o lefel uchel ar dderbynwyr sensitif fel eiddo preswyl tu mewn i derfynau'r safle ac o'u cwmpas, a defnyddwyr gweledfan y Garn.
- I ba raddau gellid, a pha mor ddymunol, yw estyn anheddiad i dir gwledig i'r gogledd o Bwllheli.
- Gallai'r posibilrwydd o gadw rhai nodweddion aeddfed o'r dirwedd o gwmpas y safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol, er y byddai angen ymchwilio ymhellach i ansawdd y nodweddion hynny, a hefyd;
- Mynediad a symudiadau traffig adeiladu ar hyd Allt Salem.

Dylid ystyried y mesurau lliniaru a ganlyn fel cyfleoedd i leihau effaith datblygiad ar Safle 1:

- Gallai'r posibilrwydd o gadw rhai nodweddion aeddfed o'r dirwedd, yn enwedig coed aeddfed yn y gwrychoedd terfyn tu mewn i'r safle, gynnig rywfaint o gyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol;
- Byddai sgrinio mewnol a chadw terfynau caeau lle bo modd yn lliniaru'r effeithiau posibl ar yr olygfa i eiddo preswyl, ond ychydig o effaith gai hynny ar y golygfeydd o'r Garn, oherwydd bod y weledfan yno yn uchel.
- Gallai datblygiad newid natur wledig y safle hwn a newid cymeriad cwr gogleddol Pwllheli, ond gellid lleihau'r effaith hon trwy greu llefydd gwyrdd a chadw neu greu sgrinio fel rhan o'r datblygiad, a hefyd;
- Mae Safle 1 yn llawer mwy o faint na Safleoedd 2 neu 3 ac felly'n cynnig mwy o gyfle i integreiddio mewn modd sensitif (gan fod cyfle i gael yr un swm o ddatblygiad yno ag y gellid ei gynnig ar gyfer y ddau safle arall).

Ar sail y pwyntiau uchod, mae'r mesurau a ganlyn yn cael eu hargymell fel egwyddorion datblygu dangosol i'w hystyried ar gyfer Safle 1:

- Gallai'r posibilrwydd o gadw nodweddion aeddfed o'r dirwedd tu mewn i'r safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol;
- Cadw darnau o dir agored tu mewn i safle'r datblygiad;
- Plannu newydd i sgrinio datblygiad oddi wrth dderbynwyr gweledol sensitif lle bo'n briodol;
- Dylai cadw llystyfiant sy'n bodoli'n barod ar y safle, a llefydd agored a phlannu newydd, fod yn rhan o strategaeth Seilwaith / Tirwedd Gwyrdd ar gyfer datblygu'r safle;
- Dylid cynnig cyfyngu ar uchder adeiladau ym mhen deheuol y safle (fel nad yw adeiladau'n codi uwchben ymyl y gefnen ychydig i'r gogledd o Bwllheli a dod yn weladwy mewn golygfeydd o'r de), a hefyd;
- Dylid datblygu cynigion gan gyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol: Cymeriad y Tirwedd (Tachwedd 2009) a'r materion dylunio allweddol ynddynt.

Safle 2

Dylid ystyried y materion posibl a ganlyn:

- Gallai datblygiad gael effeithiau o lefel uchel ar yr olygfa i dderbynwyr sensitif fel eiddo preswyl, a defnyddwyr llwybr cyhoeddus a'r weledfan ar y Garn;
- I ba raddau y gellid, a pha mor ddymunol, fyddai estyn anheddiad i'r gogledd o Bwllheli;
- Gallai'r posibilrwydd o gadw rhai nodweddion aeddfed o'r dirwedd o gwmpas y safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol, er y byddai angen ymchwilio ymhellach i ansawdd y rheiny, a hefyd;
- Mynediad a symudiadau traffig ar hyd Allt Salem.

Dylid ystyried y mesurau lliniaru a ganlyn fel cyfleoedd i leihau effaith datblygiad ar Safle 2:

- Gallai'r posibilrwydd o gadw rhai nodweddion aeddfed o'r dirwedd o gwmpas y safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol;
- Byddai sgrinio mewnol a chadw terfynau caeau lle bo modd yn lliniaru'r effeithiau gweledol posibl ar eiddo preswyl, ond ychydig o effaith gai hynny ar y golygfeydd o'r Garn, oherwydd bod y weledfan yno yn uchel, a hefyd;
- Gallai datblygiad newid natur wledig y safle hwn a newid cymeriad cwr gogleddol Pwllheli, ond gellid lleihau'r effaith hon os bydd llefydd gwyrdd a sgrinio'n cael eu cadw neu eu creu fel rhan o'r datblygiad, a hefyd;

Ar sail y pwyntiau uchod, mae'r mesurau a ganlyn yn cael eu hargymell fel egwyddorion datblygu dangosol i'w hystyried ar gyfer Safle 2:

- Gallai'r posibilrwydd o gadw nodweddion aeddfed o'r dirwedd tu mewn i'r safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol;
- Cadw darnau o dir agored tu mewn i safle'r datblygiad;
- Plannu newydd i sgrinio datblygiad oddi wrth dderbynwyr gweledol sensitif lle bo'n briodol;
- Dylai cadw llystyfiant sy'n bodoli'n barod ar y safle, a llefydd agored a phlannu newydd, fod yn rhan o strategaeth Seilwaith / Tirwedd Gwyrdd ar gyfer datblygu'r safle;
- Dylid cynnig cyfyngu ar uchder adeiladau ym mhen deheuol y safle (fel nad yw adeiladau'n codi uwchben ymyl y gefnen ychydig i'r gogledd o Bwllheli a dod yn weladwy mewn golygfeydd o'r de), a hefyd;
- Dylid datblygu cynigion gan gyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol: Cymeriad y Tirwedd (Tachwedd 2009) a'r materion dylunio allweddol ynddynt.

Safle 3

Dylid ystyried y materion posibl a ganlyn:

- I ba raddau y gellid a pha mor ddymunol yw estyn anheddiad i'r dwyrain o Bwllheli;
- Gallai'r posibilrwydd o gadw rhai nodweddion aeddfed o'r dirwedd o gwmpas y safle gynnig rywfaint o gyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol, ond byddai angen ymchwilio ymhellach i ansawdd y rheiny;
- Mynediad a symudiadau traffig ar hyd ac oddi ar yr A499, a hefyd;
- Y posibilrwydd o greu datblygiad 'rhuban' llinellol ar hyd yr A499, a gwanhau'r newid o wledig i drefol, sydd ar hyn o bryd wedi'i ddiffinio'n gryf.

Dylid ystyried y mesurau lliniaru a ganlyn fel cyfleoedd i leihau effaith datblygiad ar Safle 3:

- Gallai'r posibilrwydd o gadw rhai nodweddion aeddfed o'r dirwedd o gwmpas y safle gynneg cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol, er bod y cyfle i wneud hynny'n fwy cyfyngedig nag yw ar gyfer safleoedd 1 a 2;
- Bydd sgrinio mewnol a chadw terfynau caeau lle bo modd yn lliniaru'r effeithiau gweledol posibl oddi wrth goridor ffordd yr A499, a hefyd;
- Gallai datblygiad newid cymeriad gwledig y safle hwn a newid cymeriad cwr dwyreiniol Pwllheli. Er hynny, gellid lleihau'r effaith hon os bydd lle gwyrdd yn cael ei gadw neu ei greu o'r newydd fel rhan o'r cynneg datblygu (yn enwedig fel parth rhagod gwyrdd ar hyd terfyn yr A499).

Ar sail y pwyntiau uchod, mae'r mesurau a ganlyn yn cael eu hargymell fel egwyddorion datblygu dangosol i'w hystyried ar gyfer Safle 3:

- Gallai'r posibilrwydd o gadw nodweddion aeddfed o'r dirwedd tu mewn i'r safle gynneg cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol;
- Cadw darnau o dir agored os bydd modd tu mewn i safle'r datblygiad;
- Plannu newydd (yn enwedig ar hyd terfyn yr A499) i sgrinio datblygiad oddi wrth goridor y ffordd;
- Dylai cadw llystyfiant sy'n bodoli'n barod ar y safle, a llefydd agored a phlannu newydd, fod yn rhan o strategaeth Seilwaith / Tirwedd Gwyrdd ar gyfer datblygu'r safle;
- Ymchwilio i nodweddion treftadaeth posibl, a hefyd;
- Dylid datblygu cynigion gan gyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol: Cymeriad y Tirwedd (Tachwedd 2009) a'r materion dylunio allweddol ynddynt.

3.4 Ecoleg

3.4.1 Llinell Sylfaen

3.4.1.1 Safleoedd wedi'u Gwarchod

Does dim un o'r tri safle arfaethedig tu mewn i unrhyw safleoedd wedi'u gwarchod yn statudol, yn cynnwys safleoedd Natura 2000 (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig), safleoedd Ramsar, Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol neu Warchodfeydd Natur Lleol, a does dim safleoedd o'r fath o fewn 200m o'r tri safle hyn.

Mae nifer o Safleoedd Bywyd Gwylt Lleol (SBGLI) tu mewn i'r tri safle, a'r manylion i'w gweld isod. Mae Safleoedd Bywyd Gwylt Lleol yn ddynodiad anstatudol sydd wedi'i bennu gan yr awdurdod lleol oherwydd diddordebau cadwraethol yr ardal honno. Bydd safleoedd o'r fath yn cael eu gwarchod dan bolisiau mewn Cynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Datblygu Unedig ac mae'r diddordebau cadwraeth natur y dynodwyd y safleoedd ar eu cyfer yn ystyriaeth faterol mewn amodau cynllunio. Mae'r safleoedd hynny hefyd yn bwysig wrth weithredu a rheoli Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Yn ôl Nodyn Cyngor Technegol rhif 5 'Cadwraeth Natur a Chynllunio' (TAN 5) dylai datblygwyr geisio osgoi niweidio diddordebau cadwraeth natur y fath safleoedd lle bo modd, a lle na ellir osgoi niwed dylid ei gadw cyn lleied ag y bo modd trwy gael mesurau lliniaru wedi'u trefnu i wneud iawn am yr effaith.

Safle 1

- Mae Safle Bywyd Gwylt Lleol (SBGLI) Hen Llys yng nghanol Safle 1 ac wedi'i ddynodi oherwydd y glaswelltir niwtral sydd wedi'i wella'n rhannol.
- Mae SBGLI Gelli, Clogwyn Bach a Chaeau-gwynion Isa yn union wrth ymyl terfyn gorllewinol Safle 1. Mae'r SBGLI hwn wedi'i ddynodi oherwydd y glaswelltir niwtral sydd wedi'i wella'n rhannol, glaswelltir asid, prysgwydd a choetir llydanddail.
- Mae SBGLI y Garn (sydd wedi'i ddynodi oherwydd glaswelltir asid) tua 170m i'r de-orllewin.

Safle 2

Mae SBGLI y Garn (sydd wedi'i ddynodi oherwydd glaswelltir asid) tua 50m i'r de-orllewin.

Safle 3

- Mae SBGLI Ger Penlon Caernarfon, sydd wedi'i ddynodi oherwydd y glaswelltir niwtral wedi'i wella'n rhannol, a rhedyn, yn rhan ogleddol Safle 3.
- Mae SBGLI Nant Stigallt (sydd wedi'i ddynodi oherwydd coetir conifferaidd, rhedyn a choetir llydanddail) yn union nesaf at Safle 3, ar yr ochr arall (de-ddwyreiniol) o'r A499.
- Mae SBGLI y Garn (sydd wedi'i ddynodi oherwydd glaswelltir asid) tua 170m i'r de-orllewin.

3.4.1.2 Rhywogaethau a Chynefinoedd wedi'u Gwarchod

Yn ôl y cofnodion bioamrywiaeth o ddata-bas Cofnod, mae'r Draenog (1953) a'r Picellwr Cyffredin (1945) yn bresennol yn y sgwâr grid 1km sy'n ganolog i'r tri safle (SH3735). Cofnodwyd hefyd bod clwydfan ystlumod (dau ystlum mewn tŷ, heb gofnod o'u rhywogaeth) yn sgwâr grid SH3735 yn 1993. Gellir gweld isod y cofnodion bioamrywiaeth sydd ar gael o'r safleoedd penodol.

Yn ogystal â'r cofnodion bioamrywiaeth Cofnod, fe gwblhawyd ecolegydd YGC (sy'n aelod llawn o CIEEM) arolwg estynedig Rhan 1 o gynefinoedd a safleoedd ar 22 Hydref. Roedd hynny'n ystyried

presenoldeb rhywogaethau a chynefinoedd wedi'u gwarchod ar sail Ewropeaidd a'r Deyrnas Unedig, a hefyd rhywogaethau a chynefinoedd Adran 42 a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth y Deyrnas Unedig a Lleol ar bob safle ac o'i gwmpas. Roedd diffyg mynediad at y tir yn cyfyngu ar yr arolwg, ond mae'r disgrifiadau isod o'r safleoedd yn rhoi amlinelliad o'r nodweddion a gofnodwyd ym mhob safle.

Mae'r cynefinoedd yn y tair ardal a arolygwyd yn debyg iawn i'w gilydd yn yr ystyr eu bod yn gyffredinol yn agos ar ei gilydd o fewn y dirwedd ehangach o gwmpas Pwllheli ac yn gyffredinol yn bennaf yn laswelltir wedi'i wella'n rhannol a darnau o laswelltir wedi'i wella. Mae'r cyfan yn cael ei bori gan ddefaid neu geffylau ar ddwyseddau stocio cymharol drwm, sy'n gostwng bioamrywiaeth y llystyfiant sy'n bresennol. Mewn rhai mannau mae rhannau bach o laswelltir bras heb ei bori, a phocedi o brysgwydd a choetir llydanddail, tra bo coed aeddfed yn ffurfio lonydd coed i'w gweld ar gyrion y ffyrdd bychan. Cloddiau a waliau cerrig, yn bennaf, yw terfynau'r ffyrdd bychan hynny, gyda nifer fechan o wrychoedd.

Gweler Atodiad A.4 am y Cynlluniau Arolwg Cynefin Rhan 1 Estynedig a Nodiadau Targed.

Safle 1

Ni chafwyd unrhyw gofnodion Cofnod yn ychwanegol at y rhai y soniwyd amdanynt yn gynharach.

Dangosodd yr Arolwg Cynefin Rhan 1 estynedig bod y safle'n un o gaeau gyda glaswelltir wedi'i wella'n rhannol a glaswelltir heb ei wella, coridor afon coediog a phocedi o goed a phrysg aeddfed a rhannol aeddfed. Mae'r ardal yn darparu cynefin addas i gynnal moch daear (yn cynnwys eu daear) a gallai o bosibl gynnal ystlumod, dyfrgwn, tylluanod gwyn ac ymlusgiaid. Cofnodwyd nyth gwenyn gwyllt mewn twll mewn coeden gwern ger y fynwent sy'n cael ei ddefnyddio nawr yn Rhif Grid 237380, 335875 ac mae pwll dŵr allai gynnal amffibiaid yn agos, yn Rhif Grid 237397, 335872.

Safle 2

Mae cofnodion cynharach o wiber yn 2006 (SH370353; benyw llawn twf ym Mhenrallt) ac Eirinllys Culddail o 1993 (SH370353; yn Allt Fawr), y ddau tua 175m i'r de-orllewin o'r safle.

Dangosodd yr arolwg Cynefin Rhan 1 estynedig bod ardal yr arolwg yn gyffredinol yn un o laswelltir wedi'i wella'n rhannol a glaswelltir wedi'i wella, sy'n borfa i ddefaid. Mae cloddiau ar derfynau'r caeau, gyda'r potensial i gynnal ymlusgiaid, a nifer o goed onnen, sycamorwydden a derw aeddfed y credir bod ganddynt y potensial isel i uchel ddarparu llefydd clwydo i ystlumod.

Mae rhannau helaeth o dir prysgwydd yn bresennol yn agos at y cloddiau ar derfynau'r caeau, yn enwedig o gwmpas y nifer fechan o'r caeau canolog sydd â glaswelltir bras heb ei bori a rhannau mwy o brysgwydd. Gallai'r rheiny ddarparu cynefin gyda photensial canolog ar gyfer rhywogaethau o ymlusgiaid fel y fadfall, neidr ddefaid a neidr y gwair. Mae'r coed aeddfed a rhannol aeddfed, pocedi o brysg a darnau o laswelltir bras ym mhob rhan o'r safle hefyd yn darparu cynefin addas i amrywiaeth o adar fagu ynddynt.

Cofnodwyd tystiolaeth niferus o foch daear ar y safle hwn, gyda manau croesi rheolaidd a bylchau mewn terfynau gyda blew allanol moch daear i'w gweld yno.

Safle 3

Mae cofnod o ffwlbart o 2005 (SH381355; wedi'i ladd ar y ffordd) 65m i'r de o'r safle.

Mae Safle 3 mewn dyffryn torlannol bychan ac yn cynnwys glaswelltir wedi'i wella ac wedi'i wella'n rhannol, yn borfa i ddefaid a gyda rhannau cyfyngedig o dir glaswellt corsiog. Ar ei derfyn mae wal gerrig ar hyd yr A499 i mewn i Bwllheli tua'r de-ddwyrain.

I'r gogledd-orllewin mae ardal helaeth o goetir llydanddail aeddfed a phrysgwydd trwchus. Mae'r cynefin hwn yn debygol o gynnwys llefydd clwydo i ystumod a daearau moch daear. Mae hefyd farn y gallai fod yn gynefin o addaswydd isel i ganolig ar gyfer rhywogaethau o ymlusgiaid fel y fadfall, neidr ddefaid a neidr y gwair yn y rhannau o laswelltir bras a phrysgwydd a'r cloddiau terfyn. Mae barn hefyd bod yr ardaloedd o goetir aeddfed a rhannol aeddfed a phrysgwydd yn darparu cynefin addas i amrywiaeth o adar fod yn magu ynddynt.

3.4.1.3 Ymgynghori Statudol

Ymgynghorwyd gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ac uned bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd ar nodweddion ecolegol yn ardal yr astudiaeth. Mae eu hymatebion hwy i'r ymgynghori i'w gweld yn Atodiad B, a dyma grynodeb ohonynt:

Cyngor Gwynedd: Uned Bioamrywiaeth

Mae dau safle bywyd gwyllt tu mewn i derfynau'r ardaloedd; Henllys yn Rhan 2 a Ger Penlon yn Rhan 3 – y ddau wedi'u rhestru fel glaswelltir niwtral wedi'i wella'n rhannol. Gallai fod caeau eraill hefyd sydd wedi'u gwella'n rhannol o ganlyniad i ddiffyg ffermio dwys yn ystod y blynyddoedd diwethaf, yn enwedig yn Safle 3.

Dyma grynodeb o'u pryderon penodol hwy:

- Colli glaswelltir niwtral wedi'i wella'n rhannol

- Posibilrwydd o golli cynefin bwydo ar gyfer ystlumod – oherwydd y rhwydwaith o wrychoedd gyda choed.
- Byddai goleuo hefyd yn cael effaith sylweddol ar ystlumod yn yr ystyr ei bod yn dirwedd wledig ar hyn o bryd, wedi'i goleuo'n wael yn ystod y nos.

Yn Adran 3.6.2, gellir gweld eu sylwadau ar goed aeddfed tu mewn i Safle 1.

Cyfoeth Naturiol Cymru

Bydd angen asesu'r dyraniadau posibl yng nghyswllt 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' y CDLIC er mwyn i'r Awdurdod fodloni eu hunain na fyddai dyrannu'r safle(oedd) yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Safleoedd a Warchodir dan Gyfraith Ewrop. Hefyd mae angen i'r UPCC fod yn sicr tu hwnt i amheuaeth wyddonol resymol na fydd y dyraniadau arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Ardal Cadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig na safle Ramsar.

Wrth ystyried dyraniadau dylid hefyd, lle bo'n briodol, ystyried gofynion eraill y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Mae'r rheiny'n cynnwys:

- darparu a rheoli nodweddion sy'n 'gerrig camu' a nodweddion llinellol
- atal dal/lladd Rhywogaethau Ewropeaidd yn ddamweiniol
- amddiffyn rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn Ewropeaidd, yn cynnwys ystyried dirywiad, a sicrhau cydymffurfiaeth gydag Erthygl 16 o ran a yw'r cynnig yn ateb maen prawf ar gyfer llacio'r rheolau; ac a yw'n ateb y ddau brawf gorfodol.

Mae angen i gynllunio defnydd tir a newid arfaethedig i ddefnydd tir ym Môn a Gwynedd ystyried yn ddigonol ac archwilio darpariaethau perthnasol y Gyfarwyddeb Adar (fel sydd i'w weld yn Rheoliad 9(A) o newidiadau 2012 i Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010). Yng nghyswllt cefn gwlad ehangach, mae hyn yn ymwneud yn benodol gyda chynnal, rheoli a chreu cynefinoedd i adar gwyllt. Mae'r Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael ei atgoffa o ddyletswydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i adrodd ar weithredu'r ddeddfwriaeth hon (Rheoliad 9(B)).

Dylid hefyd ystyried y broses o benderfynu a yw unrhyw rai o'r dyraniadau safle arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd, effeithiau nad ydynt wedi cael eu harfarnu'n ddigonol trwy Asesiad Amgylcheddol Strategol y CDLIC. Os credir y byddant yn arwain at y fath newidiadau, dylid gwneud yr arfarniad perthnasol er mwyn ateb gofynion y Prawf Cadernid perthnasol.

Mae angen ystyried ymhellach effaith bosibl y datblygiad ar statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau a warchodir. Mae'r rhywogaethau sy'n bresennol yng Ngwynedd yn cynnwys y dyfrgi, ystlumod, madfall dŵr cribog a llygoden bengron y dŵr. Lle mae Rhywogaeth a Warchodir gan Ewrop yn

bresennol, gall datblygiad symud ymlaen ddim ond ar yr amod yr atebir darpariaethau llacio rheolau Erthygl 16 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Mae dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried cadwraeth bioamrywiaeth, fel sydd i'w weld yn Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig ('NERC') (2006). Felly, i gydymffurfio gyda hyn dylai penderfyniad yr UPCC gymryd i ystyriaeth effeithiau niweidiol posibl ar y fath ddiddordebau.

3.4.2 Egwyddorion Datblygu Dangosol

Mae'r egwyddorion datblygu dangosol a ganlyn o ran agweddau ecolegol yn berthnasol i bob un o'r tri safle dan sylw. Lle mae rhai egwyddorion datblygu yn benodol ar gyfer safleoedd unigol, gellir gweld y rheiny o dan y penawdau safle unigol isod:

Egwyddorion datblygu cyffredinol i'r tri safle

- Dylid gwneud asesiad ystlumod rhagarweiniol yn ystod gaeaf 2013-2014, ar yr holl goed y gallai'r cynigion effeithio arnynt o fewn pob ardal arolwg. Bydd hynny'n pennu strategaeth a chynllun priodol ar gyfer nodi symudiadau ystlumod yn ystod tymor arolygu 2014. Dylai ymchwilio a darganfod yr holl linellau bwydo a chymudo i ystlumod y gallai'r cynigion datblygu effeithio arnynt, a dangos a fyddai angen trwydded ystlumod neu waith lliniaru i ganiatáu i unrhyw gynigion gael symud ymlaen.
- Dylid gwneud arolwg moch daear llawn i weld lle mae'r holl fannau croesi i foch daear ym mhob rhan o'r safleoedd a gweld lle gallai fod daearau moch daear. Pwrpas hynny yw dangos a fyddai angen trwydded i darfu ar foch daear er mwyn gallu symud ymlaen gyda'r datblygiad a dangos lle i wneud unrhyw waith lliniaru ar gyfer moch daear, pe byddai angen.
- Dylid gwneud arolygon ymlusgiaid tu mewn i'r tri safle i weld pa rywogaethau sy'n bresennol, a llunio strategaeth fudo addas ar gyfer unrhyw ymlusgiaid sy'n bresennol.
- Dylid rhaglennu unrhyw waith a wneir i glirio llystyfiant a pharatoi'r safle, er mwyn osgoi tymor nythu adar (yn gyffredinol o fis Mawrth hyd fis Medi).
- Dylid asesu'r datblygiadau posibl tu mewn i 'Asesiad Rholiadau Cynefinoedd' y CDLIC er mwyn sicrhau na fyddai dyrannu'r safleoedd yn cael effaith niweidiol ar Safleoedd wedi'u Gwarchod yn Rhyngwladol ac Ewropeaidd.
- Mae angen i unrhyw gynllunio ar gyfer defnydd tir a newidiadau arfaethedig mewn defnydd tir ym Môn a Gwynedd ystyried ac archwilio darpariaethau perthnasol y Gyfarwyddeb Adar. O ran cefn gwlad ehangach, mae hyn yn ymwneud yn benodol â chynnal, rheoli a chreu cynefin i adar gwyllt.
- Dylai gwaith i ddatblygu'r safleoedd gymryd i ystyriaeth a oes unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol yn debyg o ddigwydd nad ydynt wedi cael eu harfarnu'n barod

trwy Asesiad Amgylcheddol Strategol y CDLIC. Os credir y byddant yn arwain at y fath newidiadau, dylid gwneud yr arfarniad perthnasol er mwyn ateb gofynion y Prawf Cadernid perthnasol.

- Dylid ystyried a fydd datblygiad yn cael effaith negyddol ar statws cadwraeth unrhyw rywogaeth wedi'i warchod. Lle mae Rhywogaeth a Warchodir yn Ewropeaidd yn bresennol, gall datblygiad fynd yn ei flaen ddim ond trwy ateb darpariaethau llacio'r rheolu yn Erthygl 16 y Gyfarwydddeb Cynefinoedd.
- Cyn datblygu'r safleoedd, dylid dangos yr ystyriwyd y rhywogaethau a chynefinoedd sydd yn Adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig ('NERC') (2006). Mae'r arolwg cynefinoedd Rhan 1 yn darparu rhestr o'r rhywogaethau a chynefinoedd sy'n debygol o fod yn bresennol.

Egwyddorion datblygu ar gyfer safleoedd penodol

Safle 1

- Mae Safle Bywyd Gwylt Lleol Henllys yng nghanol yr ardal hon. Dylai unrhyw ddatblygiad yn yr ardal hon beidio cael unrhyw effaith niweidiol sylweddol ar Safle Bywyd Gwylt Henllys. Dylid cysylltu ag Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd o ran unrhyw effeithiau posibl ar y safle hwn.
- Dylid ystyried y posibilrwydd fod Tylluanod Gwyn yn bresennol, a gwneud arolwg i weld a ydynt yn bresennol ar y safle; yn enwedig safleoedd nythu.
- Dylid osgoi'r goeden gwern gyda nyth gwenyn gwylt ynddi, ger y fynwent nad yw'n cael ei ddefnyddio erbyn hyn (Rhif Grid 237380, 335875) a diogelu'r goeden yn ystod datblygu'r safle. (Arolwg cynefin Rhan 1).
- Dylid cadw'r pwll dŵr yn Rhif Grid 237397, 335872 fel nodwedd o'r cynefin a'i ddiogelu yn ystod y gwaith datblygu.

Safle 2

- Does dim egwyddorion datblygu penodol ar gyfer y safle hwn.

Safle 3

- Mae Safle Bywyd Gwylt Lleol Ger Penlon yng nghanol yr ardal hon. Dylai unrhyw ddatblygiad yn yr ardal hon beidio cael unrhyw effaith niweidiol sylweddol ar Safle Bywyd Gwylt Lleol Ger Penlon. Dylid cysylltu ag Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd o ran unrhyw effeithiau posibl ar y safle hwn.

Fel y trafodwyd yn Rhan 3.1 efallai bydd angen y gwelliannau a ganlyn i'r seilwaith cludiant mewn cysylltiad gyda datblygu Safleoedd 1 i 3, ond byddent yn digwydd tu allan i'r safleoedd hyn:

- I'r gogledd-ddwyrain o safle 1 mae'n debyg y bydd angen lledu dwy ochr y ffordd ddi-ddosbarth sy'n rhedeg trwy ganol Safle 1, yn parhau ymlaen ac wedyn ymuno gyda'r A499 yn SH 38468 36410, am bellter o 900m. Efallai hefyd bydd angen ail alinio'r ffordd hon er mwyn gwella'r gyffordd gyda'r A499; mae hyd mawr o wrych a rhai coed yn bresennol, a byddai angen eu tynnu oddi yno er mwyn lledu'r ffordd. Felly mae cyfyngiadau posibl yn perthyn i hyn o ran y dirwedd ac ecoleg e.e. cysylltiad rhwng cynefinoedd tu mewn i'r dirwedd, posibilrwydd o lefydd clwydo ystlumod, cynefin nythu i adar ac amwynder y dirwedd. Efallai bod hefyd rywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn yr ardal hon.
- Mae'n bosibl byddai angen lledu'r ffordd ar hyd y 330m o ffordd ddi-ddosbarth sy'n cysylltu'r A499 a'r A497. Byddai hynny'n digwydd yn agos at gyrion Gwarchodfa Bywyd Gwyllt Nant Stigallt, a gallai effeithio ar y warchodfa. Dylai unrhyw ddatblygiad osgoi cael effeithiau niweidiol sylweddol ar Warchodfa Bywyd Gwyllt Nant Stigallt. Dylid cysylltu ag Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd o ran unrhyw effeithiau posibl ar y safle hwn.

Yn ogystal â rhoi sylw i'r cyfyngiadau'n gysylltiedig gyda datblygiad, mae hefyd modd integreiddio'r cyfleoedd a ganlyn tu mewn i unrhyw gynigion datblygu er mwyn dod â buddiannau i nodweddion ecolegol yn ogystal â'r bobl fyddai'n byw a gweithio ar y safleoedd:

- Cadw gymaint ag y bo modd o goed aeddfed er mwyn lleihau faint o'r cynefin sy'n cael ei ddefnyddio gan ystlumod sy'n cael ei dynnu ymaith ar gyfer datblygiad, ym mhob ardal a arolygwyd. Bydd coed aeddfed hefyd o gymorth i greu amrywiaeth ac yn ganolbwynt yn y dirwedd.
- Gosod blychau ystlumod ar goed sy'n agos at rai allent gael eu torri i lawr, ym mhob ardal a arolygwyd.
- Bydd cadw'r pyllau dŵr croyw sydd tu mewn i Safle 1 yn sicrhau na fydd amffibiaid sy'n bridio yno'n cael eu cau allan o'r cynefin hwn. Bydd y pwll hefyd yn gynefin gwerthfawr i lawer o rywogaethau eraill ac yn ychwanegu amrywiaeth yn yr amgylchedd adeiledig.
- Bydd creu pyllau dŵr croyw newydd, fel rhan o systemau draenio cynaliadwy wedi'u hymgorffori yn y datblygiadau newydd, yn gwneud gwaith draenio a hefyd yn creu cynefinoedd newydd i rywogaethau dŵr, yn ychwanegu amrywiaeth gweledol ac efallai'n adnodd addysgol.
- Bydd cadw'r fynwent nad yw'n cael ei defnyddio nawr, fel cynefin i ymlusgiaid a bywyd gwyllt arall tu mewn i Safle 1, a'r ardaloedd o brysgwydd a glaswelltir bras tu mewn i Safleoedd 1, 2 a 3 yn darparu hafan i ymlusgiaid sy'n cael eu gyrru allan gan y datblygiadau ar y safleoedd hyn.
- Byddai modd creu hibernacula ar gyfer ymlusgiaid, gyda deunyddiau wedi'u cynhyrchu gan y datblygiadau (fel darnau o goed wedi'u torri i lawn) i gynorthwyo i gefnogi unrhyw boblogaeth o ymlusgiaid sy'n bodoli yno.

- Byddai modd gosod blwch nythu i dylluanod gwyn i'r gogledd o Safle 1 neu i'r gorllewin o Safle 2, allai annog yr aderyn Atodlen 1 yma i nythu yn yr ardal a chynorthwyo i wneud iawn am y posibilrwydd o golli cynefin nythu oherwydd datblygu Safleoedd 1 a 2.

3.5 Archaeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol

3.5.1 Llinell Sylfaen

3.5.1.1 Safleoedd wedi'u Dynodi

Gwnaethpwyd astudiaeth desg gan ddefnyddio GIS er mwyn gweld a oedd unrhyw nodweddion archeolegol a threftadaeth ddiwylliannol dynodedig tu mewn i'r safleoedd neu'n agos atynt. Roedd y rheiny'n cynnwys Adeiladau Rhestredig, Ardaloedd Cadwraeth, Henebion Restredig, Safleoedd Treftadaeth y Byd, Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol, Tirweddau o Ddiddordeb Hanesyddol Arbennig.

Mae pob un o'r tri safle tu mewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Ynys Enlli. Does dim un o'r safleoedd tu mewn i neu'n agos at unrhyw un o'r mathau eraill o nodweddion sydd wedi'u henwi uchod, er bod Ardal Gadwraeth Pwllheli tua 70m i'r de o bwynt agosaf Safle 2.

Safle 1

Mae Pont y Ddwryd yn bont restredig Graddfa II sy'n mynd dros Afon Dwyryd, tua 190m i'r gogledd-orllewin o'r safle. Yn ogystal â hyn, mae gwahanol adeiladau rhestredig yn nhref Pwllheli, tua 200m i'r de.

Mae Gorchymyn Cadw Coed Plas Tan yr Allt tua 100m i'r de o'r safle.

Safle 2

Mae Pont y Ddwryd yn bont restredig Graddfa II sy'n mynd dros Afon Dwyryd, tua 130m i'r gogledd-orllewin o'r safle. Yn ogystal â hyn, mae gwahanol adeiladau rhestredig yn nhref Pwllheli, tua 240m i'r de-ddwyrain.

Mae Gorchymyn Cadw Coed Plas Tan yr Allt tua 130m i'r de-ddwyrain o'r safle.

Safle 3

Heblaw am fod tu mewn i Dirwedd o Ddiddordeb Hanesyddol Eithriadol Llŷn ac Ynys Enlli, does dim nodweddion archeolegol neu dreftadaeth ddiwylliannol dynodedig tu mewn i'r safle nac yn gyfagos ato.

3.5.1.2 Ymgynghori Statudol

Ymgynghorwyd gyda Cadw a Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd (GCAG) o ran diddordebau archeolegol a threftadaeth ddiwylliannol yn ardal yr astudiaeth. Gellir gweld ymateb GCAG yn Atodiad B ac mae wedi'i grynhoi fel a ganlyn (noder yr ymgynghorwyd â GCAG yn gynharach ar ddatblygiad posibl ar y tri safle fel rhan o broses ymgynghori gyffredinol y CDLIC), Nid yw Cadw wedi ymateb hyd yma.

Dywedodd GCAG bod nifer o safleoedd lle nad ydynt yn gwybod am unrhyw gyfyngiadau archaeolegol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, mae'r adnodd archaeolegol yn un deinamig, gyda phethau newydd yn cael eu darganfod ac adrodd amdanynt yn rheolaidd. Felly mae'n bosibl y daw gwybodaeth ychwanegol ymlaen yn ystod y broses CDLIC allai effeithio ar eu cyngor hwy.

Yn ogystal, dylid nodi bod natur y cyngor archaeolegol curadurol yn golygu bod angen cymharu'r sail bresennol o dystiolaeth yn erbyn effaith bosibl unrhyw ddatblygiad penodol. Gallai datblygiadau ar raddfa fawr (h.y. rhai o tua 3 hectar neu fwy) effeithio ar ardal fawr a hefyd ddatgelu gwybodaeth archaeolegol newydd ar draws dirweddau lle efallai mai dim ond sail gyfyngedig o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. O dan yr amgylchiadau hyn, hyd yn oed lle mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn gyfyngedig, gallai fod angen arfarniad archaeolegol er mwyn sefydlu llinell sylfaen o dystiolaeth.

Safleoedd 1 a 2

Credir mai yn yr ardal hon roedd canolfan weinyddol (maerdref) cwmwd Afloegion yn yr oesoedd canol, efallai wedi'i sefydlu gan Llewelyn ap Iorwerth yn y 13^{eg} ganrif. Mae gweddillion eglwys Beuno Sant gerllaw, o'r oesoedd canol, olion gwrthgloddiau (NPRN 43823) sydd i'w gweld mewn cae cyfagos a thystiolaeth oddi wrth enwau llefydd (Cae Llan a Hen Llys) oll yn dangos y gallai olion anheddiad o'r oesoedd canol fodoli yn rhywle yn Deneio.

Safle 3

Er nad oes unrhyw safleoedd archaeolegol wedi'u cofnodi yn yr ardal hon, oherwydd nad yw tir y llain wedi cael ei wella mae rywfaint o botensial archaeolegol ynddo.

3.5.2 Egwyddorion Datblygu Dangosol

Fel rhan o'u hymgynghori ar y CDLIU, rhoddodd GCAG yr argymhellion a ganlyn ar gyfer delio gyda'r effeithiau archeolegol posibl ar y tri safle:

Safleoedd 1 a 2

Roedd GCAG yn credu'n wreiddiol mai'r lefel o argymhelliad archaeolegol ddylai fod 'Cyfyngiad': Gallai fod angen asesiad ar sail gwaith desg cyn rhoi caniatâd cynllunio. *Dim rheswm dros beidio dyrannu yn y CDLIU.*

Fodd bynnag, gan yr ymgynghorwyd â GCAG ar gyfer yr adroddiad hwn ar ardaloedd mwy o faint na'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy arnynt yn gynharach, gallai'r argymhelliad ar gyfer Safleoedd 1 a 2 gael ei gynyddu i 'Cyfyngiad Gweddol Sylweddol' (bydd angen arfarniad archaeolegol cyn rhoi caniatâd cynllunio. *Gallai'r dyraniad gael ei gynnwys yn y CDLIC ond ei fod yn amodol ar ganlyniadau arfarniad archaeolegol*) ac mae'n debyg iawn y bydd angen gwaith arfarnu archaeolegol pellach yn yr ardal hon. Yn ychwanegol, mae'r rhan o Safle 2 sydd wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn yn cynnwys olion archaeolegol wedi'u cofnodi, sef yn benodol Eglwys Beuno Sant.

Safle 3

Credai GCAG mai'r lefel o argymhelliad archaeolegol ddylai fod 'Lleiafswm'Cyfyngiad': Gellid gosod amodau ar ganiatâd cynllunio. *Dim rheswm dros beidio dyrannu yn y CDLIU.*

3.6 Coedyddiaeth

3.6.1 Llinell Sylfaen

3.6.1.1 Y stoc bresennol o goed

Gwnaethpwyd astudiaeth desg GIS i weld a oedd unrhyw stoc o goed wedi'u cofrestru ar y Rhestr Genedlaethol o Goetir a Choed. Ni welwyd bod unrhyw stoc o goed tu mewn i unrhyw un o'r safleoedd. Mae'r stociau agosaf o goed tua 240m i'r gogledd o Safle 1 (2.3ha o goetir llydanddail) a tua 140m i'r gogledd-ddwyrain o Safle 2 (2.6ha o goetir llydanddail)

Does dim arwydd yn y CDU Gwynedd presennol (2001 – 2016) na'r CDLIC sy'n cael ei lunio nawr bod bwriad i ddefnyddio unrhyw un o'r safleoedd ar gyfer stoc coed yn y dyfodol.

3.6.1.2 Ymgynghori Statudol

Gwnaeth Uned Bioamrywiaeth Cyngor Gwynedd y sylwadau a ganlyn am warchod coed aeddfed tu mewn i Safle 1:

- Colli coed yn y dirwedd – mae Sycamorwydden (Rhif Grid 237234, 335618) sy'n werth ei gwarchod gyda Gorchymyn Cadw Coed os bydd datblygiad yn digwydd. Rhaid cyfrifo am

faint o bellter i ddiogelu gwreiddiau'r goeden hon, fel na fydd unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn ymwthio i mewn i'r fan honno.

- Mae rhes o goed Onnen aeddfed ar gwr Safle 1, ar ei ochr Orllewinol. Dylid hefyd ystyried diogelu gwreiddiau'r rhain os yw'r ardal i gael ei dynodi yn y CDLIC.

3.6.2 Egwyddorion Datblygu Dangosol

- Rhaid cyfrifo'r ardal diogelu gwreiddiau ar gyfer y Sycamorwydden (Rhif Grid 237234, 335618) yn Safle 1 fel nad yw unrhyw ddatblygiad yn ymwthio i mewn i'r fan honno.
- Dylid ystyried yr ardal diogelu gwreiddiau ar gyfer y rhes o goed Onnen aeddfed ar gyrion Safle 1 ar ei ochr Orllewinol os bydd yr ardal hon yn cael ei datblygu.
- Rhaid i bob coeden aeddfed sydd i gael ei chadw, ar bob safle, gael ei hystyried mewn perthynas â Safon Prydeinig 5837:2012 Coed mewn perthynas â dylunio, dymchwel ac adeiladu.

4.0 Casgliadau

Yn y tablau a ganlyn, mae crynodeb o'r wybodaeth ddaeth oddi wrth yr asesiad cwmpasu dechreuol ar gyfer pob pwnc yn Adran 3. Yn Nhabl 4.1 mae crynodeb o'r cyfleoedd a'r cyfyngiadau'n gysylltiedig gyda datblygu pob safle ac i'r tymor hir. Yn Nhabl 4.2 mae crynodeb o'r egwyddorion datblygu dangosol ar gyfer safleoedd 1 i 3 ar sail canfyddiadau astudiaeth desg, arolygon safle (ar gyfer cludiant, ecoleg a thirwedd) ac ymgynghoriad gydag ymgynghorwyr ac ymgymrwyr statudol.

Tabl 4.1: Cyfyngiadau a Chyfleoedd ar gyfer Datblygiad a Photensial Twf Tymor Hir, Safleoedd 1-3

Pwnc	Safle 1		Safle 2		Safle 3	
	Cyfleoedd	Cyfyngiadau	Cyfleoedd	Cyfyngiadau	Cyfleoedd	Cyfyngiadau
<i>Cludiant a Symudiad</i>	Tri phrif lwybr mynediad ar gyfer cerbydau.	<p><i>Mynediad o'r A499 tua'r gogledd:</i> Mae gan y mynediad i'r ffordd dosbarth 3 welededd wael tua'r de (tuag at Bwllheli).</p> <p>O Fryn Crin ymlaen mae geometreg y ffordd yn salach wrth iddi fynd yn droellog; mae hynny'n cael effaith sylweddol ar welededd tuag at ymlaen.</p> <p>Dim darpariaeth wedi'i neilltuo i gerddwyr.</p> <p><i>Mynediad o'r A497 ar hyd Stryd Moch ac Allt Salem:</i> Ffordd gul, trafferthion yn digwydd yn aml rhwng cerddwyr a cherbydau.</p> <p>Byddai'n rhaid i bobl gerdded ar y ffordd o gyffordd Stryd Llŷn Uchaf ymlaen.</p>	Fel ar gyfer Safle 1.	Fel ar gyfer Safle 1.	<p>Mynediad da i gerbydau o'r A499.</p> <p>Potensial i leihau tagfeydd yng nghanol tref Pwllheli, yn enwedig ar gylchfan yr A497 / A499.</p>	<p>Dim darpariaeth wedi'i neilltuo i gerddwyr.</p> <p>Ychydig tu allan i ardal y cyfyngiad cyflymder 30 m.y.a.</p>

<p>Capasiti cyfleustodau</p>	<p>Mae'r safle'n agos at gyfleustodau nwy, trydan, dŵr a thelathrebu sydd yn eu lle yn barod.</p>	<p>Amcangyfrifwyd y byddai'n costio £114,072 i gysylltu'r safle gyda'r seilwaith nwy; hwn yw'r drutaf o'r tri safle.</p> <p>Efallai byddai angen gwyro llwybr leiniau Foltedd Uchel sydd yn eu lle'n barod, i ddarparu ar gyfer y datblygiad.</p> <p>Dim seilwaith carthffosiaeth yn agos.</p>	<p>Mae'r safle'n agos at gyfleustodau nwy, trydan, dŵr a thelathrebu sydd yn eu lle yn barod.</p>	<p>Amcangyfrifwyd y byddai'n costio £37,640 i gysylltu'r safle gyda'r seilwaith nwy; hwn yw'r ail ddrutaf o'r tri safle.</p> <p>Efallai byddai angen gwyro llwybr leiniau Foltedd Uchel sydd yn eu lle'n barod, i ddarparu ar gyfer y datblygiad.</p> <p>Dim seilwaith carthffosiaeth yn agos.</p>	<p>Mae'r safle'n agos at gyfleustodau nwy, trydan, dŵr a thelathrebu sydd yn eu lle yn barod.</p>	<p>Amcangyfrifwyd y byddai'n costio £14,895 i gysylltu'r safle gyda'r seilwaith nwy; hwn yw'r lleiaf drud o'r tri safle.</p>
<p>Cymeriad y dirwedd a'r olygfa</p>	<p>Mae safle 1 yn fwy o lawer na Safleoedd 2 a 3 ac felly'n cynnig y cyfle i integreiddio gymaint o ddatblygiad arno ag ar y ddau safle arall gyda'i gilydd, mewn ffordd sensitif.</p> <p>Gallai cadw nodweddion aeddfed o'r dirwedd tu mewn i'r safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol.</p>	<p>TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli</p> <p>Mae nifer o rannau'n cael eu defnyddio'n barod fel y dyrannwyd hwy, yn cynnwys mynwent, seilwaith trydan, llwybr cyhoeddus a ffordd mynediad at nifer o eiddo. Gellid ystyried bod rhai o'r rhain yn ei wneud yn llai deniadol ar gyfer datblygiad preswyl.</p> <p>Bydd angen cadw a gwyro'r llwybr cyhoeddus.</p> <p>Mae'r rhwydwaith ffordd bresennol yn gul ac efallai bydd angen</p>	<p>Gallai cadw nodweddion aeddfed o'r dirwedd tu mewn i'r safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol.</p>	<p>TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli</p> <p>Mynediad a symudiadau traffig adeiladu ar hyd ffordd fechan: Allt Salem.</p> <p>Mae'r llwybr cyhoeddus i'r Garn yn doriad ffisegol.</p> <p>Byddai angen ymchwilio ymhellach i rai terfynau o gerrig a brics, i weld a oes cloddiau yno.</p>	<p>Gallai cadw nodweddion aeddfed o'r dirwedd tu mewn i'r safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol. (mae'r cwmpas ar gyfer hyn yn fwy cyfyngedig na gyda Safleoedd 1 a 2)</p>	<p>TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli</p> <p>Mae'r newidiadau mewn lefel, ynghyd â natur gul y safle a chyflymder traffig ar yr A499 yn gyfyngiadau i'r safle o ran mynediad a datblygiad (yn enwedig yn y gogledd).</p> <p>Mae dŵr yn codi i'r wyneb, gan ddangos y gallai fod materion gyda draeniad.</p> <p>Efallai bydd angen ymchwilio ymhellach i weld a oes cloddiau yma.</p>

		<p>lledu ffyrdd i hwyluso datblygiad a mynediad yn y dyfodol.</p> <p>Mae'r is-orsaf a'r llinellau pŵer cysylltiedig yn gwneud yr olygfa'n llai deniadol.</p> <p>Gallai fod angen ymchwilio ymhellach i faterion draeniad.</p> <p>Mynediad a thraffig adeiladu ar hyd Allt Salem.</p>				<p>Mae'r ffordd fynediad breifat i Blas Tirion yn doriad ffisegol.</p> <p>I ba raddau a pha mor ddymunol yw estyn anheddiad i dir gwledig i'r dwyrain o Bwllheli.</p> <p>Mynediad a thraffig adeiladu ar hyd ac oddi ar yr A499.</p> <p>Posibilrwydd o greu datblygiad 'rhuban' llinellol ar hyd yr A499, a'r trawsnewid eglur o drefol i wledig yn llai eglur wedyn.</p>
<i>Ecoleg</i>	<p>Cadw coed aeddfed, i leihau colli cynefin ac fel cymorth i gadw amrywiaeth ecolegol.</p> <p>Gosod blychau ystlumod ar goed sy'n agos at goed fyddai'n cael eu torri i lawr.</p> <p>Cadw'r pwll dŵr i ddarparu cynefin gwerthfawr a chadw bioamrywiaeth.</p> <p>Creu pyllau dŵr newydd fel</p>	<p>SBGLI Hen Llŷs a Gelli, Clogwyn bach a Chaeau-gwynion Isa.</p> <p>Rhywogaethau wedi'u gwarchod: ystlumod, moch daear, dyfrgwn, ymlusgiaid, adar yn nythu.</p> <p>Gwernen gyda nyth gwenyn gwyllt.</p>	<p>Cadw coed aeddfed, i leihau colli cynefin ac fel cymorth i amrywiaeth ecolegol.</p> <p>Gosod blychau ystlumod ar goed sy'n agos at goed fyddai'n cael eu torri i lawr.</p> <p>Creu pyllau dŵr newydd fel systemau draenio cynaliadwy.</p>	<p>Rhywogaethau wedi'u gwarchod: ystlumod, moch daear, dyfrgwn, ymlusgiaid, adar yn nythu.</p>	<p>Cadw coed aeddfed, i leihau colli cynefin ac fel cymorth i gadw amrywiaeth ecolegol.</p> <p>Gosod blychau ystlumod ar goed sy'n agos at goed fyddai'n cael eu torri i lawr.</p> <p>Creu pyllau dŵr newydd fel systemau draenio cynaliadwy.</p> <p>Cadw'r mannau o brysgwydd a glaswelltir bras, fel cynefin i ymlusgiaid y bydd y datblygiadau'n eu</p>	<p>SBGLI Ger Penlon Caernarfon</p> <p>SBGLI Nant Stigallt (gwelliannau cysylltiedig i'r seilwaith).</p>

	<p>systemau draenio cynaliadwy.</p> <p>Cadw'r hen fynwent a'r manau o brysgwydd a glaswelltir bras, fel cynefin i ymlusgiaid y bydd y datblygiadau'n eu gyrru allan o'r safleoedd.</p> <p>Creu hibernacula i ymlusgiaid, o ddefnyddiau wedi'u cynhyrchu gan y datblygiadau (fel coed wedi'u torri i lawr).</p> <p>Gosod blwch nythu i dylluanod gwyn i'r gogledd o Safle 1, allai annog yr aderyn Atodlen 1 hwn i nythu yn yr ardal a chynorthwyo i wneud iawn am y posibilrwydd o golli cynefin nythu oherwydd datblygu Safleoedd 1 a 2.</p>		<p>Cadw'r manau o brysgwydd a glaswelltir bras, fel cynefin i ymlusgiaid y bydd y datblygiadau'n eu gyrru allan o'r safleoedd.</p> <p>Creu hibernacula i ymlusgiaid, o ddefnyddiau wedi'u cynhyrchu gan y datblygiadau (fel coed wedi'u torri i lawr).</p> <p>Gosod blwch nythu i dylluanod gwyn i'r gorllewin o Safle 2, allai annog yr aderyn Atodlen 1 hwn i nythu yn yr ardal a chynorthwyo i wneud iawn am y posibilrwydd o golli cynefin nythu oherwydd datblygu Safleoedd 1 a 2.</p>		<p>gyrru allan o'r safleoedd.</p> <p>Creu hibernacula i ymlusgiaid, o ddefnyddiau wedi'u cynhyrchu gan y datblygiadau (fel coed wedi'u torri i lawr).</p>	
<p><i>Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol</i></p>	<p>Posibilrwydd o ymgorffori nodweddion hanesyddol lleol o'r dirwedd, e.e. cloddiau, yn y datblygiad.</p>	<p>TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli</p> <p>Efallai'n lleoliad canolfan weinyddol cwmwd Afloegion yn yr oesoedd canol. Mae'n</p>	<p>Posibilrwydd o ymgorffori nodweddion hanesyddol lleol o'r dirwedd, e.e. cloddiau, yn y datblygiad.</p>	<p>TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli</p> <p>Efallai'n lleoliad canolfan weinyddol cwmwd Afloegion yn yr oesoedd canol. Mae'n debygol</p>	<p>Posibilrwydd o ymgorffori nodweddion hanesyddol lleol o'r dirwedd, e.e. cloddiau, yn y datblygiad.</p>	<p>TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli</p> <p>Gellid gosod amodau gyda'r caniatâd cynllunio.</p>

	Posibilrwydd o gloddio olion o'r oesoedd canol yn ystod datblygu'r safle.	debygol bod gweddillion anheddiad o'r oesoedd canol rywle yn Deneio. Mae angen arfarniad archeolegol cyn rhoi caniatâd cynllunio.	Posibilrwydd o gloddio olion o'r oesoedd canol yn ystod datblygu'r safle.	bod gweddillion anheddiad o'r oesoedd canol rywle yn Deneio. Mae angen arfarniad archeolegol cyn rhoi caniatâd cynllunio.		Gan nad yw'r llain wedi cael ei wella, gallai fod rywfaint o botensial archeolegol ynddo.
<i>Coedyddiaeth</i>	Byddai modd cadw coed aeddfed tu mewn i'r safle, i roi amrywiaeth i'r olygfa tu mewn i'r datblygiad ac fel cynefin i rywogaethau eraill.	Sycamorwydden yn Rhif Grid 237234, 335618 Rhes o goed Onnen aeddfed ar hyd y terfyn Gorllewinol.	Byddai modd cadw coed aeddfed tu mewn i'r safle, i roi amrywiaeth i'r olygfa tu mewn i'r datblygiad ac fel cynefin i rywogaethau eraill.			
<i>Amrywiol</i>		Pe byddai'r fynwent i gael ei datblygu, byddai CNC angen i'r safle gael ei ymchwilio ac asesu'r risg – mae CNC yn debygol o wrthwyneb cynnwys Safle 1 os na fydd y wybodaeth hon ar gael erbyn adeg adnau. Byddai CNC angen gwybodaeth am y nodweddion dŵr lleol ac arfarniad o'r effaith hydroddaearegol i gefnogi ailagor neu estyn y chwareli.				

Tabl 4.2: Egwyddorion Datblygu Dangosol ar gyfer Safleoedd 1 – 3

Pwnc	Safle 1	Safle 2	Safle 3
Cludiant a Symudiad	<p>Gwella'r ffordd Dosbarth 3 o gyffordd yr A499 gyda Bryn Tirion / locws i Safle 1; yn cynnwys gwella'r gyffordd gyda'r A499 a lledu'r ffordd Dosbarth 3 hyd at o leiaf 5.5m.</p> <p>Creu ffordd fynediad newydd o'r A499 (i'r gogledd o Bwllheli) sy'n gorffen wrth ymyl Coleg Meirion Dwyfor</p> <p>Creu cyswllt bws i'r coleg.</p> <p>Lledu'r gerbydlon ar Allt Salem trwy ddefnyddio'r tir sydd ar gael ar yr ochr orllewinol a chreu cysylltiad troedffordd ar yr ochr dde. Byddai man cychwyn y droedffordd hon yn cysylltu gyda Throed yr Allt a'r droedffordd fynediad i'r coleg.</p> <p>Gwelliannau i'r gyffordd ar gyfer mynediad o Lannor</p>	Fel ar gyfer Safle 1.	<p>Estyn y ddarpariaeth troedffordd a'r cyfyngiad 30 m.y.a. presennol o'r A499 tua'r de.</p> <p>Estyn y droedffordd a chreu cyfyngiad 40 m.y.a. o'r A499 tua'r gogledd.</p> <p>Lledu a gwella aliniadau fertigol a llorweddol Lôn Nant Stigallt.</p>
Capasiti cyfleustodau	<p>Cadarnhau'r defnydd o'r safle a'r amcangyfrif o'r galw am gyfleustodau.</p> <p>Ymchwilio i'r costau ar gyfer cysylltu gyda chyfleustodau perthnasol i ddarparu'r gwasanaethau y bydd eu hangen.</p>	Fel ar gyfer Safle 2.	Fel ar gyfer Safle 3.
Cymeriad y dirwedd a'r olygfa	<p>Rhaid i ddatblygiad ystyried effeithiau niweidiol ar TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli.</p> <p>Dylai cynigion ar gyfer datblygiad tu mewn i ACT 8 ystyried y patrwm anheddiad presennol, gan ddefnyddio patrymau</p>	<p>Rhaid i ddatblygiad ystyried effeithiau niweidiol ar TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli. (sylw oddi wrth CNC)</p> <p>Dylai cynigion ar gyfer datblygiad tu mewn i ACT 8 ystyried y patrwm anheddiad</p>	<p>Rhaid i ddatblygiad ystyried effeithiau niweidiol ar TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli. (sylw oddi wrth CNC)</p> <p>Dylai cynigion ar gyfer datblygiad tu mewn i ACT 8 ystyried y patrwm anheddiad</p>

<p>tirffurfiau a llystyfiant i liniaru effeithiau ac i adlewyrchu patrymau lleol.</p> <p>Dylai cynigion ar gyfer datblygu o gwmpas cyrion anheddiad yn ACT 10 adlewyrchu cymeriad yr anheddiad sy'n bodoli'n barod, gan ddefnyddio patrymau tirffurfiau a llystyfiant i liniaru effeithiau ac i adlewyrchu patrymau lleol. Dylai datblygiadau gydweddu gyda beth sy'n arferol yn yr ardal. Dylid ystyried effeithiau ar y dirwedd ehangach.</p> <p>Ystyried y lefel uchel o effeithiau y gallai datblygiad ei gael ar dderbynwyr sensitif yr olygfa fel eiddo preswyl tu mewn i derfynau'r safle ac o'i gwmpas, a defnyddwyr y weledfan ar y Garn.</p> <p>Cadw darnau o dir agored tu mewn i'r safle.</p> <p>Gallai cadw rhai nodweddion aeddfed o'r dirwedd o gwmpas y safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol.</p> <p>Cadw / ymgorffori llefydd gwyrdd a sgrinio fel rhan o'r datblygiad er mwyn lleihau'r effaith anffafriol.</p> <p>Dylai cadw llystyfiant sy'n bodoli'n barod ar y safle, a llefydd agored a phlannu newydd, fod yn rhan o strategaeth Seilwaith / Tirwedd Gwyrdd ar gyfer datblygu'r safle.</p> <p>Darparu plannu newydd i sgrinio datblygiad oddi wrth dderbynwyr gweledol sensitif lle bo'n briodol.</p>	<p>presennol, gan ddefnyddio patrymau tirffurfiau a llystyfiant i liniaru effeithiau ac i adlewyrchu patrymau lleol.</p> <p>Ystyried y lefel uchel o effeithiau y gallai datblygiad ei gael ar dderbynwyr sensitif yr olygfa fel eiddo preswyl, a defnyddwyr y llwybr cyhoeddus a'r weledfan ar y Garn.</p> <p>Cadw darnau o dir agored tu mewn i'r safle.</p> <p>Gallai cadw rhai nodweddion aeddfed o'r dirwedd o gwmpas y safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol.</p> <p>Cadw / ymgorffori llefydd gwyrdd a sgrinio fel rhan o'r datblygiad er mwyn lleihau'r effaith anffafriol.</p> <p>Dylai cadw llystyfiant sy'n bodoli'n barod ar y safle, a llefydd agored a phlannu newydd, fod yn rhan o strategaeth Seilwaith / Tirwedd Gwyrdd ar gyfer datblygu'r safle.</p> <p>Darparu plannu newydd i sgrinio datblygiad oddi wrth dderbynwyr gweledol sensitif lle bo'n briodol.</p> <p>Bydd sgrinio mewnlol a chadw terfynau caeau lle bo modd yn lliniaru effeithiau gweledol oddi wrth eiddo preswyl, ond ychydig o effaith gaiff hynny ar olygfeydd o'r Garn oherwydd bod y weledfan yn uchel.</p> <p>Cyfyngu ar uchder adeiladau ym mhen deheuol y safle fel nad yw adeiladau'n codi uwchben ymyl y gefnen ychydig i'r gogledd</p>	<p>presennol, gan ddefnyddio patrymau tirffurfiau a llystyfiant i liniaru effeithiau ac i adlewyrchu patrymau lleol.</p> <p>Cadw darnau o dir agored tu mewn i'r safle.</p> <p>Gallai cadw rhai nodweddion aeddfed o'r dirwedd o gwmpas y safle gynnig cyfleoedd i osod, fframio a threfnu datblygiad o adeiladau newydd mewn ffordd gydymdeimladol (mae'r cyfle i wneud hyn yma'n fyw cyfyng nag ar Safleoedd 1 a 2).</p> <p>Dylai cadw llystyfiant sy'n bodoli'n barod ar y safle, a llefydd agored a phlannu newydd, fod yn rhan o strategaeth Seilwaith / Tirwedd Gwyrdd ar gyfer datblygu'r safle.</p> <p>Darparu plannu newydd (yn enwedig ar hyd terfyn yr A499) i sgrinio datblygiad oddi wrth y coridor ffordd.</p> <p>Bydd sgrinio mewnlol a chadw terfynau caeau lle bo modd yn lliniaru effeithiau gweledol oddi wrth fannau ar hyd coridor ffordd yr A499.</p> <p>Cadw / ymgorffori llefydd gwyrdd a sgrinio fel rhan o'r datblygiad (yn enwedig fel 'parth rhagod' gwyrdd ar hyd terfyn yr A499) er mwyn lleihau'r effaith anffafriol.</p> <p>Ymchwilio i nodweddion treftadaeth posibl e.e. cloddiau ac ystyried oes modd ymgorffori'r rhain yn y datblygiad.</p> <p>Datblygu cynigion gan gyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol: Cymeriad y Tirwedd (Tachwedd 2009) a'r materion dylunio allweddol ynddynt.</p>
--	--	---

	<p>Bydd sgrinio mewnol a chadw terfynau caeau lle bo modd yn lliniaru effeithiau gweledol oddi wrth eiddo preswyl, ond ychydig o effaith gaiff hynny ar olygfeydd o'r Garn oherwydd bod y weledfan yn uchel.</p> <p>Cyfyngu ar uchder adeiladau ym mhen deheuol y safle fel nad yw adeiladau'n codi uwchben ymyl y gefnen ychydig i'r gogledd o Bwllheli a dod yn weladwy mewn golygfeydd o'r de.</p> <p>Datblygu cynigion gan gyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol: Cymeriad y Tirwedd (Tachwedd 2009) a'r materion dylunio allweddol ynddynt.</p>	<p>o Bwllheli a dod yn weladwy mewn golygfeydd o'r de.</p> <p>Datblygu cynigion gan gyfeirio at Ganllawiau Cynllunio Atodol: Cymeriad y Tirwedd (Tachwedd 2009) a'r materion dylunio allweddol ynddynt.</p>	
Ecoleg	<p>Dylai datblygiad osgoi niweidio SBGLI Hen Llys a Gelli, Clogwyn Bach a Chaeau-gwynion Isa (CDU, Polisi B17).</p> <p>Dylai datblygiad osgoi ymwithio i mewn i SBGLI y Garn, sydd tua 170m i'r de-orllewin (CDU, Polisi B17)</p> <p>Ystyried y gallai tylluanod gwynion fod yn bresennol a chwblhau arolygon i ganfod a ydynt yno; yn enwedig safleoedd nythu.</p> <p>Dylid osgoi'r goeden Wern (Rhif Grid 237380, 335875) ger yr hen fynwent, sydd â nyth gwenyn gwyllt ynddi, a'i gwarchod yn ystod datblygu'r safle.</p> <p>Dylid cadw'r pwll dŵr yn Rhif Grid 237397, 335872 fel nodwedd o'r cynefin, a'i warchod yn ystod datblygu.</p> <p>Dylid gwneud asesiad ystlumod</p>	<p>Dylai datblygiad osgoi ymwithio i mewn i SBGLI y Garn, sydd tua 50m i'r de-orllewin (CDU, Polisi B17)</p> <p>Dylid gwneud asesiad ystlumod rhagarweiniol yn ystod gaeaf 2013-2014, ar yr holl goed y gallai'r cynigion effeithio arnynt, er mwyn pennu strategaeth a chynllun priodol ar gyfer nodi symudiadau ystlumod yn ystod tymor arolygu 2014.</p> <p>Dylid gweud arolwg moch daear i weld a fyddai angen trwydded i gael tarfu ar foch daear.</p> <p>Mae angen arolygon ymlusgiaid i weld pa rywogaethau sy'n bresennol, a llunio strategaeth liniaru addas.</p> <p>Dylid rhaglennu unrhyw waith a wneir i glirio llystyfiant a pharatoi'r safle, er mwyn</p>	<p>Dylai datblygiad osgoi niweidio SBGLI Ger Penlon Caernarfon (CDU, Polisi B17))</p> <p>Dylai datblygiad osgoi ymwithio i mewn i SBGLI y Garn, sydd tua 170m i'r de-orllewin (CDU, Polisi B17)</p> <p>Dylai datblygiadau'n gysylltiedig gyda gwelliannau seilwaith ger safle 3 osgoi niweidio SBGLI Nant Stigallt (CDU, Polisi B17)</p> <p>Dylid gwneud asesiad ystlumod rhagarweiniol yn ystod gaeaf 2013-2014, ar yr holl goed y gallai'r cynigion effeithio arnynt, er mwyn pennu strategaeth a chynllun priodol ar gyfer nodi symudiadau ystlumod yn ystod tymor arolygu 2014.</p> <p>Dylid gweud arolwg moch daear i weld a fyddai angen trwydded i gael tarfu ar foch daear.</p>

	<p>rhagarweiniol yn ystod gaeaf 2013-2014, ar yr holl goed y gallai'r cynigion effeithio arnynt, er mwyn pennu strategaeth a chynllun priodol ar gyfer nodi symudiadau ystumod yn ystod tymor arolygu 2014.</p> <p>Dylid gwneud arolwg moch daear i weld a fyddai angen trwydded i gael tarfu ar foch daear.</p> <p>Mae angen arolygon ymlusgiaid i weld pa rywogaethau sy'n bresennol, a llunio strategaeth liniaru addas.</p> <p>Dylid rhaglennu unrhyw waith a wneir i glirio llystyfiant a pharatoi'r safle, er mwyn osgoi tymor nythu adar (yn gyffredinol o fis Mawrth hyd fis Medi).</p> <p>Dylid asesu'r datblygiad tu mewn i 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' y CDLIC er mwyn sicrhau na fyddai dyrannu'r safle'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Safleoedd Ewropeaidd a Warchodir.</p> <p>Mae angen i unrhyw gynllunio ar gyfer defnydd tir a newid arfaethedig mewn defnydd tir ystyried ac archwilio darpariaethau perthnasol y Gyfarwydddeb Adar; yn enwedig cynnal, rheoli a chreu cynefinoedd i adar gwyllt.</p> <p>Dylai datblygiad y safle ystyried a yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd nad ydynt wedi cael eu harfarnu'n barod trwy Asesiad Amgylcheddol Strategol y CDLIC. Os credir y byddant yn arwain at y fath newidiadau, dylid gwneud yr arfarniad perthnasol er mwyn ateb gofynion Prawf Cadernid perthnasol.</p>	<p>osgoi tymor nythu adar (yn gyffredinol o fis Mawrth hyd fis Medi).</p> <p>Dylid asesu'r datblygiad tu mewn i 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' y CDLIC er mwyn sicrhau na fyddai dyrannu'r safle'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Safleoedd Ewropeaidd a Warchodir.</p> <p>Mae angen i unrhyw gynllunio ar gyfer defnydd tir a newid arfaethedig mewn defnydd tir ystyried ac archwilio darpariaethau perthnasol y Gyfarwydddeb Adar; yn enwedig cynnal, rheoli a chreu cynefinoedd i adar gwyllt.</p> <p>Dylai datblygiad y safle ystyried a yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd nad ydynt wedi cael eu harfarnu'n barod trwy Asesiad Amgylcheddol Strategol y CDLIC. Os credir y byddant yn arwain at y fath newidiadau, dylid gwneud yr arfarniad perthnasol er mwyn ateb gofynion Prawf Cadernid perthnasol.</p> <p>Lle mae Rhywogaeth a Warchodir yn Ewropeaidd yn bresennol, gall datblygiad symud ymlaen ddim ond ar yr amod yr atebir darpariaethau llacio rheolau Erthygl 16 y Gyfarwydddeb Cynefinoedd.</p> <p>Rhaid i ddatblygiad y safle ystyried y rhywogaethau a chynefinoedd yn adran 40 Deddf NERC (2006).</p>	<p>Mae angen arolygon ymlusgiaid i weld pa rywogaethau sy'n bresennol, a llunio strategaeth liniaru addas.</p> <p>Dylid rhaglennu unrhyw waith a wneir i glirio llystyfiant a pharatoi'r safle, er mwyn osgoi tymor nythu adar (yn gyffredinol o fis Mawrth hyd fis Medi).</p> <p>Dylid asesu'r datblygiad tu mewn i 'Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd' y CDLIC er mwyn sicrhau na fyddai dyrannu'r safle'n cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd Safleoedd a Warchodir yn Rhyngwladol ac Ewropeaidd.</p> <p>Mae angen i unrhyw gynllunio ar gyfer defnydd tir a newid arfaethedig mewn defnydd tir ystyried ac archwilio darpariaethau perthnasol y Gyfarwydddeb Adar; yn enwedig cynnal, rheoli a chreu cynefinoedd i adar gwyllt.</p> <p>Dylai datblygiad y safle ystyried a yw'n debygol y bydd unrhyw effeithiau sylweddol ar yr amgylchedd nad ydynt wedi cael eu harfarnu'n ddigonol trwy Asesiad Amgylcheddol Strategol y CDLIC. Os credir y byddant yn arwain at y fath newidiadau, dylid gwneud yr arfarniad perthnasol er mwyn ateb gofynion y Prawf Cadernid perthnasol.</p> <p>Lle mae Rhywogaeth a Warchodir yn Ewropeaidd yn bresennol, gall datblygiad symud ymlaen ddim ond ar yr amod yr atebir darpariaethau llacio rheolau Erthygl 16 y Gyfarwydddeb Cynefinoedd.</p> <p>Rhaid i ddatblygiad y safle ystyried y rhywogaethau a chynefinoedd yn adran 40 Deddf NERC (2006).</p>
--	---	---	---

	<p>Lle mae Rhywogaeth a Warchodir yn Ewropeaidd yn bresennol, gall datblygiad symud ymlaen ddim ond ar yr amod yr atebir darpariaethau llacio rheolau Erthygl 16 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.</p> <p>Rhaid i ddatblygiad y safle ystyried y rhywogaethau a chynefinoedd yn adran 40 Deddf NERC (2006).</p>		
Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol	Rhaid i ddatblygiad beidio achosi unrhyw niwed sylweddol i TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli (CDU, Polisi B12)	Rhaid i ddatblygiad beidio achosi unrhyw niwed sylweddol i TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli (CDU, Polisi B12)	Rhaid i ddatblygiad beidio achosi unrhyw niwed sylweddol i TDdHE Llŷn ac Ynys Enlli (CDU, Polisi B12)
Coedyddiaeth	<p>Mae Sycamorwydden (Rhif Grid 237234, 335618), sy'n werth ei gwarchod gyda Gorchymyn Cadw Coed, o dan fygythiad o niwed i'w gwreiddiau os bydd datblygiad yn digwydd. Rhaid cyfrifo'r ardal diogelu gwreiddiau fel na fydd unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn ymwthio i mewn i hynny.</p> <p>Rhes o goed onnen aeddfed ar hyd yr ochr Orllewinol. Dylid cymryd yr ardal diogelu gwreiddiau i ystyriaeth os yw'r ardal hon i gael ei dynodi yn y CDLIC.</p> <p>Rhaid i bob coeden aeddfed sydd i'w chadw gael ei hystyried mewn perthynas â BS5837:2012.</p>	Rhaid i bob coeden aeddfed sydd i'w chadw gael ei hystyried mewn perthynas â BS5837:2012.	Rhaid i bob coeden aeddfed sydd i'w chadw gael ei hystyried mewn perthynas â BS5837:2012.

Atodiad A: Cynlluniau a Ffigyrau

A.1: Cynlluniau Arfarniad Trafnidiaeth

A.2: Cynlluniau Cyfleustodau

A.3: Cynlluniau Arfarniad Tirwedd

A.4: Cynllun Arfarniad Ecolegol

Atodiad A.1: Cynlluniau Arfarniad Trafnidiaeth

Atodiad A.2: Cynlluniau Cyfleustodau


Atodiad A.3: Cynlluniau Arfarniad Tirwedd

Atodiad A.4:


Cynlluniau Arolwg Cynefin Estynedig Rhan 1 a Nodiadau Targed

Nodiadau Targed


1. Coed llydanddail aeddfed gyda phosibilrwydd isel i uchel o fannau clwydo ystlumod
2. Symudiadau moch daear, yn cynnwys tir wedi'i grafu wrth fwydo a bylchau mewn terfynau gyda blew hir allanol moch daear yno
3. Cynefin Posibl i ymlusgiaid
4. Pwll dŵr gyda photensial fel lle magu i amffibiaid
5. Nyth gwenyn gwyllt mewn gwernen aeddfed.



6.



**Pwllheli JLDP - Extended Phase 1 Habitat Survey
 Area 3 22 October 2013**



- Key**
- Survey Area boundary
 - Wall
 - Watercourse
 - ▨ Scrub
 - ▨ Bracken
 - Broadleaved Tree
 - Species Poor Hedgerow
 - ▨ Marshy Grassland
 - | Improved Grassland
 - SI Semi-Improved Grassland
 - ① Target Note

Atodiad B: Ymatebion i Ymgynghori

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd

Chris,

Ynglwm gyda hwn mae golwg ar yr ardaloedd o gwmpas Pwllheli yr ymgynghorwyd arnynt gyda ni - gobeithio bydd hyn yn ddefnyddiol. Rwyf hefyd wedi cynnwys tabl i egluro'r termau ddefnyddiwyd wrth ymateb i ddyraniadau CDLIC (h.y. Cyfyngiad ayyb.).

Mae fy sylwadau ar y tair ardal rydych wedi ymgynghori gyda mi arnynt fel a ganlyn:

1 a 2

Cyfyngiad

Credir mai yn yr ardal hon roedd canolfan weinyddol (maerdref) cwmwd Afloegion yn yr oesoedd canol, efallai wedi'i sefydlu gan Llewelyn ap Iorwerth yn y 13^{eg} ganrif. Mae gweddillion eglwys Beuno Sant gerllaw, o'r oesoedd canol, olion gwrthgloddiau (NPRN 43823) sydd i'w gweld mewn cae cyfagos a thystiolaeth oddi wrth enwau llefydd (Cae Llan a Hen Lllys) oll yn dangos y gallai olion anheddiad o'r oesoedd canol fodoli yn rhywle yn Deneio.

3

Lleiafswm cyfyngiad

Er nad oes unrhyw safleoedd wedi'u cofnodi yn yr ardal hon, gan nad yw tir y llain wedi cael ei wella mae rywfaint o botensial archeolegol yn yr ardal hon.

Fodd bynnag, rwyf wedi cynnwys llythyr i egluro yn fy ngohebiaeth gyda'r UPCC, sy'n egluro ymhellach beth yw'r broses benderfynu archeolegol.

Mae nifer o safleoedd lle nad oes unrhyw gyfyngiadau archeolegol yn hysbys ar hyn o bryd. Fodd bynnag mae'r adnodd archeolegol yn un deinamig, gyda phethau newydd yn cael eu darganfod ac adrodd amdanynt yn rheolaidd (gyda dros 2000 o gofnodion newydd yn cael eu hychwanegu at y Cofnod Amgylchedd Hanesyddol rhanbarthol bob blwyddyn). Felly mae'n bosibl y daw gwybodaeth ychwanegol ymlaen yn ystod y broses CDLIC allai effeithio ar eu cyngor hwy.

Dylid nodi bod natur y cyngor archeolegol curadurol yn golygu bod angen cymharu'r sail bresennol o dystiolaeth yn erbyn effaith bosibl unrhyw ddatblygiad penodol. Gallai datblygiadau ar raddfa fawr (h.y. rhai o tua 3 hectar neu fwy) effeithio ar ardal fawr a hefyd ddatgelu gwybodaeth archeolegol newydd ar draws dirweddau lle efallai mai dim ond sail gyfyngedig o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. O dan yr amgylchiadau hyn, hyd yn oed lle mae'r dystiolaeth sydd ar gael yn gyfyngedig, gallai fod angen arfarniad archaeolegol er mwyn sefydlu llinell sylfaen o dystiolaeth.

Gan fod yr ardaloedd a ddangosir yn eich papur ymgynghori'n ymddangos yn fwy o faint na'r rhai yr ymgynghorwyd arnynt gyda mi, rwyf yn cynghori y gallai'r argymhelliad ar gyfer cyfyngiad Safleoedd 1 a 2 gael ei gynyddu i Gyfyngiad Gweddol Sylweddol gan ei bod yn debygol iawn y bydd angen arfarnu archaeolegol pellach yn yr ardal hon. Yn ychwanegol, mae'r rhan 2 fel mae wedi'i ddangos ar eich cynllun yn cynnwys olion archaeolegol wedi'u cofnodi, sef yn benodol Eglwys Beuno Sant.

Gallaf roi sylwadau manylach os bydd angen ac rwyf yn hapus i'ch cynghori ymhellach os dymunwch gysylltu â mi.

Cofion gorau,

Ashley

Ashley Batten

Uwch Archeolegydd Cynllunio - Senior Planning Archaeologist

Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd - Gwynedd Archaeological Planning Service

Craig Beuno

Ffordd Garth

Bangor

LL57 2RT

Ffôn. 01248 370926

Symudol. 07920264232

Ffacs. 01248 370925

Mae Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd yn wasanaeth cynllunio ymreolaethol gan Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd <http://www.heneb.co.uk/GCAG.html>

Ymatebion Gwasanaeth Cynllunio Archeolegol Gwynedd i Safleoedd Posib y CDLIC

Cyfyngiad Archeolegol

Argymhelliad Archaeolegol

Ddim yn hysbys

Dim rheswm dros beidio dyrannu yn y CDLIC

Lleiafswm Cyfyngiad

Gellir rhoi amodau ar ganiatâd cynllunio. Dim rheswm dros beidio dyrannu yn y CDLIC

Cyfyngiad

Gallai fod angen asesiad ar sail gwaith desg cyn rhoi caniatâd cynllunio. Dim rheswm dros beidio dyrannu yn y CDLIC

Cyfyngiad Gweddol Sylweddol

Bydd angen arfarniad archaeolegol cyn rhoi caniatâd cynllunio. Byddai modd dyrannu yn y CDLIC, ond yn amodol ar ganlyniadau arfarniad archaeolegol.

Cyfyngiad Sylweddol

Bydd angen gwaith archaeolegol helaeth cyn penderfynu'n gadarnhaol ar unrhyw gais cynllunio. Pe byddai bwriad i gynnwys y safle hwn yn y CDLIC, byddai angen arfarniad archeolegol cyn ei gynnwys.

Cyfyngiad Mawr

Dylid peidio dyrannu'r ardal hon yn y CDLIC

Cyngor Gwynedd: Uned Bioamrywiaeth

Oddi wrth: Jones Rhys (Rh-CTGC)

Gyrrwyd: 04 Tachwedd 2013 15:33

At: Jones Chris (YMG)

Pwnc: Safleoedd datblygu posibl y CDLIC ym Mhwllheli: ymgynghori

Hi Chris

Roedd cyfle i mi ymweld â'r safle heddiw. Un peth wnaeth fy nharo ydi maint y fynwent - mae'n cymryd llawer o'r rhan 2 sydd wedi'i farcio ar y map. Mae'n siŵr dy fod wedi sylwi! Dim llawer i'w ychwanegu at fy sylwadau gwreiddiol ar yr ystlumod, gwrychoedd a thir pori heb ei wella. Rhaid i mi gyfaddef bod pob un o'r caeau gwnes i edrych arnyn nhw'n edrych fel porfa wedi'i gwella, ond wnes i ddim mynd i mewn i'r caeau i gael golwg iawn. Roedd y caeau yn rhan 3 yn ymddangos i fod yn parhau'n weddol wlyb efo dau wrych trwchus prysgwyddog yn ei groesi. Mae hefyd rywfaint o brysgwydd da ar gyrion y caeau ar yr ochr ogleddol. Allai ddim bod yn sicr ydi'r ardal honno tu mewn i'r rhan wedi'i gynnig ar gyfer datblygu.

Mae'r sycamorwydden fawr roeddwn yn sôn amdani yn 237234,335618

Rwyf yn awgrymu y dylid cyfrifo'r ardal diogelu gwreiddiau ar gyfer y goeden hon ac nad yw unrhyw ddatblygiad yn y dyfodol yn ymwthio i mewn i'r fan honno. Dylai hynny osgoi trafferthion yn y dyfodol os bydd nifer y tai sydd wedi'i ddynodi'n cyfateb efo union faint o dir sydd ar gael.

Mae rhes o goed onnen aeddfed deniadol ar gwr ardal 1 ar ei ochr Orllewinol. Rwyf yn awgrymu bod ardaloedd diogelu gwreiddiau hefyd yn cael eu hystyried pe byddai'r ardal hon hefyd yn cael ei dynodi.

Gadewch i mi wybod os bydd unrhyw gwestiynau neu angen unrhyw eglurhad.

Hwyl

Rhys

Rhys Jones

Uwch Swyddog Bioamrywiaeth – Senior Biodiversity Officer

Uned Bioamrywiaeth - Biodiversity Unit

Cyngor Gwynedd

Caernarfon

Oddi wrth: Jones Rhys (Rh-CTGC)
Gyrrwyd: 30 Hydref 2013 10.22
At: Jones Chris (YMG)
Pwnc: Safleoedd datblygu posibl y CDLIC ym Mhwllheli: ymgynghori

Follow Up Flag: Follow up
Flag Status: Red

Attachments: image001.gif

Helo Chris

Ymddiheuriadau am fod yn hwyr fel hyn yn ymateb i'r ymholiad.

Mae'n ymddangos bod y rhan fwyaf o'r ardal yn gaeau bychan o laswelltir wedi'i wella neu ei wella'n rhannol, ac o amgylch mae gwrychoedd a choed, rhai'n aeddfed.

Mae dau safle bywyd gwyllt tu mewn i derfynau'r ardaloedd sydd wedi'u dangos:

Henllys yn rhan 2 a Ger Penlon yn rhan 3, y ddau wedi'u rhestru fel glaswelltir niwtral wedi'i wella'n rhannol. Fel y soniais, gallai fod caeau eraill sydd wedi'u gwella'n rhannol oherwydd nad oes ffermio dwys wedi digwydd yno yn y blynyddoedd diwethaf.

Dyma fyddai'n pryderon ni

Colli glaswelltir niwtral wedi'i wella'n rhannol

Posibilrwydd o golli cynefin fwydo i ystumod – mae'r rhwydwaith o wrychoedd efo coed yn ymddangos yn ddelfrydol. Byddai goleuo hefyd yn cael effaith sylweddol ar ystumod mewn beth sydd ar hyn o bryd yn dirwedd wledig, wedi'i goleuo'n wael yn y nos.

Colli coed yn y dirwedd – mae un goeden benodol, sycamorwydden, sy'n haeddu cael ei diogelu gan Orchymyn Cadw Coed ac y gallai fod bygythiad o ddifrod i'w gwreiddiau os bydd datblygiad yn digwydd.

Does dim amser wedi bod hyd yma i mi gael ymweld â'r safle ond byddaf yn gwneud hynny y tro nesaf byddaf ym Mhwllheli, felly efallai'n dod yn ôl eto efo sylwadau pellach - os na fydd hynny'n rhy hwyr.

Croeso i chi gysylltu os bydd unrhyw gwestiynau. Diolch Rhys

Rhys Jones

Uwch Swyddog Bioamrywiaeth – Senior Biodiversity Officer

Uned Bioamrywiaeth - Biodiversity Unit

Cyngor Gwynedd

Caernarfon

LL55 1SH

(01286) 679782 est. 2782

Cyfoeth Naturiol Cymru
Mr Chris Jones
Uwch Swyddog Amgylchedd
Ymgynghoriaeth Gwynedd Consultancy
Stryd y Jêl
Caernarfon
LL55 1SH
Annwyl Mr Jones

SAFLEOEDD DATBLYGU POSIBL CDLLC: YMGYNGHORI 3 SAFLE YM MHWLLHELI

Diolch i chi am yr ymgynghoriad gyda Chyfoeth Naturiol Cymru am yr uchod, a gyrhaeddodd ar 10 Hydref 2013.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cyfuno gwaith Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Ein pwrpas yw sicrhau y bydd adnoddau naturiol Cymru yn cael eu cynnal, eu gwella a'u defnyddio yn gynaliadwy nawr ac yn y dyfodol.

Nodwch os gwelwch yn dda bod ein sylwadau'n cael eu gwneud heb ragfarnu unrhyw sylwadau y byddwn yn dymuno eu gwneud pan ymgynghorir â ni mewn unrhyw ymgynghoriadau strategaeth neu ar geisiadau cynllunio. Pan fydd unrhyw ymgynghori arall yn digwydd, gallai fod gwybodaeth newydd ar gael y byddwn angen ei hystyried cyn ymateb yn ffurfiol. Mae ein sylwadau ar y tair ardal sydd efallai i'w cynnwys yn y CDLIC fel a ganlyn:

Halogi Tir a Dŵr Daear

Mae cymysgedd o ddyfrhaenau o fathau Eilaidd A ac Eilaidd B o dan y tair ardal. Does dim parthau ffynhonnell wedi'u gwarchod yn ardal Pwllheli.

Mae'r tri safle'n ymddangos i fod yn safleoedd maes glas heb unrhyw ddatblygiad cynharach allai fod wedi halogi'r pridd a'r dŵr daear. Rydym yn cymryd y bydd y fynwent yn parhau i fod yn fynwent ac nad oes unrhyw ailddatblygiad wedi'i fwriadu yno. Fodd bynnag, pe byddai'r fynwent i gael ei datblygu, byddem angen i'r safle gael ei ymchwilio ac asesu'r risg – rydym yn debygol o wrthwyneb cynnwys Ardal 1 os na fydd y wybodaeth hon ar gael erbyn adeg adnau.

O ran y chwarel, byddwn angen gwybodaeth am y nodweddion dŵr lleol ac arfarniad o'r effaith hydrodaearegol i gefnogi ailagor neu estyn y chwareli.

Cefndir deddfwriaethol – Safleoedd wedi'u Gwarchod a Rhywogaethau wedi'u Gwarchod

O dan Reoliadau 9(1) a 9(5) Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (gyda newidiadau) mae angen i gyrff cyhoeddus, wrth weithredu eu swyddogaethau, ystyried a sicrhau cydymffurfiaeth gyda darpariaethau Cyfarwyddeb 'Cynefinoedd' 1992 (92/43/EEC) a Chyfarwyddeb 'Adar' (2009/147/EC) i'r graddau y gallai'r swyddogaethau hynny effeithio arnynt. Bydd angen asesu'r dyraniadau posibl hyn yng nghyswllt rhan 'Asesiad Rheoli Cynefinoedd' y Cynllun Datblygu Lleol er mwyn i'r Awdurdod fodloni eu hunain na fyddai dyrannu'r safle(oedd) yn cael effaith niweidiol ar gyfanwydd Safleoedd wedi'u Gwarchod yn Rhyngwladol ac yn Ewropeaidd.

Rydym yn eich atgoffa chi, fel awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliadau 2010, bod rhaid i'ch awdurdod fel arfer beidio cytuno i gynnwys unrhyw rai o'r dyraniadau arfaethedig a'r cynllun heb fod yn sicr tu hwnt i unrhyw amheuaeth wyddonol na fydd unrhyw rai o'r dyraniadau arfaethedig yn cael effaith niweidiol ar gyfanwydd Ardal Gadwraeth Arbennig, Ardal Gwarchodaeth Arbennig neu safle RAMSAR.

Wrth asesu dyraniadau, dylid ystyried gofynion eraill y Gyfarwyddeb Cynefinoedd lle bo'n briodol. Mae hynny'n cynnwys darparu a rheoli nodweddion sy'n 'gerrig camu' a nodweddion llinellol; atal dal/lladd Rhywogaethau Ewropeaidd ar ddamwain; diogelu rhywogaethau sydd wedi'u gwarchod yn Ewropeaidd yn cynnwys ystyried dirywiad a sicrhau cydymffurfiaeth gydag Erthygl 16 o ran a yw cynnig yn ateb maen prawf sydd wedi'i restru ar gyfer llacio'r rheolau; ac a yw'r ddau brawf gorfodol yn cael eu hateb. Mae llacio rheolau Erthygl 16 yn cael ei drafod yn fanylach yn Rhan 2 isod.

Rydym yn credu bod angen i ddefnydd tir, a newid arfaethedig i ddefnydd tir, ym Môn a Gwynedd ystyried yn ddigonol ac archwilio darpariaethau perthnasol y Gyfarwyddeb Adar (fel sydd i'w weld yn Rheoliad 9(A) o newidiadau 2012 i Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010). O ran cefn gwlad ehangach, mae hyn yn ymwneud yn benodol gyda chynnal, rholi a chreu cynefin i adar gwyllt. Mae'r awdurdod cynllunio lleol yn cael ei atgoffa o ddyletswydd CNC i adrodd ar weithrediad y ddeddfwriaeth hon (Rheoliad 9(B)).

Dylid hefyd ystyried y broses o benderfynu a yw unrhyw un o'r dyraniadau safle arfaethedig yn debygol o arwain at effeithiau amgylcheddol sylweddol nad ydynt wedi cael eu harfarnu'n ddigonol yn barod trwy Asesiad Amgylcheddol Strategol y CDLI. Os ystyrir y byddant yn arwain at y fath newidiadau, dylid gwneud yr arfarniad perthnasol er mwyn ateb y Prawf Cadernid perthnasol.

Tirweddau wedi'u Gwarchod

Mae pob un o'r safleoedd posibl tu mewn i Dirwedd Gofrestredig o Ddiddordeb Hanesyddol Llŷn ac Ynys Enlli.

Er nad yw hwn yn ddynodiad statudol, mae pennod 6 o Bolisi Cynllunio Cymru'n dweud y dylai fod yn ystyriaeth berthnasol yn y broses gynllunio, a rhaid rhoi ystyriaeth briodol iddo.

Rhywogaethau wedi'u Gwarchod

Mae angen ystyried ymhellach effaith bosibl datblygiad ar statws cadwraeth ffafriol rhywogaethau wedi'u gwarchod. Mae'r rhywogaethau sy'n bresennol yng Ngwynedd yn cynnwys y dyfrgi, ystlumod, y fadfall dŵr cribog a llygoden bengron y dŵr.

Rydym yn cymryd nad oes arolygon ecolegol manwl wedi digwydd i unrhyw un o'r safleoedd posibl.

Lle mae Rhywogaeth Ewropeaidd wedi'i Gwarchod yn bresennol, gall datblygiad ddigwydd ddim ond os bodlonir darpariaethau llacio rheolau Erthygl 16 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd. Y llacio rheolau Erthygl 16 perthnasol ar gyfer datblygiad yw:

...bod y cynnig yn un ar gyfer amddiffyn iechyd neu ddiogelwch y cyhoedd, neu am resymau eraill o reidrwydd sydd o fudd uwchben popeth arall i'r cyhoedd, yn cynnwys rhai o natur gymdeithasol neu economaidd a bod canlyniadau buddiol o bwysigrwydd pennaf i'r amgylchedd.

Ymhellach i hynny, mae angen hefyd cydymffurfio gyda dau brawf statudol sef:

nad oes unrhyw ddewis arall boddhaol; a hefyd

na fydd y gweithredu a awdurdodir yn niweidiol i gynnal y boblogaeth o'r rhywogaeth dan sylw ar statws sy'n ffafriol i gadwraeth yn eu cwmpas naturiol.

Nid yw manylion y dyraniadau'n ateb materion mewn perthynas â dal/lladd Rhywogaethau Ewropeaidd ar ddamwain (gweler Rheoliad 51 Reoliadau Gwarchod Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010/Erthygl 15 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd). Rhaid i unrhyw ddyraniadau sydd ag oblygiadau ar gyfer Rywogaethau Ewropeaidd Atodiad IV gynnwys cyfyngiadau sy'n atal neu'n lleihau dal/lladd ar ddamwain.

5. Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig ('NERC') (2006).

Nodwch os gwelwch yn dda nad ydym wedi ystyried effeithiau posibl ar yr holl ddiddordebau lleol neu ranbarthol. Felly, ni ddylech ddiystyru'r posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar y fath ddiddordebau, a fyddai'n berthnasol i ddyletswydd gyffredinol eich Awdurdod i ystyried cadwraeth bioamrywiaeth, fel sydd i'w weld yn adran 40 Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig ('NERC') (2006). Mae'r cyngor hwn yn cynnwys unrhyw ystyriaeth o'r bwriad i ddarparu cynefinoedd 'llinellol' neu 'gerrig camu' fel y diffinnir yn Erthygl 10 y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

I gydymffurfio gyda dyletswydd eich awdurdod o dan adran 40 Deddf NERC, sef i roi ystyriaeth i gadwraeth bioamrywiaeth, dylai eich penderfyniad gymryd i ystyriaeth effeithiau niweidiol posibl ar y fath ddiddordebau. Rydym yn argymhell eich bod yn cael cyngor pellach oddi wrth ymgynghorydd ecolegol mewnol eich awdurdod a/neu sefydliadau cadwraeth natur trydydd sector, fel yr ymddiriedolaeth bywyd gwyllt lleol, RSPB ayyb. Mae cyfarwyddyd ar wefan Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ar gyfer asesu cynigion sydd ag oblygiadau ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau adran 42 (www.bioamrywiaethcymru.org.uk).

6. Cynefinoedd a Safleoedd Bywyd Gwyllt Atodiad 1

Rydym yn eich cynghori i ymgynghori gyda'ch ecolegydd a Cofnod mewn perthynas â'r posibilrwydd fod unrhyw gynefinoedd Atodiad 1 tu mewn i ffiniau unrhyw un o'r dyraniadau arfaethedig.

Diolch i chi am y cyfle i roi sylwadau ar addasrwydd y dyraniadau safle arfaethedig. Os byddwch eisiau trefnu cyfarfod i drafod ein sylwadau ymhellach, neu eisiau eglurhad o unrhyw faterion a godwyd, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir

MR GARETH THOMAS

Swyddog Cyswllt Cynllunio

Ebost gareth.Thomas@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Deialu uniongyrchol 01248 48 4075

Angharad Crump

cc: